



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2025/26

CYFLWYNIAD

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n rhoi gwybodaeth am Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Bydd yn rhoi gwybodaeth i'r darllenydd am ein gwasanaethau, y gofal a ddarparwn a'r hyn a wnawn i gynllunio, darparu a gwella'r gwasanaethau hynny. Yn ogystal, bydd yn rhoi manylion i'r darllenydd am berfformiad yr Ymddiriedolaeth a sut y gwnaethom ymateb i ofynion a heriau newidiol yn 2025/26.

Yn unol â Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru 2025/26 a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF, mae ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2025/26 yn cynnwys y canlynol:

Rhan 1: Adroddiad Perfformiad sy'n manylu ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn a sut y gwnaethom addasu ac ymateb i'r pwysau ar y system sy'n effeithio ar ein cleifion a'n pobl ar hyn o bryd.

Rhan 2: Adroddiad Atebolrwydd sy'n manylu ar y gofynion atebolrwydd allweddol a'n Datganiad Llywodraethu, sy'n darparu gwybodaeth am sut mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli adnoddau a risgiau, ac yn cydymffurfio â threfniadau llywodraethu, staff a chydabyddiaeth ariannol.

Rhan 3: Datganiadau Ariannol sy'n manylu ar sut mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwario ei harian a chyflawni ei rhwymedigaethau. Mae'r rhain ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 ac wedi'u paratoi i gydymffurfio â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a fabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) Trysorlys EF, gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru o dan atodlen 9 adran 178 Para 3 (1) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42) yn y ffurf y cyfarwyddodd Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

Mae Adroddiad Dyletswydd Ansawdd ar gyfer 2025/26 wedi'i baratoi ar wahân ac mae'r datgeliadau sy'n ofynnol yn unol â'r ddyletswydd adrodd gonestrwydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Adroddir yn rheolaidd ar y ddyletswydd gonestrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch ac yn yr Adroddiadau Gweithio i Wella. Bydd hyn yn cael ei gynnwys ar dudalen we [cyhoeddiadau](#) yr Ymddiriedolaeth maes o law.

Mae Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg yn cael ei baratoi ar wahân, sy'n cwmpasu cydymffurfedd yr Ymddiriedolaeth â Safonau'r Gymraeg a Chynllun Gweithredu Mwy na Geiriau

Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cael ei gynnwys ar dudalen we [cyhoeddiadau](#) yr Ymddiriedolaeth maes o law.

Er bod acronymau'n cael eu hesbonio'n llawn pan gânt eu defnyddio gyntaf, cynhwysir rhestr termau yn Atodiad 3 i Ran 2 er hwylustod. Os oes angen fersiwn printiedig o'r Adroddiad Blyneddol arnoch, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd yn Trish.Mills@wales.nhs.uk.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg / This document is available in Welsh. Bydd fersiwn Cymraeg Adroddiad Blyneddol 2025/26 ar gael ar dudalen we [Cyhoeddiadau](#) yr Ymddiriedolaeth maes o law.

GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD A'R PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

Croeso i Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ar gyfer 2025/26. Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd fwy o wybodaeth am ein perfformiad, y ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau a sut rydym wedi rheoli ein hadnoddau i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i bobl Cymru.

Nid yw'n gyfrinach bod y system gofal brys a gofal mewn argyfwng, ynghyd â llawer o'r GIG ledled y DU, yn parhau i fod dan bwysau parhaus. Fodd bynnag, drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi dechrau gweld arwyddion o welliant o fewn ein sefydliad ac ar draws GIG Cymru.

Mae hon hefyd wedi bod yn flwyddyn arloesol i ni o ran newidiadau i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn mesur ein perfformiad, a'r ffordd rydym yn darparu gofal i'n cleifion. Mae cyflwyno Fframwaith Perfformiad Ambiwylansys Llywodraeth Cymru wedi golygu ffocws cliriach ar ganlyniadau cleifion, tra bod trawsnewid ein model clinigol wedi ein gweld yn buddsoddi mewn brysbennu clinigol i sicrhau eu bod yn derbyn y gofal iawn ar gyfer eu hanghenion.

Mae bron i 60% o alwadau 999 bellach yn derbyn asesiad clinigol o bell, gan leihau cludo diangen i'r ysbyty yn sylweddol a gwella profiad y claf. Mae ein gwasanaeth GIG 111 yn parhau i chwarae rhan hanfodol fel pwynt mynediad cenedlaethol at ofal brys, gyda chefnogaeth arloesedd digidol parhaus. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod bod heriau perfformiad yn parhau, yn enwedig yn ystod cyfnodau o alw uchel, a bod angen gwelliant pellach.

Rydym yn ddiolchgar i'n cydweithwyr ar draws y GIG ehangach yng Nghymru, lle rydym wedi gweld rhai gwelliannau pwysig mewn oedi wrth drosglwyddo cleifion, sydd wedi gwella diogelwch i gleifion ac wedi creu profiad gwell i'n criwiau. Rydym yn parhau i weithio gyda byrddau iechyd ledled Cymru i gefnogi ein huchelgais ar y cyd i leihau oedi wrth drosglwyddo cleifion i'r ysbyty, a bydd y gwaith hwn yn parhau i fod yn ffocws yn 2026/27.

O ran ein Gwasanaethau Cludiant Cleifion Di-frys, mae'r cynnydd yn y galw a chymhlethdod cynyddol yr achosion wedi effeithio ar ddibynadwyedd y gwasanaeth a phrofiad cleifion eleni. Rydym yn mynd ati'n weithredol i fynd i'r afael â hyn, gan weithio'n agos gyda'n comisiynwyr a Llywodraeth Cymru, a bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol dros y flwyddyn i ddod.

Wrth gwrs, yn ogystal â'n ffocws ar ofal clinigol, mae angen i ni sicrhau bod gennym y trefniadau stiwardiaeth ariannol a llywodraethu cywir ar waith i ddangos cryfder ein trefniadau llywodraethu. Mae'r Bwrdd wedi cynnal goruchwyliaeth glir o ansawdd, perfformiad, cyllid a risg, wedi'i chefnogi gan system aeddfed o reolaeth fewnol. Rydym yn parhau i werthfawrogi'r mewnwediadau a ddarperir gan Archwilio Cymru ac archwilio mewnol, sy'n cydnabod arweinyddiaeth effeithiol a llywodraethu cadarn wrth gefnogi gwelliant parhaus. Mae tryloywder, dysgu ac atebolrwydd yn parhau i fod yn ganolog i'n dull gweithredu fel sefydliad gwasanaeth cyhoeddus.

Er gwaethaf pwysau gweithredol sylweddol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal sefydlogrwydd ariannol yn ystod 2025/26, gan gyflawni gwarged bach a chyflawni ei dyletswyddau ariannol statudol. Cyflawnwyd hyn drwy reolaeth ariannol ddisgybledig a chyflawni arbedion effeithlonrwydd, gan barhau i fuddsoddi mewn meysydd blaenoriaeth gan gynnwys y gweithlu, gallu digidol, fflyd a seilwaith. Mae ein rhaglen gyfalaf wedi cefnogi gwelliannau i'n hystâd a'n cyfraniad at yr agenda datgarboneiddio.

Rydym yn ymwybodol bod cynnal sefydliad sy'n gytbwys yn ariannol yn heriol yn yr hinsawdd bresennol, ac rydym yn parhau'n ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid, comisiynwyr a Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gwerth gorau posibl o fewn y cyllid sydd ar gael i ni.

Mae ein staff a'n gwirfoddolwyr yn ganolog i bopeth a wnawn. Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn eu llesiant, eu datblygiad a'u harweinyddiaeth, gan gydnabod yr effaith y gall pwysau gweithredol parhaus ei chael ar unigolion a thimau. Er bod cynnydd wedi'i wneud o ran cryfhau ein diwylliant sefydliadol a'n hymgysylltiad, gwyddom fod mwy i'w wneud. Bydd cefnogi ein pobl, lleihau absenoldeb, a sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol a chynhwysol yn parhau i fod yn ganolog i'n hagenda gweithlu.

Wrth i ni edrych tua 2026/27, mae ein blaenoriaethau'n glir. Byddwn yn parhau i wreiddio ein model clinigol, cryfhau partneriaethau ar draws y system iechyd a gofal, a chanolbwyntio ar y camau gweithredu hynny a fydd â'r effaith fwyaf ar ddiogelwch, profiad a chanlyniadau cleifion.

Rydym yn cydnabod bod llawer o'r heriau sy'n ein hwynebu yn systemig ac na ellir mynd i'r afael â nhw ar eu pen eu hunain. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, comisiynwyr, byrddau iechyd a'n partneriaid ehangach i gyflawni gwelliannau cynaliadwy i bobl Cymru.

Yn olaf, hoffem ddiolch i'n staff, gwirfoddolwyr, partneriaid a'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae eich cefnogaeth, eich gwydnwch a'ch ymrwymiad yn parhau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Gyda'n cofion gorau,

Colin Dennis

Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth



Emma Wood

Prif Swyddog Gweithredol



CYNNWYS YR ADRODDIAD

CYFLWYNIAD.....	2
RHAN 1: ADRODDIAD PERFFORMIAD.....	9
TROSOLWG O BERFFORMIAD	10
Cyflwyniad.....	10
Datganiad gan y Prif Swyddog Gweithredol	10
Meysydd cyfrifoldeb.....	12
Ein diben a'n strategaeth hirdymor	12
Crynodeb o berfformiad yn 2025/26	13
DADANSODDIAD O BERFFORMIAD A CHYFLAWNI	22
CYFLWYNO GWASANAETH EFFEITHIOL	22
Gwasanaethau Meddygol Brys 999	23
GIG 111 Cymru.....	40
Gwasanaethau Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS).....	46
Ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac adborth cleifion.....	52
CYFLAWNI MEWN PARTNERIAETH	56
Arweinyddiaeth systemau a gwaith partneriaeth effeithiol.....	56
Ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaeth gymdeithasol	57
Llwybrau gofal ac integreiddio systemau ehangach.....	60
Cynllun iechyd menywod.....	61
Goresgyn anghydraddoldebau iechyd.....	62
CRYFHAU'R SEFYDLIAD.....	63
Llywodraethu corfforaethol a rheoli risg	64
Sefyllfa ariannol a chynaliadwyedd	65
Diwylliant a'r gweithlu.....	67
DIGIDOL, ARLOESED A SEILWAITH.....	87
Gwireddu potensial digidol ac arloesedd	87
Seilwaith	88
CYFLWYNO CYNLLUN TYMOR CANOLIG INTEGREDIG 2025/26.....	92
BLAENORIAETHAU GWEINIDOGOL / CHWE NOD - TROSOLWG O GYNYDD 2025/26.....	94



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust

RHAN 2: ADRODDIAD ATEBOLRWYDD.....	96
YR ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL	98
Adroddiad y Cyfarwyddwyr.....	98
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol.....	102
Y Datganiad Llywodraethu.....	106
Fframwaith Llywodraethu'r Ymddiriedolaeth.....	107
Diben y system rheolaeth fewnol	118
Y gallu i ymdrin â risg	118
Parodrwydd am argyfwng a gweithrediadau arbenigol.....	125
Y fframwaith rheoli.....	127
Adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli mewnol.....	142
Casgliad yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol.....	143
ADRODDIAD AR DÂL CYDNABYDDIAETH A STAFF	153
Tâl.....	153
Adroddiad Staff.....	162
Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru	170
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilio.....	171
RHAN 3:.....	178
DATGANIADAU ARIANNOL.....	178



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust

RHAN 1: ADRODDIAD PERFFORMIAD

TROSOLWG O BERFFORMIAD

Cyflwyniad

Nod y Trosolwg o Berfformiad hwn yw darparu adroddiad integredig ar ansawdd, diogelwch cleifion, profiad y claf a pherfformiad Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) ar gyfer y cyfnod rhwng 01 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Cynhyrchir yr Adroddiad Perfformiad yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru 2025/26.

Datganiad gan y Prif Swyddog Gweithredol

Mae ein cleifion a'n pobl yn parhau i gyrchu a gweithio mewn system gofal iechyd sy'n profi cyfnodau o bwysau uchel mewn ysbytai a'n cymunedau, gyda niwed i gleifion y gellir ei osgoi ac anaf moesol i'n staff o ganlyniad. Yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 2026, nododd adroddiad asesu niwed i gleifion yr asesiadau cyffredinol canlynol ar gyfer y tri llwybr cleifion yn WAST:

- Llwybr GIG 111: niwed posibl wedi'i asesu fel isel, er y gallai oedi wrth gael cyngor clinigol gynyddu amlygiad i ddirywiad ar gyfer nifer fach o gleifion
- Llwybr 999 / Gwasanaeth Meddygol Brys: niwed posibl wedi'i asesu fel canolig, wedi'i yrru'n bennaf gan oedi parhaus yn y system a chyfyngiadau argaeledd ambiwlansys sy'n gysylltiedig ag oedi wrth drosglwyddo cleifion i'r ysbyty
- Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys: Niwed posibl wedi'i asesu fel canolig, gan adlewyrchu pwysau gweithredol gan gynnwys archebion byr rybudd a chansladau system

Mae lefelau niwed i gleifion wedi dechrau lleihau oherwydd camau gweithredu a gymerwyd gan yr Ymddiriedolaeth a'i phartneriaid. Yn 2024, cychwynnodd yr Ymddiriedolaeth ar raglen trawsnewid clinigol sy'n arwain y sector, gyda'r nod o asesu a thrin mwy o gleifion yn glinigol yn y gofod anghysbell ac yn ein cymunedau a thargedu anfon adnoddau brys at y cleifion hynny sydd fwyaf mewn angen, y bydd angen eu cludo i adrannau argyfwng. Mae'r trawsnewidiad hwn wedi cael ei gefnogi gan bartneriaid, gyda Llywodraeth Cymru yn rhoi'r Fframwaith Perfformiad Ambiwylansys newydd ar waith, a weithredwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn 2025/26.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhoi mwy o sylw i ryddhau capasiti ambiwlansys argyfwng, gan ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gyrraedd y targed trosglwyddo ambiwlansys 45, h.y. uchafswm o 45 munud i drosglwyddo claf mewn ambiwlans argyfwng i'r ysbyty.

Mae arwyddion cadarnhaol, gyda llai o achosion o gleifion yn canslo, cyfradd ROSC (adferiad cylchrediad digymell) sy'n gwella, y gyfradd ymgynghori a chau uchaf y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i chyflawni, llai o oriau a gollwyd wrth drosglwyddo, perfformiad ateb galwadau 111 sefydlog i raddau helaeth a pherfformiad da o ran gwasanaethau arenol ac oncoleg.

Mae'r adrannau trosolwg o berfformiad a dadansoddiad o berfformiad a chyflawni yn yr adroddiad blynyddol hwn yn rhoi mwy o fanylion. Ond mae llawer i'w wneud o hyd i'r Ymddiriedolaeth a'i phartneriaid er mwyn cyflawni'r lefelau o ddiogelwch cleifion yr ydym eu heisiau ar gyfer y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. I'r perwyl hwn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydgrynhoi ei Chynllun Tymor Canolig Integredig 2026-29, er mwyn rhyddhau capasiti i gefnogi'r camau gweithredu hynny a fydd â'r effaith fwyaf ar gleifion a staff. Mae meysydd ffocws penodol yn cynnwys pen blaen digidol 111, gwireddu manteision trawsnewid y model clinigol a chynyddu nifer y teithiau cleifion a gwblhawyd ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a'r Cyd-Bwyllgor Comisiynu ar ystod o faterion strategol a bydd yn parhau i wneud hynny yn 2026/27 a thu hwnt. Yn nodedig mae cefnogaeth a monitro parhaus o'r fenter trosglwyddo ambiwlansys 45, yn ogystal a'r adolygiad strategol o wasanaethau gan y Cyd-bwyllgor Comisiynu ac adolygiad bwrdd gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a ddechreuodd ym mis Ionawr 2026.

Yn olaf, hoffwn ailadrodd fy nioch i'r holl staff a gwirfoddolwyr, partneriaid golau glas, comisiynwyr, y sector preifat a'r sector gwirfoddol am eu cefnogaeth barhaus.

Emma Wood
Prif Swyddog Gweithredol

Meysydd cyfrifoldeb

Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl ledled Cymru, gan ddarparu gofal clinigol o ansawdd uchel sy'n cael ei arwain gan gleifion lle bynnag a phryd bynnag y bo angen. Mae gwasanaethau'n cynnwys y canlynol:


- Gwasanaethau Meddygol Brys (EMS) 999: gan gynnwys ateb galwadau, ymgynghori clinigol o bell, gweld a thrin ac os oes angen, cludo i'r ysbyty neu gyfleuster trin priodol
- Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (a elwir hefyd yn Ofal Ambiwylans): gan gynnwys ateb galwadau, cynllunio teithiau, comisiynu gwasanaethau, cludo cleifion i apwyntiadau ysbyty ac oddi yno a'u trosglwyddo rhwng ysbytai a chyfleusterau trin
- Y gwasanaeth 111: gwefan a gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim, sy'n borth llinell gyntaf i daith glaf o fewn y system iechyd a gofal, gan roi'r cyngor neu'r atgyfeiriad iawn i'r claf
- Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cefnogi gwirfoddolwyr: Ymatebwr Cyntaf yn y Gymuned, Ymatebwyr Lles Cymunedol ac ymatebwyr mewn lifrai i ddarparu adnoddau ymateb ychwanegol ar gyfer galwadau brys a Gwasanaeth Ceir Gwirfoddol i gynorthwyo â chludo cleifion i apwyntiadau wedi'u trefnu.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn wasanaeth a gomisiynwyd ar gyfer EMS, GIG 111 Cymru a Gofal Ambiwylans trwy Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru. Mae'r Cyd-bwyllgor Comisiynu yn gyd-bwyllgor o'r saith bwrdd iechyd.

Ein diben a'n strategaeth hirdymor


Datganiad pwrpas WAST yw '*I Gefnogi, I Wasanaethu, I Achub*'. Mae'r datganiad byr ond pwerus hwn yn ceisio disgrifio rheswm craidd y sefydliad dros fod, gan uno pawb tuag at nod cyffredin.





Mae ein Fframwaith Strategol Hirdymor 'Sicrhau Rhagoriaeth' yn nodi gweledigaeth y sefydliad ar gyfer y dyfodol hyd at 2030. Mae'r strategaeth wedi'i fframio o amgylch trawsnewid y model gwasanaethau clinigol i sicrhau bod cleifion yn cael y cyngor a gofal iawn, yn y lle iawn, bob tro. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflymu ei huchelgais yn ystod 2025/26 i esblygu o wasanaeth ambiwlans a chlodiant traddodiadol. Mae wedi symud tuag at wasanaeth clinigol integredig sy'n cydweithio â'r system iechyd a gofal i ddiwallu anghenion cleifion sy'n cysylltu â ni drwy 111, 999 a'n gwasanaethau di-frys yn y ffordd orau bosibl mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o'r bunt Gymreig, gan ychwanegu gwerth at y system yr ydym yn gweithio ynddi. Bydd ein strategaeth hirdymor yn cael ei hadolygu a'i hadnewyddu yn ystod 2026/27.

'Sicrhau Rhagoriaeth' – Ein Strategaeth Hirdymor



Crynodeb o berfformiad yn 2025/26

Mae'r Ymddiriedolaeth yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi iechyd a llesiant poblogaeth Cymru drwy ddarparu gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn genedlaethol. Fel yr unig ddarparwr gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu ar raddfa fawr ar draws system gofal iechyd gymhleth a dan bwysau, gan ymateb i argyfyngau sy'n peryglu bywyd, darparu cyngor clinigol a brysbennu, cefnogi gofal wedi'i gynllunio trwy wasanaethau cludiant cleifion, a gweithio'n agos gyda phartneriaid ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r trosolwg o berfformiad hwn yn rhoi cyfrif naratif cynhwysfawr o ddarpariaeth a pherfformiad yn ystod 2025/26, gan nodi'r cyd-destun y darparwyd gwasanaethau ynddo, y

cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn, a'r heriau sy'n parhau i fod angen gweithredu cydlynol gan y system.

Drwy gydol 2025/26 bu'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu mewn amgylchedd eithriadol o heriol. Arhosodd y galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng yn gyson uchel, roedd capasiti mewn ysbytai aciwt wedi'i gyfyngu, parhaodd rhyddhau cleifion yn hwyr i effeithio ar lif cleifion, a pharhaodd pwysau ar y gweithlu ar draws GIG Cymru. Cyfunodd y ffactorau hyn i roi pwysau parhaus ar wasanaethau ambiwlans a'r system gofal brys ehangach. Er gwaethaf hyn, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth wydnwch gweithredol, parhaodd i ddarparu gofal diogel i gannoedd o filoedd o gleifion, a chynnyddodd drawsnewidiad sylweddol o'i model clinigol a gweithredol yn unol â pholisi cenedlaethol ac uchelgais strategol.

Roedd y flwyddyn yn un o drawsnewid a newid. Roedd cyflwyniad graddol Fframwaith Perfformiad Ambiwylansys Llywodraeth Cymru yn cynrychioli symudiad sylfaenol i ffwrdd o'r ddibyniaeth hanesyddol ar dargedau amser ymateb fel y prif ddangosydd perfformiad. Yn hytrach, mae'r fframwaith yn rhoi pwyslais ar niwed clinigol, profiad y claf a chanlyniadau i gleifion, gan ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau ambiwlans a phartneriaid system asesu perfformiad drwy safbwynt sy'n canolbwyntio'n fwy ar y claf ac sydd â mwy o ystyr clinigol. Fe wnaeth y newid hwn lunio sut y cafodd perfformiad ei reoli, ei drafod a'i sicrhau drwy gydol y flwyddyn ac roedd yn gofyn am newid diwylliannol sylweddol ar draws yr Ymddiriedolaeth a'r system ehangach.

Ochr yn ochr â'r newid hwn yn y fframwaith perfformiad, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i wreiddio ei uchelgais hirdymor i weithredu fel gwasanaeth gofal brys a gofal mewn argyfwng y tu allan i'r ysbyty dan arweiniad clinigol. Mae'r uchelgais hon yn ganolog i gyfeiriad polisi cenedlaethol ac i strategaeth yr Ymddiriedolaeth ei hun, gan gefnogi pobl i dderbyn y gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr amser iawn. Drwy gryfhau asesiadau clinigol, ehangu llwybrau gofal a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau cymunedol, mae'r Ymddiriedolaeth yn anelu at leihau'r angen am ymateb corfforol, lleihau cludo cleifion i'r ysbyty y gellir ei osgoi, gwella profiad cleifion a chefnogi system gofal brys fwy cynaliadwy.

Ni ellir gorbwysleisio'r cyd-destun gweithredu yn ystod 2025/26. Creodd y galw cynyddol am ofal brys a gofal mewn argyfwng, ynghyd â chyfyngiadau yng nghapasiti ysbytai a phrinder gweithlu ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol, bwysau parhaus ar y system. Adlewyrchwyd y pwysau hyn mewn oedi cynyddol mewn ambiwlansys, arosiadau hir i rai cleifion, a heriau ar draws gwasanaethau brys a gwasanaethau di-frys. Gwelwyd patrymau tebyg ar draws systemau ieuchyd yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt, gan amlygu natur systemig yr heriau hyn.

Canolbwyntiodd y gwaith cynllunio ar gyfer y gaeaf yn 2025/26 ar fodelu galw a chapasiti, gwydnwch y gweithlu, blaenoriaethu clinigol a llif y system. Nodwyd risgiau allweddol, gan gynnwys galw parhaus am wasanaethau, oedi wrth drosglwyddo cleifion i ysbytai a phwysau ar y gweithlu, gyda chamau lliniaru wedi'u diffinio megis trefniadau uwchgyfeirio cryfach, blaenoriaethu cleifion clinigol gwell, cydgysylltu gwell trwy ganolfannau rheoli systemau a buddsoddiad wedi'i dargedu mewn capasiti ychwanegol. Roedd cyflwyno cam 2 o fframwaith perfformiad ambiwlansys yn 2025/26 yn fesur lliniaru allweddol. Er gwaethaf y cyd-destun hwn, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth sefydlogrwydd sefydliadol a llywodraethu cadarn drwy gydol y flwyddyn. Cynhaliwyd parhad arweinyddiaeth yn dilyn penodi Prif Swyddog Gweithredol newydd ym mis Hydref 2025, a pharhaodd y bwrdd i oruchwylio ansawdd, perfformiad, cyllid a risg yn glir. Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i gynyddu'r sefyllfa'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, gan adlewyrchu ei gallu i reoli pwysau o fewn trefniadau llywodraethu y cytunwyd arnynt. Cynhaliwyd cydbwysedd ariannol, a rhoddodd Archwilio Cymru sicrwydd cadarnhaol drwy ei asesiad strwythuredig, gan gydnabod arweinyddiaeth effeithiol, llywodraethu cryf a rheolaeth ariannol gadarn.

Datblygiad arwyddocaol yn ystod y flwyddyn oedd cyflwyno asesiad niwed i gleifion wedi'i adnewyddu ar lefel y bwrdd. Wedi'i weithredu ym mis Mawrth 2026, mae'r fframwaith hwn yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i asesu perfformiad drwy lens diogelwch cleifion, gan ganolbwyntio'n benodol ar y potensial am niwed ar draws ei meysydd gwasanaeth craidd yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar ddangosyddion dirprwyol fel amseroedd ymateb neu lefelau gweithgaredd. Mae'r dull hwn yn cefnogi blaenoriaethu gwell, sicrwydd cliriach a sgysiau mwy ystyrlon gyda phartneriaid system ynghylch risg a lliniaru.

Ar gyfer GIG 111 Cymru, aseswyd bod y niwed posibl i gleifion yn isel. Mae mwyafrif y cysylltiadau a dderbynnir drwy'r gwasanaeth yn ymwneud â chyflyrau aciwtedd is, ac mae prosesau blaenoriaethu clinigol wedi'u cynllunio i nodi ac uwchgyfeirio cyflwyniadau risg uwch. Y prif faes risg yw oedi wrth dderbyn galwadau clinigol yn ôl yn ystod cyfnodau o alw uchel, yn enwedig ar benwythnosau ac yn ystod ymchwyddiadau tymhorol. Mae'r mesurau lliniaru yn cynnwys ciwiau clinigol wedi'u blaenoriaethu, adolygiad parhaus o batrymau staffio a rhestrau dyletswyddau, a llwybrau mynediad digidol gwell ac ymgysylltiad parhaus â chomisiynwyr ynghylch capasiti cynaliadwy yn y dyfodol.

Aseswyd bod Gwasanaethau Meddygol Brys yn cyflwyno risg ganolig o niwed i gleifion. Mae hyn yn adlewyrchu effaith barhaus oediadau ambiwlansys sy'n gysylltiedig â phwysau trosglwyddo i'r ysbyty ac arosiadau hir i gleifion aciwtedd is yn y gymuned. Yn bwysig,

dangosodd yr asesiad niwed dystiolaeth o welliant hefyd yn ystod y flwyddyn, yn enwedig wrth i berfformiad trosglwyddo i'r ysbyty ddechrau gwella a bod argaeledd ambiwlansys wedi cynyddu.

Mae lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig ag oedi ambiwlansys ac oedi mewn ymateb cymunedol yn parhau i fod yn flaenoriaeth sefydliadol bwysig ac mae'n destun craffu rheolaidd gan y bwrdd a'r pwyllgorau.

Aseswyd hefyd fod y Gwasanaethau Cludiant Cleifion Di-frys yn cyflwyno lefel ganolog o niwed posibl. Roedd y dyfarniad hwn yn cydnabod cymhlethdod cynyddol y galw, amseroedd teithio estynedig, ac effaith canslo ar fyr rybudd ar brofiad cleifion.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i weithio'n agos gyda chomisiynwyr a phartneriaid system i liniaru'r risgiau hyn, gwella dibynadwyedd a mynediad cyfartal, a chryfhau cyfathrebu â chleifion sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hyn i fynychu gofal wedi'i gynllunio a gofal arbenigol.

Mae'r Gwasanaethau Meddygol Brys yn parhau i fod yr elfen fwyaf amlwg a'r un sy'n defnyddio'r mwyaf o adnoddau yn fodel darparu'r Ymddiriedolaeth. Yn ystod 2025/26, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth tua 549,000 o alwadau brys, sy'n cyfateb i tua 420,000 o ddigwyddiadau. Er bod nifer y digwyddiadau cyffredinol wedi gostwng ychydig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, arhosodd y galw'n uchel ac yn parhau i fod yn fwy na'r capasiti sydd ar gael ar adegau prysur. Roedd hyn yn adlewyrchu pwysau parhaus ar y system a'r rhyddhad graddol o alw nas diwallwyd o'r blaen wrth i berfformiad trosglwyddo i'r ysbyty ddechrau gwella.

Arhosodd perfformiad ateb galwadau 999 yn gyson gryf drwy gydol y flwyddyn. Arhosodd amseroedd canolrifol ateb galwadau tua un eiliad, gydag amrywiad cyfyngedig yn ystod cyfnodau o alw cynyddol. Cadwodd yr Ymddiriedolaeth ei hachrediad Canolfan Ragoriaeth ar gyfer anfon adnoddau i alwadau meddygol brys, gan ddarparu sicrwydd annibynnol ynghylch ansawdd, diogelwch a chysondeb trin galwadau, blaenoriaethu a gwneud penderfyniadau yn yr ystafell reoli.

O fis Gorffennaf 2025 ymlaen, dechreuodd y Gwasanaethau Meddygol Brys weithredu o fewn y Rhaglen Trawsnewid Model Clinigol drwy Gam Un o Fframwaith Perfformiad Ambiwylansys Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd hyn categorïau newydd ar gyfer yr argyfyngau mwyaf difrifol sy'n bygwth bywyd, gan gynnwys Porffor – Ataliad, a Choch – Argyfwng, a symudodd fonitro perfformiad tuag at ganlyniadau clinigol. Ar gyfer

digwyddiadau Porffor – Ataliad, sy'n cynnwys cleifion mewn ataliad y galon neu ataliad anadlol, arhosodd perfformiad ymateb yn effeithiol yn glinigol.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal ffocws ar wella canlyniadau ar draws y gadwyn oroesi, gan gynnwys cydnabyddiaeth gynnar, adfywio cardiopwlmonaidd gan wylwyr, diffibrilio a chymorth bywyd uwch. Dechreuodd gwelliannau yng nghyfraddau Adferiad Cylchrediad Digymell (ROSC) ddod i'r amlwg dros ail hanner 2025. Fodd bynnag, mae hyn yn cynrychioli cyfeiriad cynnar y daith o fewn llwybr gwelliant tymor hwy, gyda disgwyl i enillion cynaliadwy fod yn raddol ac yn destun amrywiad parhaus o ystyried y niferoedd cymharol fach dan sylw.

Roedd perfformiad ar gyfer galwadau Coch – Argyfwng yn fwy amrywiol. Cafodd amseroedd ymateb eu heffeithio gan argaeledd ambiwlansys, pellteroedd teithio a thagfeydd ehangach yn y system. Er na chyflawnwyd disgwyliadau perfformiad cenedlaethol yn gyson, dangosodd dadansoddiad fod gwelliannau ym mherfformiad trosglwyddo i'r ysbyty a chynyddu capasiti'r gweithlu yn dechrau cefnogi adferiad. Parhaodd y galw brys o aciwtedd is i gyfrif am y rhan fwyaf o ddigwyddiadau, ac yn ystod misoedd prysur y gaeaf profodd rhai cleifion arosiadau hir yn y gymuned. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn dryloyw ynglŷn â'r risgiau hyn ac yn parhau i reoli oedi mewn ymateb cymunedol fel prif risg sefydliadol.

Parhaodd oedi wrth drosglwyddo cleifion i gael dylanwad sylweddol ar argaeledd ambiwlansys a phrofiad cleifion yn ystod 2025/26. Am lawer o'r flwyddyn, collwyd cyfran sylweddol o oriau ambiwlans tra bod criwiau'n aros y tu allan i adrannau argyfwng i drosglwyddo gofal. Roedd rhaglen trosglwyddo ambiwlansys 45 Llywodraeth Cymru yn cynrychioli ymyrraeth hollbwysig ar draws y system, wedi'i chefnogi gan ganllawiau trosglwyddo cenedlaethol wedi'u diweddarau.

Dros gyfnod y flwyddyn, dangosodd perfformiad trosglwyddo welliant cynaliadwy. Gostyngodd nifer yr oriau ambiwlans a gollwyd, gostyngodd nifer yr oediadau hir iawn, a chynyddodd dealltwriaeth y system o niwed sy'n gysylltiedig ag ambiwlansys. Er bod trosglwyddiadau dros 45 munud yn parhau i ddigwydd, yn enwedig yn ystod cyfnodau o bwysau uchel, roedd y duedd gyffredinol yn gadarnhaol. Yn bwysig, arweiniodd perfformiad trosglwyddo gwell at fwy o argaeledd ambiwlansys, gan alluogi'r Ymddiriedolaeth i ymateb i gleifion a oedd wedi profi arosiadau hir yn y gymuned yn flaenorol ac ymdrin â'r galw nas diwallwyd o'r blaen.

Parhaodd trawsnewid model clinigol i fod yn nodwedd ddiffiniol o welliant perfformiad yn ystod y flwyddyn. Galluogodd ehangu asesiadau clinigol o bell o fewn ystafelloedd rheoli

gyfran gynyddol o gleifion i dderbyn cyngor, atgyfeiriad neu ofal amgen prydlonheb yr angen i anfon ambiwlans. Erbyn diwedd 2025/26, roedd bron i 60% o'r holl alwadau 999 wedi derbyn asesiad clinigol o bell, o'i gymharu â thua 30% y flwyddyn flaenorol, sy'n cynrychioli newid sylweddol yn y ffordd y darperir gofal brys.

Cyrhaeddodd cyfraddau ymgynghori a chau eu lefel uchaf hyd yma hefyd. Roedd hyn yn adlewyrchu hyder clinigol gwell, llwybrau cefnogi penderfyniadau gwell a gweithlu clinigol mwy medrus a phrofiadol. Chwaraeodd Uwch Ymarferwyr Parafeddygol a Llywyr Clinigol rôl ganolog yn y gwelliant hwn, gan gefnogi asesiad cynnar a chyfeirio cleifion at llwybrau gofal cymunedol a sylfaenol priodol lle bo'n glinigol ddiogel gwneud hynny. Mae'r dull hwn yn lleihau cludo diangen, yn gwella profiad y claf ac yn helpu i gadw capasiti brys i'r rhai sydd fwyaf mewn angen.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i ehangu llwybrau clinigol wedi'u targedu yn ystod 2025/26, gan ganolbwyntio ar gyflyrau sydd ymhlith y ffactorau mwyaf cyffredin sy'n achosi galw brys. Datblygwyd llwybrau cwmpïadau a llwybrau anadlu ymhellach, gan gefnogi ymyrraeth gynharach, canlyniadau clinigol gwell a llai o ddibyniaeth ar bresenoldeb yn yr adran argyfwng. Darparodd Ymatebwyr Lles Cymunedol gymorth ychwanegol i gleifion ag anghenion clinigol a chymdeithasol lefel isel, yn enwedig unigolion agored i niwed a'r rhai sydd â phryderon amgylcheddol neu les. Roedd mwyafrif y cleifion a gefnogwyd drwy'r model hwn yn gallu aros yn ddiogel gartref, gan leihau cludo cleifion y gellid ei osgoi a'r pwysau ar adrannau argyfwnga gwasanaethau gofal brys.

Cafodd Uwch Ymarferwyr Parafeddygol eu gwreiddio ymhellach o fewn gwasanaethau Un Pwynt Mynediad ar draws byrddau iechyd, gan gryfhau gwneud penderfyniadau amlddisgyblaethol a gwella aliniad rhwng gwasanaethau ambiwlans, timau cymunedol a gofal sylfaenol. Er bod amrywiad yn argaeledd ac aeddfedrwydd llwybrau gofal yn parhau ledled Cymru, dangosodd cynnydd yn ystod y flwyddyn werth integreiddio agosach a pherchnogaeth a rennir o'r galw am ofal brys.

Parhaodd GIG 111 Cymru i chwarae rhan gynyddol ganolog yn y system gofal brys a gofal mewn argyfwng. I lawer o aelodau'r cyhoedd, GIG 111 yw'r pwynt cyswllt cyntaf pan fo angen cyngor neu gymorth, ac mae'r gwasanaeth yn darparu brysbennu clinigol hanfodol, llywio a sicrwydd ar raddfa fawr. Yn ystod 2025/26, ymdriniodd GIG 111 Cymru â dros filiwn o alwadau ffôn a chefnogodd fwy na phum miliwn o ryngweithiadau trwy ei sianeli digidol.

Parhaodd y galw am deffoni i fod yn uchel drwy gydol y flwyddyn, yn enwedig gyda'r nos, yn ystod penwythnosau ac ymchwyddiadau tymhorol. Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i brofi heriau ynglŷn â gadael galwadau ac amseroedd aros am alwadau yn ôl, a oedd yn bennaf

oherwydd anghydweddiad rhwng lefelau staffio a gomisiynwyd a phatrymau galw yn ystod cyfnodau prysur.

Cadarnhaodd modelu annibynnol y pwysau hyn. Er na chyflawnwyd perfformiad yn erbyn meincnodau hanesyddol yn gyson, sicrhaodd blaenoriaethu clinigol fod yr achosion mwyaf brys yn cael asesiad ac ymyrraeth brydlon.

Cynhaliwyd ymarfer ail-drefnu rhestrau dyletswyddau cynhwysfawr i alinio staffio yn well â'r galw, a pharhaodd yr Ymddiriedolaeth i ymgysylltu â chomisiynwyr ynghylch yr angen am ddatrysiadau hirdymor cynaliadwy. Helpodd gwelliannau cynhyrchiant ymhlith staff clinigol i liniaru rhywfaint o bwysau, ac roedd gwaith parhaus yn canolbwyntio ar leihau galw y gellir ei osgoi a gwella mynediad at wasanaethau digidol.

Roedd datblygiad digidol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i GIG 111 Cymru. Cefnogodd gwefan y gwasanaeth filiynau o ryngweithiadau yn ystod y flwyddyn, a gwelodd cyflwyno cynorthwyydd rhithwir wedi'i alluogi gan ddeallusrwydd artiffisial (Albot) fynediad defnyddwyr at wybodaeth a chynghor.

Aeth gwaith yn ei flaen i ddisodli'r gwiriwr symptomau ar-lein traddodiadol gyda datrysiad modern sy'n gallu blaenoriaethu mewn ffordd fwy diogel ac integreiddio gwell â gwasanaethau teleffoni. Er bod angen buddsoddiad pellach i wireddu'r uchelgais ddigidol yn llawn, dangosodd cynnydd yn ystod 2025/26 werth arloesedd digidol wrth gefnogi mynediad a llif systemau.

Mae Gwasanaethau Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS) yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi cleifion i gael mynediad at ofal wedi'i gynllunio a gofal arbenigol, gan gynnwys dialysis arenol, triniaeth oncoleg, apwyntiadau cleifion allanol a rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Yn ystod 2025/26, parhaodd y galw am wasanaethau cludo cleifion i gynyddu, wedi'i yrru gan newid demograffig, canoli gwasanaethau a chynnydd mewn aciwtedd cleifion.

Cynyddodd cymhlethdod teithiau NEPTS yn sylweddol. Roedd angen cludiant ar stretsier ar gyfran gynyddol o gleifion, cynyddodd pellteroedd teithio, a daeth amserlenni apwyntiadau yn fwy cyfyngedig, gan leihau hyblygrwydd gweithredol. O ganlyniad, cynyddodd amseroedd teithio cyfartalog a daeth y capasiti oedd ar gael yn fwyfwy dan straen. Er bod teithiau sy'n achub bywydau ac amser critigol, fel dialysis arenol a thriniaeth oncoleg, wedi'u blaenoriaethu a'u diogelu i raddau helaeth, nid oedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu bodloni'r holl alw cymwys.

Effeithiodd achosion canslo ar fyr rybudd ac oedi'n andwyol ar brofiad cleifion, a gwelwyd cynnydd yn nifer y cwynion o ganlyniad. Cydnabu'r Ymddiriedolaeth y materion hyn yn agored a gweithiodd yn agos gyda chomisiynwyr drwy gydol y flwyddyn i nodi ac ystyried opsiynau lliniaru. Roedd y meysydd ffocws yn cynnwys rhagweld galw, meini prawf cymhwysedd, rhagdybiaethau comisiynu, cyfathrebu â chleifion ac archwilio datrysiadau trafnidiaeth amgen. Mae gwella dibynadwyedd a phrofiad NEPTS yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer 2026/27 a byddwn yn ystyried cynhyrchiant o fewn yr adnoddau presennol gan barhau i fod mor hyblyg â phosibl i newid gwasanaethau iechyd ledled Cymru.

Roedd gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn ganolog i'r ddarpariaeth ar draws pob maes gwasanaeth. Cydweithiodd yr Ymddiriedolaeth â Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd, comisiynwyr, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector i gefnogi diwygio gofal brys a gofal cymunedol. Dangosodd mentrau fel Un Pwynt Mynediad, Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, llwybrau cwympiadau a gwasanaethau anadlol fanteision perchnogaeth a rennir a gweithio integredig, hyd yn oed lle mae amrywiad yn y gweithrediad yn parhau.

Parhaodd heriau i'r gweithlu drwy gydol 2025/26, yn enwedig ar draws gwasanaethau clinigol rheng flaen. Roedd recriwtio, cadw staff a llesiant yn parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol i'r sefydliad. Cymerwyd camau gweithredu wedi'u targedu i gryfhau llwybrau recriwtio, ehangu capasiti hyfforddi a chefnogi gwydnwch staff. Parhaodd yr Ymddiriedolaeth hefyd i fuddsoddi mewn datblygu arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol, gan gydnabod bod gweithlu medrus, sy'n cael ei gefnogi ac sy'n ymgysylltiedig yn allweddol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Adolygwyd a chryfhawyd trefniadau parodrwydd am argyfyngau a pharhad busnes, wedi'u llywio gan ddysgu cenedlaethol a gwaith sicrwydd mewnol. Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i fuddsoddi mewn gwydnwch sefydliadol, gan sicrhau ei bod wedi'i chyfarparu i ymateb yn effeithiol i bwysau gweithredol o ddydd i ddydd a digwyddiadau mawr.

I gloi, roedd 2025/26 yn flwyddyn o her barhaus a chynnydd ystyrion i Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Gan weithredu o fewn system gofal iechyd dan bwysau eithriadol, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaethau hanfodol i gannoedd o filoedd o gleifion wrth hyrwyddo trawsnewid clinigol a sefydliadol sylweddol.

Er bod pwysau'n parhau i fod yn amlwg, yn enwedig lle mae'r ddarpariaeth yn dibynnu ar lif system ehangach, mae cyfeiriad teithio yn glir. Cyfrannodd gwelliannau mewn perfformiad trosglwyddo cleifion i'r ysbyty, defnydd ehangach o asesiadau clinigol o bell, llwybrau cymunedol cryfach a phartneriaethau sy'n aeddfedu at leihau niwed i gleifion a gwella

profiad cleifion. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dechrau 2026/27 gyda blaenoriaethau cliriach, Cynllun Tymor Canolig Integredig cryfach a hyder cynyddol yn ei model clinigol.

Drwy dryloywder a chydweithio parhaus, a ffocws diysgog ar ddiogelwch cleifion, mae'r Ymddiriedolaeth mewn sefyllfa dda i adeiladu ar y cynnydd a wnaed a pharhau â'i thaith tuag at ddarparu gofal brys a gofal mewn argyfwng o ansawdd uchel, dan arweiniad clinigol, i bobl Cymru.

DADANSODDIAD O BERFFORMIAD A CHYFLAWNI

Mae'r adran hon yn rhoi sylwebaeth ar fesurau perfformiad allweddol yr Ymddiriedolaeth a dadansoddiad o berfformiad integredig manylach o ddarpariaeth gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth.

CYFLWYNO GWASANAETH EFFEITHIOL


Dros y degawd diwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod ar flaen y gad o ran gofal brys a gofal mewn argyfwng cyn mynd i'r ysbyty dan arweiniad clinigol, gyda ffocws ar ddarparu gofal a gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion.

Yn 2024, lansiodd yr Ymddiriedolaeth ei rhaglen Trawsnewid Model Clinigol uchelgeisiol a symudodd y model ymateb clinigol presennol, a gyflwynwyd gyntaf ym mis Hydref 2015, ymlaen i fodel gwasanaethau clinigol integredig. Ysgogwyd y symudiad hwn gan gydnabyddiaeth nad oedd llawer o gleifion yn cael eu gwasanaethu'n dda gan y model gofal presennol a bod angen dybryd i sicrhau bod gwasanaethau mwy diogel yn glinigol yn cael eu darparu, gan leihau niwed a galluogi mwy o bobl i dderbyn y gofal cywir gartref neu'n nes at y cartref.

Mae'r model newydd yn dwyn ynghyd dri gwasanaeth craidd - Gwasanaethau Meddygol Brys (999), GIG 111 Cymru, a Gofal Ambiwylans (Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys – neu NEPTS) yn un gwasanaeth integredig, dan arweiniad clinigol. Mae cyflwyno'r model newydd, gyda'i ffocws ar ddull "dim drws anghywir" i gleifion a mynediad cyfartal at wasanaethau yn seiliedig ar angen clinigol, waeth beth fo'r dull o gysylltu â'r gwasanaeth ambiwlans, yn seiliedig ar nifer o egwyddorion allweddol, sef:

- dan arweiniad clinigol - mwy o fewnbwn clinigol yn gynharach a thrwy gydol taith y claf, gyda chanlyniadau clinigol yn ysgogi newid
- yn gysylltiedig - cysylltiadau gwell rhwng systemau, prosesau a phobl i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal cywir, ni waeth beth yw eu pwynt mynediad
- cynllunio gofal - cynlluniau gofal personol gyda goruchwyliaeth glinigol gref nes bod anghenion cleifion yn cael eu diwallu
- dewis - mwy o opsiynau ar gyfer asesiadau wyneb yn wyneb, gan ganiatáu triniaeth ddiogel gartref a llai o ymweliadau ag Adrannau Argyfwng
- cydweithio - partneriaethau cryfach gyda sefydliadau iechyd cenedlaethol a lleol i ddarparu'r llwybrau gofal cywir yn nes at y cartref.

Mae esblygiad y model yn ategu fframwaith perfformiad ambiwlansys newydd Llywodraeth Cymru ac mae'n canolbwyntio ar optimeiddio'r ffordd y darperir gofal gyda ffocws clinigol mwy craff, gyda'r manteision disgwylidig fel yr amlinellir yn y ddelwedd isod.



Mae modelu hirdymor yn dangos, wrth i'r model gwreiddio a dangos ei fanteision, y dylai'r cydbwysedd adnoddau allu ailgalibro, fel bod mwy o adnoddau'n cael eu cyfeirio at y pwyntiau mynediad yn GIG 111 Cymru, 999 a gofal ambiwlans a dewisiadau eraill yn lle ymateb wyneb yn wyneb, gyda'r posibilrwydd y bydd llai o ofyniad am ambiwlansys argyfwng. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yn cymryd cyfnod hir i'r amnewid adnoddau hwn gael ei wireddu'n llawn a bydd angen ei gydbwyso â gallu'r Ymddiriedolaeth i gynnal ymateb i ddigwyddiad mawr neu anafusion torfol.

Isod mae rhagor o wybodaeth am sut mae'r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar wella mynediad at wasanaethau clinigol, o ran prydlondeb, diogelwch ac effeithiolrwydd, trwy ei fodel ymateb clinigol wedi'i adnewyddu, yn ogystal â manylion mwy manwl ar berfformiad gwasanaethau unigol a'r profiad a'r canlyniadau a gyflawnwyd i gleifion.

Gwasanaethau Meddygol Brys 999

Un o'r prif effeithiau ar ddarparu gwasanaethau meddygol brys eleni fu cyflwyno fframwaith perfformiad ambiwlansys newydd, canlyniad adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i briodoldeb y fframwaith blaenorol yn dilyn argymhelliad gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd.

Mae gan y fframwaith newydd ffocws clinigol ac, er bod metrig sy'n seiliedig ar amser wedi'i gadw ar gyfer y galwadau mwyaf critigol lle mae cleifion mewn cyflwr sy'n peryglu bywyd, mae'r ffocws bellach yn gryf ar wella canlyniadau clinigol. Ochr yn ochr â hynny, ac fel yr amlinellwyd uchod, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi parhau i esblygu ei model ymateb clinigol, gan sicrhau bod adolygiad ac asesiad clinigol yn digwydd yn gynharach yn nhaith y claf a bod cleifion yn derbyn y gefnogaeth glinigol sydd fwyaf priodol i'w hanghenion.

Er y bydd effaith y fframwaith newydd a'r model clinigol wedi'i adnewyddu yn destun gwerthusiad academiaidd llawn, mae'r dystiolaeth gynnar a nodir isod, ynghyd â mwy o fanylion am y ddau ddatblygiad, yn awgrymu eu bod yn cael rhywfaint o effaith gadarnhaol. Yn ogystal, mae cyflwyno'r fenter trosglwyddo ambiwlansys 45 gan Lywodraeth Cymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ryddhau ambiwlansys o Adrannau Argyfwng o fewn 45 munud i gyrraedd, wedi bod yn ddatblygiad i'w groesawu. Bu rhai gwelliannau sylweddol o ran prydlongdeb trosglwyddo cleifion o'r ysbyty yn y rhan fwyaf o ardaloedd y byrddau iechyd, sydd wedi gwella argaeledd ambiwlansys i ymateb i gleifion sy'n aros yn y gymuned, er bod yr amser a gollir yn parhau i fod ddwywaith yr amser sydd wedi'i gynnwys yn ein rhestrau dyletswyddau sydd yn eu tro yn seiliedig ar drosglwyddiad disgwylidiedig o 15 munud.


Y gallu gwell hwnnw i ymateb i gleifion sy'n aros sy'n gwella diogelwch clinigol a chanlyniadau i gleifion. Fodd bynnag, mae hefyd yn golygu nad oes gwelliant uniongyrchol o bosibl mewn perfformiad ar hyn o bryd, gan fod y gwasanaeth yn ymateb i angen nas diwallwyd o'r blaen. Dros amser, ac wrth i welliannau mewn amseroedd trosglwyddo cleifion mewn ysbytai ddod yn fwy cynaliadwy a chyson ar draws Cymru, dylai hyn arwain at welliant cyfatebol mewn perfformiad. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan integreiddio pellach a gwell mynediad at wasanaethau cymunedol a ddarperir gan fyrddau iechyd, a fydd yn lleihau ymhellach nifer y cleifion sy'n cael eu cludo i adrannau argyfwng. Wrth gwrs, bydd gwelliannau parhaus yng nghynhyrchiant ac effeithlonrwydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn cyfrannu at hyn.

Mae'r paragraffau isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am berfformiad y Gwasanaethau Ambiwylans, a asesir drwy ystod o fetrigau amser ymateb, dangosyddion clinigol, a mesurau canlyniad, y mae rhai ohonynt wedi newid yn ystod y flwyddyn ariannol hon o ganlyniad i gyflwyno'r fframwaith perfformiad ambiwlansys newydd.

Galw ac ateb galwadau

Yn ystod y 12 mis diwethaf, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 549,000 o alwadau i 999, a oedd yn ymwneud â 420,000 o ddigwyddiadau. Gostyngodd y galw am ddigwyddiadau 3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae perfformiad ateb galwadau yn parhau i fod yn gadarnhaol ac yn cymharu'n dda â gwasanaethau ambiwlans eraill y DU. Yn ystod y 12 mis diwethaf, yr amser canolrifol i ateb galwadau fu un eiliad, ac mae'r graff isod yn dangos bod peth gostyngiad wedi bod yn yr amseroedd aros hiraf (95ain ganradd), a oedd yn 36 eiliad ym mis Rhagfyr 2025. Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ei hachrediad 'Canolfan Ragoriaeth' gan yr International Academy of Emergency Dispatch, gan gydnabod defnydd o safon o'r System Anfon â Blaenoriaeth Feddygol ar gyfer brysennu galwadau 999.



Perfformiad yng Nghategoriâu Porffor – Ataliad a Choch – Argyfwng (Coch yn flaenorol)

O fis Gorffennaf 2025 ymlaen, cyflwynwyd y categorïau Porffor – Ataliad a Choch – Argyfwng ar gyfer y rhai sydd mewn ataliad anadlol neu ataliad y galon, fel rhan o fframwaith perfformiad ambiwlansys newydd. I gleifion sydd wedi cael ataliad y galon neu ataliad anadlol, mae tystiolaeth glir yn cysylltu canlyniadau gwell a'r gadwyn oroesi – cyfres o gamau hanfodol sy'n gwella siawns o oroesi. Mae'r camau hyn wedi'u hamlinellu yn y diagram isod ac maent yn adlewyrchu'r dull gweithredu a gymerwyd gan yr Ymddiriedolaeth o ran ataliadau. Drwy ganolbwyntio ar hyn ar draws y system, y disgwyl yw y bydd mwy o fywydau'n cael eu hachub. Nawr bod yr Ymddiriedolaeth hefyd yn cynnwys Achub Bywyd Cymru, mae cyfle gwell i greu "cenedl o achubwyr bywydau" yng Nghymru trwy integreiddio

rhaglenni addysg gyhoeddus sy'n annog mwy o bobl i ddysgu adfywio cardiopwlmonaidd (CPR) a sut i ddefnyddio diffibriliwr mynediad cyhoeddus.

Y Gadwyn Oroesi



Early recognition and call for help: Prompt identification of cardiac arrest and calling 999 for emergency assistance



Early CPR: Immediate cardiopulmonary resuscitation (CPR) with an emphasis on chest compressions. Anyone can do it – bystander action is key to building a nation of lifesavers




Early defibrillation: Swift use of defibrillators to restore a normal heart rhythm



Post-resuscitation care: Comprehensive care after ROSC to improve survival rates

Ar gyfer cleifion Porffor – Ataliad, y prif fesur ar gyfer canlyniadau yw canran y bobl sy'n cael curiad calon wedi'i adfer ar ôl cyfnod o ataliad y galon a gedwir wedyn tan gyrraedd yr ysbyty (adferiad cylchrediad digymell (ROSC)). Mae mesurau eraill sy'n gysylltiedig â'r Gadwyn Oroesi yn cynnwys yr amser mae'n ei gymryd i ddechrau rhoi CPR a'r amser i ddefnyddio diffibriliwr yn y lleoliad/ochr y claf.



Mae cyfraddau ROSC yn uwch nag yr oeddent nifer o flynyddoedd yn ôl ond maent wedi sefydlogi yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gydag amrywiad i'w weld bob mis. Mae'n debyg y cyflawnir y gwelliant mwyaf arwyddocaol mewn perfformiad drwy gyflwyno cynllun ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty ar gyfer y system gyfan, ac mae perfformiad ROSC dan graffu cyson i ddeall beth arall y gellir ei wneud i wella perfformiad, gan gydnabod y bydd gwelliannau o'r fath yn raddol ac yn amodol ar nifer o newidynnau. Gan fod amlder achosion o ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty yn gymharol isel, mae amrywiad yn y perfformiad o fis i fis, felly mae'n hanfodol ystyried hyn fel tuedd gyffredinol dros y tymor hwy.



Ar gyfer cleifion yn y categori Coch – Argyfwng, oherwydd ehangder y cyflwyniadau o fewn y categori hwn, mae ystod o fesurau canlyniad clinigol a dangosyddion pellach wedi'u cytuno a'u cyhoeddi o fis Gorffennaf 2025, gan gynnwys sgoriau poen a gwelliant dirlawnder ocsigen o ganlyniad i driniaeth ac ymyrraeth glinigol ar y safle.

Mae'r categorïau Porffor – Ataliad a Choch – Argyfwng yn cael blaenoriaeth gyfartal, h.y. nid oes gwahaniaeth rhyngddynt o ran amser i anfon adnodd. Mae'r amseroedd ymateb sy'n cael eu monitro ar gyfer y ddau gategori yr un fath ac yn cynnwys ystod darged amser ymateb canolrifol ambiwlansys o chwech i wyth munud, a 90% yn derbyn ymateb ambiwlans o fewn 20 munud.


Mae mwyafrif o'r data ar gyfer y flwyddyn ariannol hon ar gyfer ymatebion i'r categorïau blaenorol. Y digwyddiadau hyn sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o waith yr Ymddiriedolaeth, gyda 201,000 neu 49% o'r holl ddigwyddiadau yn y categori Oren 1 yn y 12 mis hyd at fis Tachwedd 2025.

Nid oes targed amser ymateb cenedlaethol ar gyfer y categorïau hyn o alwadau, ond yn hanesyddol mae'r Ymddiriedolaeth wedi modelu ar gyrraedd galwadau Oren 1 o fewn 18 munud. Cydnabyddir bod yr amser a gymerir i ymateb ymhell y tu hwnt i hyn ac yn rhy hir, gyda'r graff isod yn dangos bod 5% o'r cleifion yn y categori Oren 1 wedi aros am fwy na phum awr. Mae cleifion yn y categorïau Oren 2 a Gwyrdd yn aros yn hirach, ac mae amseroedd ymateb yn ymestyn i bob claf yn ystod misoedd y gaeaf, ar adegau o alw cynyddol a phwysau ar y system.

Gall cleifion strôc fod yn unrhyw un o'r categorïau i ddechrau ond, fel un o'r dangosyddion clinigol allweddol, mae'r Ymddiriedolaeth yn mesur yr amser y mae'n ei gymryd o'r alwad gychwynnol i gludo i ddrws yr ysbyty, gan wybod mai dyma'r lle mae triniaeth bendant yn cael ei darparu a gwybod bod amser yn hanfodol. Unwaith eto, er nad oes targed, mae cyfartaledd o 2 awr 22 munud ym mis Tachwedd yn llawer hirach nag y byddai'r Ymddiriedolaeth ei eisiau. Mae cofrestr risg yr Ymddiriedolaeth yn adlewyrchu'r pryder hwn a lef el y niwed i gleifion y gall yr arosiadau hir hyn yn y gymuned ei achosi.





Unwaith y bydd adnodd wyneb yn wyneb wedi'i anfon, mae cyfran y cleifion sy'n cael eu trin ar y safle, eu hatgyfeirio at lwybr cymunedol amgen, neu eu cludo i'r ysbyty yn cael ei monitro. Yr hyn a welir ar hyn o bryd, fel yr amlinellir yn y graff isod, yw bod nifer y cleifion sy'n cael eu cludo yn cynyddu ychydig, ac mae hyn o ganlyniad i oedi llai wrth drosglwyddo cleifion i'r ysbyty, gan arwain at fwy o ymatebion ar y safle a llai o ganslo ambiwlansys. Dros amser, wrth i nifer y trosglwyddiadau i'r ysbyty barhau i leihau ac wrth i'r model clinigol barhau i esblygu, disgwylir y bydd y gyfran yn newid, gyda mwy yn cael eu trin yn y fan a'r lle neu'n cael eu hatgyfeirio at lwybrau amgen.



Mae yna ystod o ddangosyddion clinigol sy'n cael eu monitro i amlygu ansawdd y gofal a ddarperir yn y fan a'r lle Fel yr amlinellwyd uchod, cytunwyd ar rai mesurau newydd yn ddiweddar sy'n ymwneud â chleifion Coch – Argyfwng. Ar gyfer cleifion eraill, cofnodir cydymffurfiaeth yn erbyn bwndeli gofal y cytunwyd arnynt, gan sicrhau bod grwpiau penodol o gleifion yn derbyn y safon uchaf o ofal disgwyledig. Mae'r graffiau isod yn dangos cydymffurfiaeth yn erbyn y bwndeli gofal Cnawdnychiant Myocardiaidd Trochiad ST (ADV) a strôc, sy'n parhau i fod islaw'r targed o 95%.

Mae'r amrywiant yn cael ei achosi'n bennaf gan glinigwyr yn dogfennu gwybodaeth allweddol mewn meysydd testun naratif yn hytrach nag mewn meysydd Cofnod Clinigol Claf electronig (ePCR) strwythuredig, sy'n golygu nad yw camau gweithredu y maent wedi'u cymryd yn cael eu cyfrif tuag at gydymffurfiaeth â Dangosyddion Clinigol. I fynd i'r afael â hyn, mae newidiadau i'r ePCR ar y gweill i'w gwneud hi'n haws i staff. Mae Tîm Dysgu a Datblygu'r Ymddiriedolaeth a'r Uwch Barafeddygon yn atgyfnerthu'r angen i ddefnyddio meysydd strwythuredig yn hytrach na dibynnu ar naratif. Bydd archwiliad clinigol yn parhau i

gael ei ddefnyddio fel offeryn ar gyfer adolygiad mwy manwl i gadarnhau bod dogfennaeth well yn adlewyrchu gofal gwirioneddol.





Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd llawer o gamau lliniaru, gan gynnwys esblygu'r model clinigol, i reoli'r galw, gwella effeithlonrwydd a lleihau nifer y cleifion sy'n cael eu cludo'n ddiangen i adrannau argyfwng. Fodd bynnag, un o'r ffactorau sydd wedi bod yn anodd ei liniaru yw'r oriau a gollwyd o ganlyniad i ambiwlansys yn aros i drosglwyddo eu cleifion mewn adrannau argyfwng.

Mae dau risg uchaf yr Ymddiriedolaeth yn ymwneud â'i hanallu i gyrraedd cleifion a'r niwed y mae hynny'n ei achosi (risg 223), yn ogystal ag oedi wrth gael mynediad at ofal pendant o ganlyniad i oedi wrth drosglwyddo cleifion i'r ysbyty (risg 224). Mae gwelliannau yn llif cleifion a gostyngiad yn amseroedd aros trosglwyddo cleifion i'r ysbyty wedi bod yn flaenoriaethau i Ysgrifennydd y Cabinet ac mae gwelliannau wedi'u gweld mewn nifer o feysydd, gan arwain at ostyngiad diweddar mewn risg 223 am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer.


Yn benodol, mae yna reidrwydd ar hyn o bryd i ddileu nifer yr ambiwlansys a'r cleifion sy'n aros mwy na 45 munud, gan nodi bod Canllawiau Trosglwyddo Cleifion Ambiwylans Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026, yn cadarnhau y dylid cwblhau trosglwyddiadau o'r ysbytyo fewn 15 munud. Er bod y graff isod yn dangos y gwelliannau sy'n cael eu gwneud, serch hynny, arhosodd mwy na 5000 o gleifion am fwy na 45 munud mewn ambiwlans y tu allan i adran argyfwng ym mis Mawrth 2026.

Nid yr effaith ar brofiad cleifion a gofal cleifion yw'r unig ganlyniad negyddol. Mae'r arosiadau hir hyn hefyd yn atal yr ambiwlansys rhag ymateb i gleifion eraill yn y gymuned. Dros 12 mis, treuliyd bron i chwarter o holl oriau ambiwlansys argyfwng y tu allan i adran argyfwng.



Wedi dweud hynny, mae'r gwelliant cyffredinol o ran trosglwyddo i'r ysbyty i'w groesawu. Yr hyn sy'n bwysig nawr yw sicrhau bod gwelliant o'r fath yn gyffredinol ac yn gynaliadwy, a fydd yn gwella argaeledd ambiwlansys yn sylweddol. Fel y soniwyd yn flaenorol, mae'n bwysig nodi efallai na fydd hyn yn trosi ar unwaith i amseroedd ymateb ambiwlansys gwell, ond mae cynnydd eisoes yn y capasiti i weld mwy o gleifion fel y dangosir yn y graff isod, gyda'r gostyngiad cyfatebol yn nifer yr ambiwlansys sy'n cael eu canslo.

Drwy estyniad, mae hyn yn rhoi cyfle i fwy o gleifion gael eu trin yn y fan a'r lle, gan leihau llif y cleifion i adrannau argyfwng o bosibl, yn enwedig y rhai a allai fod wedi dewis canslo ambiwlans yn flaenorol ar ôl aros yn hir a mynychu ar eu pen eu hunain. Yn yr un modd, mae'n lleihau'r perygl o i glaf ddirywio i'r graddau y caiff eu canlyniad clinigol ei beryglu, os gellir sicrhau ymateb prydlon. Caiff y risgiau y cyfeirir atynt uchod eu hadolygu'n fisol a chaiff yr holl gamau lliniaru, y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu rheoli a'r rhai sy'n cael eu gyrru yn y system, eu goruchwyllo gan y bwrdd bob deufis mewn papur sicrwydd annibynnol.



Asesiad clinigol a gwneud penderfyniadau o bell


Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflogi a defnyddio clinigwyr o bell i ddarparu asesiad i rai grwpiau o alwyr 999 ers blyneddau lawer, mae'r Model Ymateb Clinigol wedi'i ddiweddararu wedi rhoi mwy o ffocws ar yr elfen hon o'r llwybr.

Mae cyfran o alwadau'n cael eu hanfon yn awtomatig heb ymyrraeth glinigol o bell, yn enwedig y rhai ar gyfer cleifion mewn cyflwr lle mae perygl uniongyrchol i fywyd, gyda nifer o alwadau aciwtedd is yn cael eu cyfeirio ar unwaith at y tîm asesu clinigol o bell.

Cyflwynwyd Llywiwyr Clinigol ym mis Rhagfyr 2024 ac mae'r clinigwyr uwch hyn bellach yn darparu sgrinio clinigol cyflym ar gyfer gweddill y galwadau (57% o'r holl alwadau 999 yn ystod y 12 mis rhwng mis Mawrth 2025 a mis Chwefror 2026), gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u harbenigedd clinigol i ffrydio cleifion i'r gwasanaeth Ymddiriedolaeth mwyaf priodol. Maent yn penderfynu'n gyflym a oes angen ambiwlans argyfwng ar unwaith neu a oes angen ymateb cymunedol arbenigol neu asesiad pellach o bell ar gleifion. Yn y 10 mis ers iddyn nhw fod yn gwbl weithredol, maen nhw wedi ffrydio 57% o alwadau ar gyfer asesiad clinigol pellach o bell.

Felly mae cyfanswm y galwadau a gyfeiriwyd ar gyfer asesiad clinigol o bell wedi cynyddu o ganlyniad i'r newid model hwn, ac mae hyn yn caniatáu casglu rhagor o wybodaeth gan y claf neu'r galwr ac i ymateb mwy priodol gael ei nodi i ddiwallu eu hanghenion unigryw.

Mae bron i 60% o'r holl alwadau 999 bellach yn cael eu darparu gydag asesiad clinigol o bell, i fyny o tua 30% flwyddyn yn ôl. O ganlyniad, mae mwy o alwadau nag erioed yn cael eu cau o bell, sy'n lleihau'r galw am ambiwlansys argyfwng, ac yn cyfeirio mwy o gleifion at lwybrau priodol y bwrdd iechyd, gyda chyfraddau ymgynghori a chau bellach yn uwch na 20% yn rheolaidd.



Gan gefnogi asesiad clinigol o bell, mae'r Ymddiriedolaeth wedi creu rôl wirfoddol newydd sef Ymatebwr Lles Cymunedol, a ariennir yn rhannol (hyfforddiant a chefnogaeth) gan arian grant dros dro a ddyfarnwyd gan NHS Charities Together. Mae'r ymatebwyr hyn yn cael eu hanfon i ddigwyddiadau yn unol â chyfarwyddyd clinigwyr WAST sy'n gweithio o bell. Gan weithredu o fewn eu cwrdd diffiniedig, mae Ymatebwyr Lles Cymunedol yn cynnal arsylwadau ac asesiadau clinigol hanfodol mewn swyddogaeth sy'n wynebu'r claf yn uniongyrchol. Yn ogystal, mae Ymatebwyr Lles Cymunedol wedi'u paratoi i nodi ac ymateb i sefyllfaoedd ataliad y galon pe bai cyflwr claf yn dirywio.

Rhwng 1 Mawrth 2024 a 30 Rhagfyr 2025, mae 265 o wirfoddolwyr Ymatebwr Lles Cymunedol wedi cael eu recriwtio a'u hyfforddi. Mae'r 265 o Ganolfannau Cyswllt Clinigol hyn wedi mynychu bron i 3,000 o gleifion; o'r cleifion hynny a fynychwyd, nid oedd angen cludo 55% (1610) ohonynt i'r ysbyty. Yn ogystal â'r data ar gludo cleifion, mae tystiolaeth anecdotaidd sy'n amlygu'r gofal ategol gwerthfawr a ddarperir gan Ymatebwyr Lles Cymunedol. Mae eu cefnogaeth yn ymestyn y tu hwnt i ddyletswyddau clinigol i gynnwys bwydo a newid babanod, cynorthwyo gyda mynd i'r toiled, paratoi bwyd a diodydd ar gyfer cleifion sy'n sâl, a chynnig cefnogaeth emosiynol a chysur i gleifion a'u hanwyliaid.

Mae'r Ddesg Cwmpïadau yn wasanaeth sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd yn y tîm asesu clinigol o bell, ar ôl derbyn cyllid anghylchol gan Lywodraeth Cymru. Aeth yn fyw ar 12 Tachwedd 2025 ac mae'n integreiddio dyrannu ymatebwyr cwmpïadau ac asesiadau clinigol o bell. Nod y fenter hon yw gwella profiad cleifion, gwella canlyniadau clinigol, lleihau cyfnodau hir yn gorwedd ar y llawr, a lliniaru'r effaith ar GIG Cymru o gludo cleifion i adrannau argyfwng yn ddiangen ac arosiadau estynedig yn yr ysbyty.

Mae Cydgysylltwyr Adnoddau yn sicrhau bod ymatebwyr cwmpïadau a gwirfoddolwyr yn cael eu hanfon yn brydlon at gleifion, gan wneud y mwyaf o'u defnydd a'u heffaith. Mae'r clinigwyr yn cysylltu â'r claf neu ei gymdeithion i'w cynorthwyo oddi ar y llawr yn ddiogel, rhoi cyngor ar feddyginiaeth, ac asesu unrhyw anafiadau i lywio'r ymateb clinigol gorau posibl fel rhan o gynllun gofal. Unwaith y bydd ymatebwr cwmpïadau gyda'r claf, mae'r clinigwr yn asesu anghenion clinigol y claf o bell trwy fideo neu ffôn, gan gydweithio â'n Huwch Ymarferwyr Parafeddygol sydd wedi'u gwreiddio yn un pwynt mynediad y bwrdd iechyd lleol i reoli gofal y claf mor agos i'w gartref â phosibl.

Ers mynd yn fyw ddiwedd mis Rhagfyr, hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026, mae'r Ddesg Cwmpïadau wedi rheoli dros 3,430 o ddigwyddiadau. Ar 3,380 o achlysuron, rhoddwyd cyngor i gleifion a oedd wedi cwmpo – rhoddwyd cyngor i 2,528 o'r rhain o fewn dwy awr i'r alwad 999 gychwynnol. Sicrhodd hyn fod cleifion yn cael cyngor wedi'i dargedu ar hydradiad, maeth a symudiad. Darparwyd cefnogaeth i 582 o gleifion fel y gallent gael eu codi o'r llawr, gyda mynediad at gyngor clinigol priodol o bell a ddarparwyd gan y ddesg.

Mae Cynllunio Gofal wedi'i gyflwyno fel elfen graidd o asesiad clinigol o bell gan ganolbwyntio ar sut y gall yr Ymddiriedolaeth gynnal gofal yn well wrth archwilio'r gwasanaeth cymunedol mwyaf effeithiol neu sydd ar gael i gefnogi cadw'r claf gartref. Mae'r Ddesg Cynllunio Gofal yn chwarae rhan bwysig yn y defnydd effeithiol o Ymatebwr Lles Cymunedol. Mae wedi bod yn rhan allweddol o brosiect Contractau ar gyfer Arloesi Cymru y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i ymgymryd ag ef gyda Luscii gan ddefnyddio datrysiad clinigol diogel i gynorthwyo cofnodi a monitro canlyniadau diagnostig, ac arweiniodd y dull o ddatblygu'r cynllun peilot Desg Cwmpïadau a Desg Anadlol bwrpasol.

Mae clinigwyr Cynllunio Gofal yn gynghorwyr clinigol profiadol o bell sy'n ychwanegu gwerth gwirioneddol at brofiad y claf drwy asesu a lliniaru risg glinigol, gan gynnig hyder i gleifion a'u hanwyliaid eu bod yn cael eu cefnogi tra bod llwybrau amgen yn cael eu canfod a, gan wneud y mwyaf o'r cyfle i ymyriadau priodol prydlon gael eu defnyddio gan yr Ymddiriedolaeth neu ofal sy'n seiliedig ar y bwrdd iechyd.

Gwelliant clinigol parhaus

Mae'r Ymddiriedolaeth yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella gofal, canlyniadau a phrofiad y claf, fel y disgrifir mewn man arall yn y ddogfen hon.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn chwilio am ffyrdd o ddefnyddio ei staff yn well, gan newid y cymysgedd o sgiliau i ddiwallu anghenion cleifion unigol yn well a gwneud y staff sydd ar gael yn fwy effeithlon ac effeithiol:

- Er mwyn cefnogi'r cynnydd yn nifer yr asesiadau clinigol o bell sy'n ofynnol fel rhan o'r model clinigol esblygedig, mae nifer y clinigwyr cyffredinol o bell wedi cynyddu gan 12 o staff CALL (cyfwerth ag amser llawn) yn 2025/26. Mae hyn wedi cyfrannu at gyfraddau ymgynghori a chau uwch.
- Mae nifer yr Uwch Ymarferwyr Parafeddygol wedi codi gan 10 ychwanegol eleni. Mae'r clinigwyr lefel Meistr hyn yn gweithio mewn lleoliadau asesu o bell ac wyneb yn wyneb ar y safle. Mae Llyw-wyr Uwch Ymarferwyr Parafeddygol bellach wedi'u cydleoli â phob bwrdd iechyd fel rhan o'u un pwynt mynediad, sy'n caniatáu adolygiad ac ymateb gwirioneddol aml-ddisgyblaethol ac aml-sefydliadol i alwadau mwy cymhleth. Gyda 40% wedi cymhwyso fel presgripsiynwyr annibynnol, mae gallu Uwch Ymarferwyr Parafeddygol i drin a chau cyfnod gofal ar y safle wedi gwella'n sylweddol – cyfradd gweld a thrin o 32.6% yn y 12 mis diwethaf. Mae profion newid hefyd wedi'u cynnal i symud tuag at ddarparu amserlen o ymweliadau wedi'u cynllunio i Uwch Ymarferwyr Parafeddygol sy'n ymateb, a fydd yn cynyddu nifer y cleifion y gallant eu trin fesul sifft – aeth hyn yn fyw ym mis Chwefror 2026 a bydd yn arwain at gynnydd yn y cyfraddau gweld a thrin.
- Treialwyd model ymateb gwahanol ar gyfer cleifion iechyd meddwl, sy'n cynnwys clinigwyr iechyd meddwl mewn canolfannau rheoli, gyda chefnogaeth yn Ne-ddwyrain Cymru gan glinigwr iechyd meddwl mewn car. Mae'r model hwn bellach wedi'i werthuso ac wedi'i ddiddymu ar y sail na all yr Ymddiriedolaeth ddangos tystiolaeth o werth digonol, gydag adnoddau iechyd meddwl i'w canolbwyntio yn y lleoliad anghysbell lle mae tystiolaeth glir yn bodoli. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i ystyried goblygiadau posibl ar draws y system.
- Gan gydnabod amrywiaeth y cleifion sy'n defnyddio gwasanaethau ambiwlans ac 111 a'u hanghenion clinigol cysylltiedig, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi recriwtio rhai clinigwyr arbenigol i gefnogi clinigwyr sy'n gweithio o bell ac yn y maes i gynnig y gofal gorau posibl. Mae hyn yn golygu cynyddu cwrmpas ymarfer cyffredinol ein parafeddygon a'n nyrsys er mwyn sicrhau eu bod yn fwy hyderus yn gweithio gyda chleifion i gael

mynediad at wasanaethau cymunedol a gofal sylfaenol lle bo'n briodol yn glinigol ac ar gael. Mae arbenigwr yn cynnwys bydwraig, arbenigwr anadlol, arbenigwr pediatrig ac arbenigwr camddefnyddio sylweddau.


Mae dadansoddiad o'r galw am wasanaethau 999 yn dangos bod y nifer uchaf o alwadau gan gleifion sydd wedi cwmpo, sydd ag anawsterau anadlu neu sydd â phoen yn y frest. Mae ein timau clinigol yn parhau i weithio ar wella gwasanaethau i'r grwpiau hyn o gleifion, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut y gellir osgoi cludo i'r ysbyty lle bo'n briodol:

- Mae dros 56,000 o ddigwyddiadau'r flwyddyn yn ymwneud â chwympiadau, sy'n cyfateb i tua 13% o'r holl alw. Mae'r Ymddiriedolaeth yn comisiynu Ambiwylans Sant Ioan Cymru i ddarparu cerbydau ymateb i gwympiadau Lefel 1 ledled Cymru ac yn darparu gwasanaeth Lefel 2 ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – gyda'i gilydd mae'r adnoddau hyn yn ymateb i tua 10,000 o'r digwyddiadau hyn. Mae arweinwyr clinigol yn ymwneud yn helaeth â'r grŵp gwaith Cwympiadau a sefydlwyd gan y Rhaglen Chwe Nod ac fel yr amlinellwyd uchod, maent wedi sefydlu desg cwympiadau sy'n sicrhau gwell defnydd o'n hadnoddau ymateb yn ogystal â chaniatáu i fwy o gleifion godi o'r llawr yn ddiogel trwy gymorth o bell. Yn ogystal â gwelliannau a welwyd drwy'r ddesg cwympiadau, yn 2025, cyflawnwyd amser 'presenoldeb yn y lleoliad' cyffredinol i ddigwyddiadau cwympiadau (gan bob cerbyd) o fewn 2 awr ar gyfer 64% o ddigwyddiadau rhwng 07.00 a 19.00, gyda'r nod o gyflawni 70%. Mae trafodaethau gyda chydweithwyr a chomisiynwyr Llywodraeth Cymru wedi amlygu'r potensial ar gyfer cydweithio gyda mwy pwrpasol i wella canlyniadau i gleifion sy'n cwmpo, a fydd yn ffocws i'r Ymddiriedolaeth dros y misoedd nesaf.
- Mae WAST yn cyflwyno rhaglen gydlynol i gryfhau llwybrau anadlol ledled Cymru, gyda ffocws ar adnabod yn gynnar, blaenoriaethu cleifion yn ddiogel, a gwell defnydd o ofal yn y gymuned.
- Yn 2025, datblygodd y gwasanaeth y sgôr Rhagfynegi Argyfwng Anadlol Pediatrig cyntaf i gefnogi asesiad mwy cywir o blant 0–4 oed sy'n cyflwyno â thrallod anadlol. Mae'r graff yn amlygu lefel y gostyngiad a welwyd rhwng y llinell las (yn dangos 2024) a'r llinell werdd (yn dangos 2025).



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust



- Er mwyn lleihau nifer yr achosion sy'n cael eu huwchgyfeirio'n ddiangen i 999, mae GIG 111 Cymru wedi gweithredu ymyriadau wedi'u targedu gan gynnwys gwelliannau i'r System Blaenoriaethu a Ffrydio Clinigol (CPSS) (offeryn brysbenneu clinigol, a ddefnyddir gan ein derbynwyr galwadau i ffrydio galwadau llai cymhleth i'r gwasanaeth cywir heb yr angen i ddefnyddio clinigwr), cryfhau dilysu clinigol cyn trosglwyddo, gwella hyfforddiant staff gan Arweinwyr Clinigol Arbenigol, a diweddarw prosesau trosglwyddo ysbytai rhwng 111 a 999.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno offer hunanreoli, gan alluogi clinigwyr i ddod â chyfnodau gofal i ben yn ddiogel gyda chyingor hunanofal.
- O fis Chwefror 2026 ymlaen, mae desg anadlol bwrpasol yn cael ei threialu i gydlynu cleifion sy'n cyflwyno ag anawsterau anadlu a chefnogi ehangu a chyd-ddatblygu llwybrau anadlol penodol i'r bwrdd iechyd.
- Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, bydd Uwch Ymarferwyr Parafeddygol hefyd yn dechrau treial o brofion pwynt gofal ar gyfer haint a amheuir, gan gefnogi mynediad cynyddol at lwybrau methiant y galon, wardiau rhithwir, a thriniaeth sy'n dechrau yn y gymuned

Mae cydweithio â phartneriaid system, ac yn benodol â byrddau iechyd, yn hanfodol i sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion, yn enwedig wrth i'r Ymddiriedolaeth geisio dod o hyd i lwybrau amgen ac osgoi cludo diangen i'r ysbyty. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio'n agos iawn gyda'r Rhaglen Chwe Nod a byrddau iechyd – gan gael ein cynrychioli ar bob un o grwpiau'r rhaglen – Un Pwynt Mynediad, Gofal Brys yr un Diwrnod, Ymgynghoriad Clinigol cyn Cludo a gwasanaethau Cwmpïadau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyd-arwain nifer o weithdai rhanbarthol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol

Abertawe, gan ystyried yn benodol sut y gallai'r Ymddiriedolaeth gydweithio ar asesiadau clinigol o bell.

Edrych ymlaen

Wrth i'r Ymddiriedolaeth edrych tuag at ei chynllun ar gyfer 2026/27, mae nifer o flaenoriaethau allweddol a fydd yn sicrhau gwelliannau pellach. Mae'r Ymddiriedolaeth yn symud i flwyddyn olaf ei Rhaglen Trawsnewid Model Clinigol, gyda nifer o gamau gweithredu yn weddill, gan gynnwys integreiddio ei chlinigwyr o bell 111 a 999 yn llawn i un gwasanaeth gofal integredig o bell. Mae hyn yn cefnogi ethos 'dim drws anghywir' a rhannu adnoddau clinigol i wasanaethu pob claf yn well, waeth beth fo'r dull cysylltu a ddewisir.

Fodd bynnag, y ffocws yn bennaf yw sut mae'r model wedi'i wreiddio bellach a sicrhau bod manteision yn cael eu gwireddu'n llawn. Mae Prifysgol Edgehill a Phrifysgol Abertawe wedi cael comisiwn i gynnal adolygiad allanol a fydd yn cael ei gwblhau dros gyfnod o 2 i 3 blynedd. Yn gynharach, bydd gwerthusiadau dros dro yn cael eu cwblhau ar feysydd penodol o'r model, gan gynnwys dau ar y fframwaith perfformiad ambiwlansys newydd i'w cwblhau yn ystod y 12 mis nesaf, gan gydnabod ei fod wedi'i gyflwyno'n wreiddiol fel cynllun peilot.

Bydd ffocws cryf hefyd ar wella cynhyrchiant, effeithlonrwydd a gwerth. Fel enghraifft, mae gwaith ar y gweill i ailgydbwysu'r cymysgedd sgiliau ar Ambiwylansys Argyfwng a fydd, yn ogystal â lleihau / rheoli cost dros amser, hefyd yn gwneud y defnydd mwyaf posibl o sgiliau Ymarferwyr Ambiwylans Argyfwng band 5 newydd yr Ymddiriedolaeth.

Gyda mwy o bwyslais ar ganlyniadau i gleifion, mae'n bwysig bod gwaith cydweithredol gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) a sefydliadau eraill ar ddylunio mecanweithiau rhannu data cenedlaethol a fframweithiau cyfreithiol i alluogi cysylltu data traws-sefydliadol mwy cadarn. Bydd gwybodaeth gysylltiedig o'r fath yn cefnogi'r Ymddiriedolaeth i ddeall canlyniadau'r newidiadau y mae'n eu gwneud yn llawn, yn ogystal â deall ble mae cyfleoedd pellach i ychwanegu gwerth ar draws y system iechyd a gofal ehangach, a dyna pam mae'r gwaith hwn yn hanfodol i WAST a GIG Cymru yn ehangach.

Mae rhai cyfleoedd sylweddol yn dod i'r amlwg i'r Ymddiriedolaeth barhau i wneud y cyfraniad hwnnw ar draws y system drwy greu mwy o gyfleoedd ar gyfer deialog strategol a chydweithio â phartneriaid a thrwy gymryd rhan mewn mentrau Llywodraeth Cymru fel y

rhaglen Gymunedol o'r Cychwyn, sy'n rhoi cyfle i'r Ymddiriedolaeth gyfrannu at ddatrysiadau ehangach, sy'n seiliedig ar y system, i wella canlyniad a phrofiad cleifion.

GIG 111 Cymru

I lawer o gleifion, eu pwynt cyswllt cyntaf gyda gofal brys neu ofal mewn argyfwng yw'r gwasanaeth 111, gyda 5.3 miliwn o ymweliadau â'r wefan a mwy nag un filiwn o alwadau ffôn yn ystod y 12 mis diwethaf.

Cynnig digidol GIG 111 Cymru

Er ei bod yn cydnabod bod angen llawer o waith a buddsoddiad i ddod â'r wefan i safon "orau yn ei dosbarth", mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i wneud gwelliannau cynyddrannol i gynnig digidol GIG 111 Cymru, gan ddibynnu ar benderfyniad ar lefelau buddsoddiad yn y dyfodol.

Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru a chomisiynwyr ynghylch y mecanweithiau i ddatblygu'r pen blaen digidol yn wasanaeth cynaliadwy sy'n cyd-fynd â'r uchelgeisiau digidol a nodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ac sydd â'r potensial i greu mwy o werth yn y system gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae arian achlysurol a ddarperir bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei groesawu.

Gyda risg gorfforaethol wedi'i nodi mewn perthynas â chynnal a chadw digonol y gwirwyr symptomau digidol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi defnyddio ei chyfalaf dewisol i gychwyn rhaglen waith i nodi a gweithredu offeryn Gwirio Symptomau Ar-lein cydymffurfiol ac effeithiol. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda, gyda'r gwirwyr symptomau newydd wedi'u diweddarau i fod i fynd yn fyw ym mis Mehefin 2026. Bydd hyn yn cael ei integreiddio â'r system feddalwedd datrysiadau Gymreig dan arweiniad clinigol a ddefnyddir ar gyfer galwyr i 111 (CPSS) a fydd yn caniatáu blaenoriaethu a ffrydio cleifion i ganlyniadau priodol, gan leihau o bosibl nifer y rhyngweithiadau digidol lle mae cleifion yn cael eu cyfeirio i ffonio 111.

Ar y cyd â Robotics AI, mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu bot sgwrsio, sef cynorthwydd rhithwir ar wefan GIG 111 Cymru, sy'n darparu ymatebion uniongyrchol i ymholiadau defnyddwyr ac yn symleiddio mynediad at wybodaeth. Ar gael mewn sawl iaith, gan gynnwys y Gymraeg, mae'r cynorthwydd rhithwir "AlBot" yn cynnig profiad mwy rhyngweithiol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. Ers ei lansio, mae AlBot wedi cefnogi miloedd o ryngweithiadau defnyddwyr (dros 45,000 yn yr wyth mis hyd at fis Mawrth 2026),

gan ddangos bod y defnyddwyr wedi manteisio ar y gwasanaeth ac wedi ymgysylltu'n dda, gyda monitro perfformiad parhaus ac adborth gan ddefnyddwyr yn cael ei ddefnyddio i fireinio cynnwys, llifau sgwrsio a llwybrau uwchgyfeirio'n barhaus. Mae'r datrysiaid hefyd wedi derbyn cydnabyddiaeth allanol, ar ôl cyrraedd rhestr fer yn ddiweddar ar gyfer gwobr rhagoriaeth genedlaethol mewn gofal iechyd digidol, gan adlewyrchu ei effaith a'i berthnasedd ehangach ar draws gofal brys a gofal mewn argyfwng.

Mae gwaith ar y gweill i ddeall potensial pellach deallusrwydd artiffisial asiantaidd o fewn cyfyngiadau gwefan bresennol GIG 111 Cymru. Yn ogystal, mae cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth i barhau a'i gwaith o integreiddio WhatsApp, efelychu swyddogaethau gwe GIG 111 Cymru trwy ryngweithiadau asiant sgwrsio rhithwir, ehangu'r cwmphas iaith, ac archwilio ailgynllunio a gwella llwybrau ail-archebu presgripsiynau.


Ochr yn ochr â'r ddarpariaeth hon, mae adborth cleifion yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi'n weithredol, gyda mwy na 1,000 o ddarnau unigol o adborth wedi'u derbyn hyd yn hyn. Mae'r adborth hwn wedi bod yn gymysg, gyda chyfran sylweddol yn tynnu sylw at brofiad cadarnhaol y defnyddiwr, cyflymder mynediad ac eglurder gwybodaeth, ochr yn ochr ag adborth adeiladol yn ceisio ymarferoldeb ychwanegol, dyfnder clinigol gwell ac uwchgyfeirio llyfnach. Mae llawer o'r gwelliannau gofynnol hyn yn dibynnu ar integreiddio â gwiriwr symptomau modern a fyddai'n datgloi rhyngweithiadau mwy personol a chyfoethog yn glinigol, a bydd hyn yn cael ei alluogi unwaith y bydd y gwirwyr symptomau ar waith o fis Mehefin 2026.

Gwasanaeth teleffoni GIG 111 Cymru

Mae'r Ymddiriedolaeth yn mesur ansawdd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu drwy amseroedd ateb galwadau, gadael galwadau ac amseroedd ffonio'n ôl clinigol. Yn hanesyddol, y targed enwol fu cadw cyfraddau gadael yn is na 5%. Fel y gwelir yn y siart isod, anaml y mae hyn wedi cael ei gyflawni. Mae adolygiad llawn o'r galw a'r capasiti a gynhaliwyd gan yr ymgynghorwyr arbenigol Opta-Shift y llynedd wedi cadarnhau nad oes gan yr Ymddiriedolaeth ddigon o drinwyr galwadau i gyflawni'r lefel hon o berfformiad.

Mae'r niferoedd a gomisiynwyd cyfredol (190 CALI) yn caniatáu perfformiad rhwng 10 - 15%, neu fel arall, byddai angen 22 o drinwyr galwadau CALI ychwanegol. Fodd bynnag, byddai hyn yn dal yn annigonol i ymdopi â'r oriau brig o awr i awr, yn ddyddiol ac yn wythnosol a brofir yn y gwasanaeth hwn, yn enwedig yn ystod gwyliau banc. Heb unrhyw fuddsoddiad

yn 2026/27, mae'n annhebygol y bydd hyn yn cael ei ddatrys heblaw archwilio ffyrdd pellach o reoli'r galw mewn ffyrdd eraill, gan gynnwys defnyddio pen blaen digidol.




Mae'r Ymddiriedolaeth yn edrych yn weithredol ar yr hyn y gellir ei wneud o ran prosesau a chynhyrchiant o fewn y cwrdd costau comisiynu presennol i wella perfformiad ac ar hyn o bryd mae'n cynnal ymarfer ail-drefnu rhestrau dyletswyddau llawn o fewn y gwasanaeth 111, a fydd yn gweld patrymau sifft sy'n cyd fynd yn well â'r galw disgwylidig ac yn darparu profiad gwaith gwell i'n pobl, gan leihau lefelau absenoldeb. Bydd hyn wedi'i gwblhau erbyn dechrau 2026/27. Mae trafodaethau'n parhau gyda chomisiynwyr ynghylch mesur perfformiad priodol yn y dyfodol.

Bydd llwybrau eraill ar gyfer gwella hefyd yn parhau i gael eu harchwilio, gan gynnwys sut y gallai datblygu'r systemau blaen digidol leihau'r galw am deffoni.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi darparu galwad glinigol yn ôl o fewn awr yn gyson i fwy na 90% o'r cleifion â'r flaenoriaeth uchaf. Fodd bynnag, mae perfformiad ar gyfer galwadau blaenoriaeth is wedi dirywio yn ystod y misoedd diwethaf, gyda rhai cleifion yn aros oriau lawer am alwad yn ôl fel y nodir yn y graff isod. Mae gwaith ar y gweill i ddeall yn well y ffactorau sy'n dylanwadu ar berfformiad. Mae nifer y galwadau â'r flaenoriaeth uchaf wedi cynyddu ac mae newidiadau mewn proses a chynhyrchiant yn cael eu hystyried i wella'r profiad a'r canlyniad i gleifion ag anghenion aciwtedd is.


Mae clinigwyr yn cynnal mwy o adolygiadau clinigol nag erioed ac mae cynhyrchiant da o'r safbwynt hwnnw. Mae hyn hefyd yn pwysleisio'r angen i archwilio ac optimeiddio datrysiadau digidol, a allai ddarparu dewis arall effeithiol a diogel yn glinigol i alwyr aciwtedd isel.



Yn unol â model gwasanaethau clinigol esblygol yr Ymddiriedolaeth, o ddechrau gwanwyn 2026, bydd yr holl glinigwyr o bell, gan gynnwys y rhai sy'n delio â galwadau 111 a'r rhai sy'n delio â galwadau 999, yn ffurfio Gwasanaeth Gofal Integredig o Bell(RICS) newydd. Bydd clinigwyr sy'n gweithio yn y gwasanaeth hwn yn defnyddio un system fydd yn eu galluogi i gefnogi cleifion yn ôl eu cyflwyniad clinigol a'u hanghenion. Bydd hyn yn sicrhau bod y cleifion mwyaf sâl yn cael eu hystyried yn gyson ar draws y ddau fath o alwad ac, yn bwysicach fyth, y bydd yr Ymddiriedolaeth mewn gwell sefyllfa i gefnogi cleifion ag aciwtedd is i gael mynediad at ofal cymunedol a gwasanaethau gofal amgen yn briodol.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi datblygu gallu a chapasiti i sicrhau bod cynnydd yng nghwmpas yr ymarfer a gymhwysir gan glinigwyr o bell i gefnogi cleifion yn well ac, o ganlyniad i hyn, cefnogi system ehangach GIG Cymru i reoli'r galw yn fwy effeithiol. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu galwadau fideo ac Ymatebwyr Lles Cymunedol a nodwyd yn flaenorol i gefnogi ymgynghori clinigol a diagnosis.

Er bod prydlondeb yn ffactor allweddol mewn perthynas â phrofiad ac ansawdd cleifion, efallai mai'r peth pwysicach yw'r graddau y mae'r gwasanaeth 111 yn gallu darparu porth yn effeithiol ac yn effeithlon i'r gofal cywir i bob galwr unigol. Fel y mae'r ddelwedd isod yn ei ddangos, mae llawer o alwyr yn cael eu cyfeirio at wasanaethau gofal sylfaenol brys (Y Tu Allan i Oriau) neu at eu hymarferwyr gofal sylfaenol eu hunain. Mae hyn i'w ddisgwyl, gan fod y gwasanaeth wedi'i gyflwyno'n benodol fel llwybr i wasanaethau y tu allan i oriau. Ar hyn o bryd mae tua 15% yn cael eu cyfeirio i fynychu Adran Argyfwng ac, er bod y gyfran hon yn cyfateb yn dda i wasanaethau 111 eraill y DU, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda byrddau iechyd i ddod o hyd i ffyrdd o leihau hyn ymhellach a dod o hyd i lwybrau mwy priodol i gadw cleifion gartref neu'n nes at adref. Mae hyn yn cysylltu'n ôl â'r uchelgais i gynyddu cwmplas ymarfer clinigwyr o bell a'u defnydd o offer digidol i gadarnhau cynlluniau hunanofal cleifion a allai drefnu mynediad dilynol wedi'i gynllunio i wasanaethau gofal sylfaenol neu ei gwneud yn ofynnol i unigolion hunangyfeirio at wasanaethau cymunedol, fel fferyllfa gymunedol.



Mae tri bwrdd iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a BIP Caerdydd a'r Fro) yn gweithredu protocol 111 yn Gyntaf, lle mae categorïau cytunedig o gleifion a fyddai fel arall yn cael eu cyfeirio at yr adran argyfwng yn cael eu trosglwyddo i'w timau asesu clinigol o bell i'w hadolygu ymhellach - ym mis Rhagfyr cyfeiriwyd 3,370 o gleifion at y timau o bell hyn o'r byrddau iechyd. Mae samplu ar hap wedi

dangos bod mwy na thri chwarter o'r cleifion hyn yn cael eu rheoli'n llwyddiannus y tu allan i'r adran argyfwng yn y tri bwrdd iechyd lle mae hyn yn weithredol.

Ym mis Ionawr 2026, ehangodd yr Ymddiriedolaeth y meini prawf ar gyfer 111 yn Gyntaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dilyn treialon llwyddiannus. Dangosodd y treialon hynny y gallai nifer y cleifion a anfonir i adrannau argyfwng leihau gan 40-50%. Mae'r dull hwn yn cael ei drafod gyda Byrddau Iechyd Aneurin Bevan a Bae Abertawe.

Edrych ymlaen

Fel darparwr GIG 111 Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y cyfleoedd sydd gan y gwasanaeth i wella canlyniadau a phrofiad cleifion, yn ogystal â llyfnhau llif cleifion o amgylch y system, fel bod y rhai sydd angen gofal yn ei dderbyn ar yr amser iawn ac yn y lle iawn. Bydd Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys nifer o flaenoriaethau gan gynnwys y rhai a nodir isod:



- Lle mae adnoddau'n caniatáu, bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gefnogi cynnydd ar sefydlu pen blaen digidol 111 Cymru fel porth cenedlaethol, modern ar gyfer cael mynediad at gyngor a gofal, gan helpu i alluogi mecanweithiau mwy effeithiol ar gyfer cyfeirio cleifion at y gofal cywir, ar yr amser iawn. Gan weithio ar y cyd â phartneriaid ar draws GIG Cymru, gan gynnwys Iechyd Digidol a Gofal Cymru, bydd yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi mynegiant gweledigaeth genedlaethol a rennir ar gyfer dyfodol mynediad digidol at ofal brys a gofal sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd o alinio pen blaen digidol 111 Cymru â'r gwasanaeth 111 ehangach, ac, yn amodol ar flaenoriaethu cenedlaethol, cydlynu gwefan 111 Cymru â drysau blaen digidol eraill fel Ap GIG Cymru. Mae'r pwyntiau mynediad cyhoeddus hyn i'r system yn cynnig cyfleoedd yn y dyfodol i ddata a gynhyrchir gan gleifion (e.e. o ddyfeisiau gwisgadwy, apiau iechyd, neu holiaduron) gael ei ddefnyddio hefyd o fewn y llwybr gofal ar gyfer profiadau a chynghor mwy personol, ymyrraeth gynharach, ac atal gofal sylfaenol ac eilaidd.
- Fel darparwr cenedlaethol, mae gan yr Ymddiriedolaeth gyfeiriadur gwasanaethau cadarn eisoes sydd ar gael yn fewnol i'n pobl ac yn uniongyrchol i'r cyhoedd trwy wefan 111 Cymru i gynnig gwybodaeth a chyfeirio i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi un cyfeiriadur gwasanaethau cenedlaethol y gellir ei ddefnyddio gan bob gwasanaeth ledled Cymru a'i fewnosod mewn llwyfannau fel pen blaen digidol 111 Cymru ac Ap GIG Cymru er mwyn darparu un ffynhonnell wirionedd i bobl Cymru mewn modd effeithlon a chredadwy. Felly, mae'r Ymddiriedolaeth eisoes yn ymwneud â chwmpasu, diffinio a dylunio cyfeiriadur gwasanaethau cenedlaethol yn y dyfodol.

- Parhau i wella profiad a chanlyniadau cleifion drwy leihau amseroedd aros i'r rhai sy'n ffonio, cynyddu mynediad at lwybrau amgen fel 111 yn Gyntaf, a lleihau nifer y trosglwyddiadau gan gynnwys cyfleoedd archebu uniongyrchol a chydweithio gwell â'r hybiau cymorth clinigol.
- Yn yr un modd â'r gwasanaeth meddygol brys (EMS) 999, mae cysylltu data cleifion fel y gall yr Ymddiriedolaeth a'i phartneriaid system ddeall canlyniadau cyffredinol cleifion, defnydd o wasanaethau ac effaith y system yn well yn hanfodol, ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i ddod o hyd i ffordd ymlaen ar hyn mewn cydweithrediad â phartneriaid.
- Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu'n llawn â'r rhaglen Gymunedol o'r Cychwyn i archwilio cyfleoedd i 111 chwarae rhan llawer mwy integredig o fewn gofal brys.


Gwasanaethau Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS)


Mae tîm Gofal Ambiwylans yr Ymddiriedolaeth yn darparu tair prif faes gwasanaeth: cludiant i, ac yn ôl o, apwyntiadau oncoleg, arenol ac apwyntiadau cleifion allanol arferol; rhyddhau a throsglwyddo o ysbytai; a chludo rhai galwadau 999 i'r ysbyty lle mae'r set sgiliau clinigol yn caniatáu.

Mae'r gwasanaethau'n cefnogi nifer sylweddol o bobl ledled Cymru, gyda'r graff isod yn dangos bod tua 46,000 o gleifion yn cael eu cludo i'w hapwyntiadau bob mis. Darperir y gwasanaeth gan amrywiaeth o staff WAST, gyrrwyr ceir gwirfoddol WAST, darparwyr preifat dan gcontract a gwasanaethau tacsî. Mae'r darparwyr preifat wedi'u comisiynu'n llawn gan WAST, gyda Fframwaith Rheoli Ansawdd cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel.



Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae patrymau galw wedi newid, sydd wedi golygu nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi gallu gwasanaethu'r holl alw cymwys. Y canlyniad yw bod nifer o gleifion sy'n cael eu cludiant wedi'i ganslo, weithiau ar fyr rybudd iawn. Mae hyn yn amlwg yn darparu profiad gwael i gleifion ac mae ganddo hefyd y potensial i effeithio ar ganlyniadau iechyd cleifion os na all cleifion gael mynediad at y gofal eilaidd sydd ei angen arnynt. Heb ddata cysylltiedig, nid yw'r Ymddiriedolaeth bob amser yn gallu canfod y canlyniadau, ond mae'n monitro unrhyw achosion o ganslo ar gyfer cleifion arenol – gydag apwyntiadau arenol yn cael blaenoriaeth, mae'r rhain yn parhau i fod yn fach iawn o ran nifer. Rydym hefyd yn gwybod bod cwynion am ein gwasanaethau NEPTS wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf neu fwy, rhywbeth sy'n destun pryder ac sy'n cael ei fonitro am themâu a thueddiadau.





Dau o'r ffactorau mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar y galw yw cynnydd yn nifer y milltiroedd fesul taith, a ddaeth yn sgil canoli rhai gwasanaethau ledled Cymru; a chynnydd yn lefel difrifoldeb y galw, gyda llai o gleifion cymwys sy'n gallu teithio'n llawn a mwy o gleifion ar stretsier. Fel y gwelir yn y graff isod, mae amseroedd teithio cyfartalog wedi cynyddu o tua 60 munud yn 2021 i dros 80 munud yn 2025, cynnydd o 25%. Gyda mwy na 46,000 o deithiau y mis, mae hwn yn lefel sylweddol o gapasiti ychwanegol sydd ei angen.


Ers y pandemig mae llai o gleifion yn cael eu cludo fesul cerbyd y dydd. Swyddogaeth o leihau risgiau haint oedd hyn yn wreiddiol ond mae bellach yn rhywbeth sydd angen ei adolygu i gynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Fodd bynnag, rhaid rheoli hyn o ran risg a phryderon pellach ynghylch hyd y teithiau, gan fod rhai cleifion yn treulio oriau lawer yn cael eu cludo wrth i'r llwybrau ddod yn fwy cylchdroadol. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr angen i'w holl wasanaethau fod mor gynhyrchiol â phosibl, yn enwedig lle mae aneffeithlonrwydd hysbys a bydd yn ceisio mynd i'r afael â'r rhain.




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust


Amser teithio dyddiol cyfartalog
Ebrill 2021 – Rhagfyr 2025



Teithiau Arennol a Gwblhawyd - Symudedd Ambiwylans yn Unig



Mae yna ffactorau hefyd sy'n effeithio ar gapasiti, a'r pwysicaf ohonynt yw nifer y teithiau sydd wedi'u cynllunio ac nad oes eu hangen wedyn. Yn aml, mae hyn o ganlyniad i ganslo apwyntiadau ysbyty a pheidio â hysbysu'r gwasanaeth NEPTS ymlaen llaw. Mae lefel yr achosion o ganslo ar y diwrnod ar hyn o bryd yn 15% o'r holl deithiau a gynlluniwyd, a phe bai'n cael ei leihau, byddai hynny'n darparu capasiti ychwanegol i ymdopi â galw heb ei ddiwallu.



Er gwaethaf y problemau hyn, mae perfformiad yn erbyn dangosyddion prydlondeb gwasanaeth bellach yn gyson uwch nag ar unrhyw adeg ers creu gwasanaeth NEPTS. Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad yn erbyn y safonau allweddol ar gyfer 2025 a 2019; mae'r uchafbwynt gwyrdd yn dynodi mesurau sydd uwchlaw'r safonau gwasanaeth disgwyledig.

Mesur Allweddol	2019	2025	Gwahaniaeth
Cleifion Allanol i Mewn 1	59.4%	72.9%	13.5%
Oncoleg i Mewn 1	62.4%	78.1%	15.7%
Arennol i Mewn 1	58.6%	73.9%	15.3%
Cleifion Allanol Allan	77.8%	76.4%	-1.4%
Oncoleg Allan	77.1%	79.6%	2.5%
Arennol Allan 1	69.1%	75.1%	6.0%
D&T Uwch	67.5%	80.3%	12.8%
D&T yr un Diwrnod	97.4%	95.3%	-2.1%

Mae angen gweithredu i wella'r gwasanaeth y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i gomisiynu i'w ddarparu o ran ei gallu i ddiwallu'r galw ac i leihau'r lefel annerbyniol o achosion o ganslo. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n agos iawn gyda chomisiynwyr a byrddau iechyd trwy Grŵp Sicrwydd Cyflawni y Cyd-bwyllgor Comisiynu i gyflawni'r perfformiad gorau posibl i'r claf. Mae'r camau gweithredu sydd wedi'u cymryd neu sy'n cael eu cymryd yn cynnwys y canlynol:

- Ail-drefnu rhestrau dyletswyddau holl adnoddau'r Ymddiriedolaeth, er mwyn paru sifftiau'n well â'r galw. Mae ail-drefnu rhestrau dyletswydd yn gymhleth ac yn sensitif ac felly mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio partner allanol i weithio drwy'r manylion, gan gynnwys defnyddio nifer o weithgorau staff i ddod i gytundeb terfynol. Nododd modelu y gallai'r Ymddiriedolaeth wneud cynnydd effeithlonrwydd o +354 o deithiau cleifion yr wythnos neu 18,458 y flwyddyn tra hefyd yn cynhyrchu patrymau sifftiau ymarferol i'n pobl. Mae'n debygol y bydd y rhestrau dyletswyddau newydd yn cael eu gweithredu yn Ch1 2026/27.
- Eleni gwelwyd cyflwyno negeseuon SMS, sy'n caniatáu i'r Ymddiriedolaeth gysylltu â chleifion os yw eu cludiant yn mynd i gael ei ganslo, gan ddarparu profiad gwell i gleifion. Mae gwaith yn parhau i wneud hwn yn wasanaeth negeseuon dwyffordd, gan ganiatáu i gleifion ganslo eu cludiant yn hawdd.
- Mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, mae gwaith wedi'i wneud i alinio a chysylltu system cleifion allanol y bwrdd iechyd â system yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn wedi caniatáu i'r Ymddiriedolaeth nodi apwyntiadau ysbyty sydd wedi'u canslo ac felly ganslo trefniadau cludiant mewn pryd i ailddyrannu adnoddau. Yn ystod y 5 mis cyntaf o weithredu, mae cyfanswm o 413 o deithiau wedi gallu cael eu canslo mewn pryd i ddefnyddio adnoddau mewn mannau eraill. Bydd gwaith yn parhau i gyflwyno hyn, os yn bosibl, i bob bwrdd iechyd.
- Mae modelu wedi'i wneud ar nifer o opsiynau i leihau'r nifer o achosion o ganslo, a fydd yn cael eu trafod yn fanylach gyda chomisiynwyr. Mae cyfleoedd i'r Ymddiriedolaeth a'r byrddau iechyd yn cynnwys lleihau cymhwysedd i gleifion sy'n gallu cerdded, gan ganiatáu mwy o gapasiti i gleifion y mae'n rhaid eu cludo mewn ambiwlans; llacio meini prawf perfformiad; lleihau amser segur cerbydau NEPTS aros a dychwelyd; blaenoriaethu cleifion a gludir gan WAST mewn clinigau; a lleihau teithiau sy'n cael eu canslo ar y diwrnod.
- Byddai'n amserol adolygu meini prawf cymhwysedd NEPTS, ond cydnabyddir mai mater i Lywodraeth Cymru a'r Comisiynwyr yw hyn. Yn ogystal, byddai'n fuddiol nodi effaith cynlluniau'r byrddau iechyd i gynyddu'r defnydd o apwyntiadau digidol a rhithwir. Yn y cyfamser, bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i weithio ar gynyddu cynhyrchiant a lleihau aneffeithlonrwydd.

Ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac adborth cleifion

Mae'r Ddyletswydd Ansawdd wedi bod yn gonglfaen i'r gwaith trawsnewid y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i wneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Drwy gymhwyso'r Ddyletswydd hon, mae'r Ymddiriedolaeth wedi mabwysiadu dull ystyriol o ran sut y gallai chwarae rhan fwy fel partner system i leihau lefel y niwed y mae cleifion yn ei brofi. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio dulliau ansawdd a gwelliant parhaus i brofi a gweithredu gwelliant gwasanaeth ar lefel leol a chenedlaethol, mae wedi mabwysiadu dull cadarn o sicrhau asesiadau effaith ansawdd sy'n cynnwys creu Grŵp Ymgynghorol Clinigol i adolygu ac argymhell mabwysiadu, ac mae wedi mabwysiadu dull rheoli ansawdd cadarn o sicrhau sicrwydd sefydliadol ar ansawdd gwasanaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn anelu'n gyson at gynnig gwasanaeth gofal brys a gofal mewn argyfwng o ansawdd uchel. Fodd bynnag, cydnabyddir bod achlysuron pan nad yw'r safonau gofal hynny'n cael eu bodloni ar gyfer gormod o gleifion. Mae'r adrannau blaenorol wedi nodi rhai o'r rhesymau pam fod hyn wedi digwydd, yn ogystal â'r risg ar lefel gorfforaethol y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei rheoli, a'r nifer o gamau y mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn eu cymryd, gyda phartneriaid system, i wella gofal a chanlyniadau.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ceisio'n gyson fod yn dryloyw wrth gefnogi teuluoedd nad ydynt wedi profi'r safon gofal y mae'n anelu at ei darparu. Cyflawnir hyn yn bennaf drwy gymhwyso'r Ddyletswydd Gonestrwydd a gwaith ymroddedig tîm Gweithio i Wella'r Ymddiriedolaeth a chydweithwyr clinigol o bob cwr o'r Ymddiriedolaeth sy'n cefnogi achosion unigol yn weithredol.

Mae'r profiadau a gasglwyd drwy broffil cwynion y Crwner, yr Archwiliwr Meddygol a'r Ymddiriedolaeth yn dangos y realiti dynol y tu ôl i fethiant system: poen, dioddefaint, gwarth a thrawma hirfaith i gleifion a theuluoedd wrth iddynt aros am ofal nad yw'n cyrraedd mewn pryd. Rhennir hyn gyda Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch (QUEST) drwy adroddiadau mewnwelediadau a thrwy rannu profiadau byw gan gleifion, aelodau o'r teulu a staff yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod y doll ddynol o fethiant bob amser yn flaenoriaeth ymwybodol.

Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn hunanfodlon ac mae'n cydnabod bod llawer i'w wneud i leihau niwed a lleihau amrywiad er mwyn gwella'r profiad a'r canlyniad i gleifion. Fel y nodwyd uchod, mae'r bwrdd a Phwyllgor QUEST wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ar gamau a gymerwyd i liniaru niwed, ac mae adroddiadau perfformiad yn rheolaidd yn cynhyrchu

trafodaeth, craffu a her ynghylch beth arall y gellir ei wneud yn y maes hwn. Er bod rhai camau gweithredu y tu allan i rodd yr Ymddiriedolaeth, mae llawer yn parhau o fewn iddi, ac mae ymrwymiad sylweddol i barhau i wella ein gwasanaethau ein hunain, wrth weithio'n agos gyda byrddau iechyd, y Cyd-bwyllgor Comisiynu a Llywodraeth Cymru i gyflawni gwelliannau ar draws y system.

Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol a Chwynion

Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026, adroddodd yr Ymddiriedolaeth am 53 o ddigwyddiadau adroddadwy cenedlaethol ac ym mis Mawrth 2026, roedd 19 yn hwyr i'w cau. Pan nodir digwyddiadau adroddadwy cenedlaethol neu ddigwyddiad difrifol y gellir ei briodoli i barti arall, caiff ei gyfeirio at y parti perthnasol o dan Fframwaith Ymchwilio ar y Cyd Cymru Gyfan ac, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2025 a mis Chwefror 2026, adroddwyd am 139 o ddigwyddiadau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r rhain oherwydd diffyg adnoddau o ganlyniad i oedi wrth drosglwyddo gofal.

Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026 derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 1,583 o gwynion. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud naill ai â NEPTS a meini prawf cymhwysedd cludiant cleifion neu oedi wrth ymateb i alwadau 999 a GIG 111 Cymru.

Ym mis Mawrth 2025 derbyniodd yr Ymddiriedolaeth ddau Adroddiad Buddiant Cyhoeddus gan Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, ac mae eu hargymhellion wedi cael eu derbyn.


Cydnabyddir ei bod yn annerbyniol nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi cyrraedd y lefel perfformiad ofynnol ar gyfer pryderon ers dros 18 mis. Nododd cynllun adfer yr Ymddiriedolaeth tri maes allweddol sy'n effeithio ar berfformiad ac amseroedd ymateb; niferoedd uchel o gwynion yn deillio o oedi wrth fynychu a chymhwyso meini prawf cymhwysedd cleifion ar gyfer cludo cleifion, cymhlethdod ymchwiliadau wedi cynyddu o ganlyniad i newidiadau i'r model gwasanaeth 999 ac argaeledd ymchwilwyr.

Pryder pellach yw cynnydd mewn absenoldeb salwch o fewn y Tîm Gweithio i Wella, sydd wedi golygu bod angen mwy o gefnogaeth gan y tîm Gwasanaethau Pobl a Diwylliant i sicrhau lles a chefnogaeth i gydweithwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r unigolion a'r teuluoedd/gofalwyr sy'n profi'r oedi hyn.

Mae camau allweddol sy'n cael eu cymryd i wella perfformiad wedi cynnwys y canlynol:

- dyraniad ariannol cynyddol i dimau gweithredol a rhyddhau uwch glinigwyr o weithredu trawsnewid model clinigol a fframwaith perfformiad ambiwlansys i gynyddu capasiti ymchwilio
- gweithio gyda gwasanaethau cludo cleifion i wella sgriptiau canolfannau galwadau a lleihau nifer y cwynion ffurfiol
- sefydlu bwrdd rhaglen gwella rheoli pryderon gyda monitro agos gan y Tîm Arwain Gweithredol, gyda goruchwyliaeth o welliannau yn cael ei hadrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch a'r bwrdd.

Yn hollbwysig i'r gwasanaeth 999, mae nifer a chymhlethdod y cwynion a'r digwyddiadau yn cael eu gyrru i raddau helaeth gan oedi wrth ymateb i gleifion, naill ai o bell neu wyneb yn wyneb, oherwydd nifer y galwadau sy'n cael eu derbyn neu argaeledd criwiau ambiwlans pan fyddant yn profi oedi wrth drosglwyddo gofal i gydweithwyr yn yr ysbyty.



Profiad y claf a gwella ansawdd

Mae deall profiad cleifion a defnyddio'r wybodaeth honno i lywio gwasanaethau o'r pwys mwyaf, yn enwedig ar yr adeg hon o newid sylweddol yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Mae profiad cleifion wedi'i gynnwys o fewn cwmpas gwerthusiad academiaidd a gomisiynwyd yn ddiweddar o'r model clinigol a'r fframwaith rheoli perfformiad wedi'i adnewyddu, tra bod tîm Profiad y Claf a Chynnwys y Gymuned (PECI) y sefydliad yn parhau i sicrhau mewnwelediad cleifion trwy amrywiaeth o lwybrau.

Maes ffocws allweddol diweddar i'r timau PECl a Llywodraethu Gwybodaeth eleni fu sicrhau cymeradwyaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i fabwysiadu SMS (negeseuon testun) fel llwybr i gael adborth gan gleifion ar raddfa sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r sefydliad bellach wedi cymeradwyo asesiad o'r effaith ar breifatrwydd data ar gyfer defnyddio negeseuon testun mewn gwasanaethau 999 ac mae yng nghyfnodau olaf cwblhau un ar gyfer 111. Mae gwaith ar y gweill i weithredu profiad cleifion SMS 999, a rhagwelir y bydd hyn yn cynnig gwelliant sylweddol yn lefel y mewnwelediad a geir a'r cyfle i adolygu hyn ochr yn ochr â dadansoddeg iechyd y boblogaeth i wella'r ddarpariaeth gwasanaethau a deall yn well sut y gall WAST chwarae ei ran wrth dargedu ein dull o leihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae gwaith sylweddol hefyd wedi'i wneud i sicrhau gwelliannau ym mhrofiad pobl sy'n defnyddio NEPTS. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae manyleb cerbydau cludo cleifion sydd newydd eu comisiynu wedi newid, a mesurau wedi'u cyflwyno i'r fflyd bresennol sy'n gwella profiad pobl sy'n byw gyda dementia. Mae gwaith hefyd wedi'i gwblhau i gefnogi'r tîm NEPTS sy'n gweithio gyda chleifion sy'n gofyn am gludiant nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, ac mae hyn wedi lleihau nifer y cwynion a dderbynnir, er eu bod yn parhau i fod yn uchel – mae hyn hefyd yn gysylltiedig â'r gwaith ar leihau cwynion.

Haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd

Yn ddiweddar, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ailgyflunio a recriwtio i'r tîm Atal a Rheoli Heintiau i sicrhau cyngor arbenigol priodol, gan gynnwys cyflogi fferylllydd i arwain ar stiwardiaeth gwrthficrobaidd. Yn dilyn cwblhau asesiad sylfaenol o'n dull gweithredu a datblygu cynllun gwella lleol, mae'r tîm wrthi'n ailasesu sefyllfa'r Ymddiriedolaeth yn erbyn Datganiad Ansawdd Atal a Rheoli Heintiau Llywodraeth Cymru, a byddant hefyd yn gwneud hyn yn unol â'r Cod Ymarfer sydd ar ddod ar gyfer heintiau a ddaliwyd wrth gael gofal iechyd.

Un maes allweddol o ddatblygiad dros y flwyddyn ddiwethaf fu cyflwyno anadlyddion puro aer pwerus i bob ambiwlans argyfwng a char ymateb er mwyn sicrhau safonau uchel o amddiffyniad anadlol i staff a chleifion rhag ofn y bydd angen mynychu claf â chlefyd hynod heintus neu'r angen i gael amddiffyniad cyffredinol ar waith i ymateb i achosion o glefyd heintus cymunedol. Mae'r tîm hefyd yn gweithio ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid y GIG i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cyfrannu'n effeithiol at y Rhaglen Ddysgu Gydweithredol Clostridium Difficile gyda ffocws penodol ar benderfyniadau i drosglwyddo a'r camau trosglwyddo cysylltiedig.

Diogelu

Mae diogelu yn rhan annatod o atebolrwydd cyhoeddus a diwylliant sefydliadol yr Ymddiriedolaeth. Drwy drefniadau llywodraethu sefydledig, adrodd tryloyw a dysgu gweithredol, mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau ei hun bod cyfrifoldebau diogelu ar gyfer cleifion a'r gweithlu yn cael eu cyflawni yn unol â gofynion cenedlaethol ac wedi'u gwreiddio yn ein dull o wella'n barhaus.

Mae'r tîm Diogelu yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau ymgysylltiad gweithredol â Byrddau Diogelu Lleol a chymryd rhan uniongyrchol mewn adolygiadau achosion difrifol lle mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn barti gweithredol. Mae nifer yr Atgyfeiriadau Diogelu gan staff yr Ymddiriedolaeth wedi cynyddu ar draws Oedolion, Plant a Phobl Ifanc sy'n Agored i Niwed dros y flwyddyn ddiwethaf. I Oedolion Agored i Niwed, mae'r cynnydd hwn wedi'i yrru'n bennaf gan atgyfeiriadau ar gyfer gofal a chymorth ac i Blant a Phobl Ifanc, mae'r cynnydd hwn wedi bod ar gyfer unigolion yr ystyrir eu bod mewn perygl.

CYFLAWNI MEWN PARTNERIAETH

Fel un o ychydig iawn o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, mae gan yr Ymddiriedolaeth lu o randdeiliaid, a all wneud ymgysylltu'n gymhleth ac yn dameidiog. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i flaenoriaethu'r perthnasoedd allweddol hyn o ystyried y manteision a gronwyd.

Arweinyddiaeth systemau a gwaith partneriaeth effeithiol

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i chomisiynu i ddarparu ei gwasanaethau gan y Cyd-bwyllgor Comisiynu. Gwahoddir Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth i fynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd pwyllgorau, mae cyfarfodydd perfformiad darparwyr / Cyd-bwyllgor Comisiynu rheolaidd ar lefel Cyfarwyddwr wedi'u sefydlu'n ddiweddar, ac mae cydweithwyr yn cymryd rhan weithredol yn yr ystod lawn o fforymau comisiynu penodol i wasanaethau. Mae comisiynwyr yn gosod bwriadau comisiynu ar gyfer y sefydliad bob blwyddyn a adlewyrchir yng nghynlluniau'r Ymddiriedolaeth, gyda chynnydd yn erbyn y rhain yn cael ei adrodd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Fel sefydliad statudol, mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o raglenni ar draws y system: mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad yn eistedd ar Fwrdd y Rhaglen Chwe Nod; mae'r Prif Weithredwr yn aelod o'r Rhaglen Gymunedol o'r Cychwyn sydd newydd ei sefydlu; ac mae'r

Ers ei ail-lansio, mae rhwydwaith TRiM wedi tyfu i 37 o ymatebwyr hyfforddedig ar draws y sefydliad. Mae'r galw wedi cynyddu'n gyson o fis i fis, gan adlewyrchu ymwybyddiaeth sefydliadol fwy a hyder gwell wrth gael mynediad at gymorth trawma. Cododd nifer yr atgyfeiriadau o 37 adeg y lansiad ym mis Medi 2025 i 57 ym mis Tachwedd, 81 ym mis Rhagfyr, a 65 ym mis Ionawr 2026. Mae'r duedd ar i fyny hon yn amlygu ymgysylltiad cadarnhaol â TRiM a'r angen gweithredol cynyddol am gefnogaeth brydlon ar gyfer trawma. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd ehangu'r rhwydwaith ymatebwyr ymhellach i sicrhau bod llwyth gwaith yn cael ei reoli'n ddiogel ac yn gynaliadwy, gan amddiffyn ymatebwyr rhag blinder a lleihau'r risg o drawma eilaidd neu ddirprwyol sy'n deillio o fod yn agored i sgysiau heriol yn aml.

Mae hyfforddiant risg hunanladdiad wedi'i integreiddio o fewn y Tîm Lles, ac mae proses asesu risg hunanladdiad ffurfiol bellach wedi'i wreiddio yn ein strwythur cyswllt i fynd i'r afael â ffactorau risg hysbys yn y gweithlu. Mae pob aelod o staff Iechyd Galwedigaethol a

Lles wedi cwblhau hyfforddiant risg hunanladdiad, ac mae offeryn asesu strwythuredig bellach yn cael ei gymhwyso'n rheolaidd ac yn gyson.


Mae'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr (Health Assured) yn parhau i gynnig cwnsela cyfrinachol, cyngor ar ffordd o fyw ac ariannol, ochr yn ochr ag atgyfeiriadau ffisiotherapi a chyfeirio at asiantaethau allanol, gan gynnwys llinell argyfwng TASC (The Ambulance Staff Charity) lle bo'n briodol. Dangosodd y defnydd o'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr rhwng mis Chwefror 2025 a mis Ionawr 2026 uchafbwyntiau clir rhwng mis Awst a mis Hydref, gan gyd-fynd â phwysau sefydliadol ehangach. Gorbryder a hwyliau isel oedd y problemau mwyaf cyffredin a gyflwynwyd, yn gyson â'r prif ffactorau sy'n achosi absenoldeb oherwydd salwch ar draws yr Ymddiriedolaeth. Dewisodd mwy na hanner y defnyddwyr (57%) beidio â datgelu eu maes gwaith, gan bwysleisio'r angen am gyfrinachedd cryf, tra bod y rhai a ddatgelodd yn fwyaf cyffredin o ganolfannau cyswllt clinigol (999/111). Mae'r canlyniadau'n parhau i fod yn gadarnhaol iawn: Arhosodd 96.7% o unigolion a oedd mewn gwaith ar ddechrau'r therapi mewn gwaith, a dychwelodd 47.6% o'r rhai a oedd i ffrwd o'r gwaith erbyn diwedd eu hymyrraeth. Mae hyn yn atgyfnerthu rôl bwysig y Rhaglen Cymorth i Weithwyr wrth gefnogi gwydnwch seicolegol, cynnal presenoldeb yn y gwaith, a gwella canlyniadau dychwelyd i'r gwaith yn dilyn absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.

Mae gweithgaredd hyrwyddo wedi cael ei adnewyddu ar draws y sefydliad i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael, ac mae sesiynau galw heibio lles yn parhau i fod ar gael mewn canolfannau cyswllt, gorsafoedd, a lleoliadau anghysbell ar sail gylchdroadol. Wrth edrych ymlaen, bydd gweithdai pwrpasol ar Reoli Straen yn y Gweithle a Chwsg yn lansio ddechrau 2026, wedi'u cefnogi gan ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth barhaus i sicrhau cefnogaeth lles brydlon, gynhwysfawr a chyfrinachol i'r holl staff.

Presenoldeb/salwch

Ym mis Mawrth 2022, cyflwynodd WAST ddull rheoli prosiectau strwythuredig ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch gyda saith ffrwd waith yn nodi camau gweithredu a gweithgareddau rhagweithiol ac adweithiol i dargedu absenoldeb ar draws y sefydliad. O ganlyniad, mae absenoldeb wedi gostwng o uchafbwynt o bron i 12.5% ym mis Rhagfyr 2021 i 9.18% ym mis Rhagfyr 2025 gyda'r absenoldeb sefydliadol isaf ym mis Mai 2025 sef 6.81%. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y gwasanaeth EMS yn 7.87% ym mis Rhagfyr 2025 sy'n gadarnhaol o ystyried yr heriau system ac amgylcheddol parhaus y mae ein criwiau rheng flaen yn eu profi. Mae patrwm yr absenoldeb yn dilyn yr un llinellau tuedd flwyddyn ar ôl

blwyddyn gydag uchafbwyntiau ym mis Rhagfyr/mis Ionawr, mis Gorffennaf/mis Awst ac uchafbwynt llai tua mis Mawrth. Eleni mae fflw/annwyd/Covid cynnar yn effeithio'n uniongyrchol ar y tîm. Ar draws yr Ymddiriedolaeth mae salwch hirdymor yn 6.24% ar hyn o bryd, tymor byr yn 2.94%.



Mae ymdrech gydlynol gan y tîm Gwasanaethau Pobl sy'n cefnogi rheolwyr gweithredol i ymdrin ag achosion o absenoldeb oherwydd salwch, rheoli o fewn fframwaith y polisi, cynyddu ymwybyddiaeth, gwella lles a chefnogaeth yn ogystal â darparu hyfforddi a mentora i reolwyr yn helpu i leihau'r ffigurau ac mae ymdrechion yn parhau i leihau canran yr absenoldeb ymhellach. I gefnogi hyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wreiddio dull mwy modern, rhagweithiol o reoli presenoldeb sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r camau gweithredu'n cynnwys:

- gwreiddio arferion rheoli tosturiol ymhellach, sy'n wybodus am drawma ac sy'n ddiogel yn seicolegol, gan sicrhau bod prosesau sefydliadol yn lleihau niwed ac yn cefnogi llesiant cydweithwyr
- ehangu opsiynau gweithio hyblyg, personol, gan gynnwys trefniadau gweithio dros dro, parhaol ac ystwyth sy'n cael eu llywio gan amgylchiadau unigol, i helpu cydweithwyr i aros yn y gwaith a chynnal eu cyflogaeth lle bynnag y bo modd
- defnyddio data a dadansoddeg gwell i nodi tueddiadau, manau problemus, a dangosyddion cynnar o bryderon llesiant, gan alluogi ymyriadau mwy rhagweithiol ac ataliol, gan gynnwys ymchwilio'n fanwl ac wedi'u targedu i fynd i'r afael â phroblemau sylfaenol

- cryfhau llwybrau iechyd, lleisiant a chymorth cynnar, gan gynnwys gwell cyfeirio, mynediad haws at lechyd Galwedigaethol, Rhaglenni Cymorth i Weithwyr, a rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid
- gwreiddio llwybrau dychwelyd i'r gwaith cyfannol, gyda chynlluniau cymorth strwythuredig, dychweliadau graddol, sgysiau llesiant, ac addasiadau rhesymol wedi'u teilwra i'r rôl a'r cyflwr
- ffocws strategol ar leihau nifer a hyd yr achosion o sifftiau'n gor-redeg o fewn gweithrediadau. Mae hyn yn cael ei gydbwyso gan gynnydd mewn cymeradwyaeth ar gyfer ceisiadau am amser i ffwrdd yn lle tâl (TOIL), sy'n dangos effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant cydweithwyr ar y cyfan.
- cynnal adroddiadau rheolaidd i'r Tîm Arwain Gweithredol, y Pwyllgor Pobl a Diwylliant a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, gyda chefnogaeth ymchwiliadau manwl i faterion penodol er mwyn gwella goruchwyliaeth, sicrwydd a llywodraethu
- cyflwyno mentrau arloesol ar gyfer gwella diwylliannol a phrofiad gweithwyr, gyda ffocws ar ddiogelwch seicolegol, cynhwysiant, a chryfhau llesiant ar lefel tîm, gan gydnabod y cysylltiad cryf rhwng diwylliant, ymgysylltiad, a llai o absenoldeb
- parhau i weithio mewn partneriaeth â phartneriaid undebau llafur i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar bresenoldeb megis oedi wrth drosglwyddo, blinder, pwysau llwyth gwaith, a chymryd TOIL yn brydlon
- darparu cefnogaeth gadarn i reoli newid, gan sicrhau bod cydweithwyr yr effeithir arnynt gan drawsnewid ac ailstrwythuro yn cael eu cefnogi'n dda trwy gyfathrebu clir, cynnwys, a phrosesau teg
- sicrhau ymgysylltiad rhagweithiol â Gwasanaethau Pobl, gan gynnwys adolygiadau achosion gydag uwch reolwyr er mwyn sicrhau gwelededd, cysondeb, atebolrwydd, ac adnabod anghenion cymorth yn gynnar
- cyflwyno datblygu galluedd rheoli modern, gan gynnwys hyfforddiant mewn sgysiau cefnogol, llythrennedd iechyd meddwl, a rheoli cyflyrau iechyd cymhleth neu hirdymor gydag empathi a hyder.

Mae absenoldeb salwch yn yr Ymddiriedolaeth yn gyfartalog ar gyfer y sector ambiwlans a dylid bod yn ofalus o'i gymharu â ffigurau'r byrddau iechyd oherwydd y gwahanol risgiau o haint ac anaf mewn gwahanol leoliadau. Mae'r sector yn risg uchel o ran anhwylder straen ôl-drawmatig (PTSD), iechyd meddwl a hunanladdiad oherwydd y trawma a'r straen sy'n gysylltiedig â'r rôl. Er enghraifft:

- canfu adolygiad systematig diweddar fod cyfran y marwolaethau oherwydd hunanladdiad ymhlith clinigwyr EMS (parafeddygon, staff ambiwlans, darparwyr brys cyn-ysbyty), mwy na dwywaith y 2.2% yn y boblogaeth gyffredinol
- mae arolwg ledled y sector o weithwyr EMS yn awgrymu baich iechyd meddwl uchel iawn: mae llawer yn nodi iselder, pryder, PTSD a "syniad hunanladdol difrifol"
- yn ôl data a gasglwyd gan Gymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwylansys y DU (AACE): nodwyd bod parafeddygon gwrywaidd 75% yn fwy tebygol o farw trwy hunanladdiad na'r cyfartaledd cenedlaethol (gweithiol), h.y. yn sylweddol uwch o'i gymharu â llawer o swyddi eraill

Felly, nid yw'n syndod mai'r prif reswm dros absenoldeb oherwydd salwch yw iechyd meddwl (3.03% ym mis Rhagfyr 25), ac yna peswch/anwyd/fliw (0.82%) gastro (0.82%), MSK (cyhyrsgerberbydol) (0.81%), anaf/torasgwrn (0.46%) a phroblemau cefn (0.45%). Fel y nodwyd uchod, pan fydd cynnydd tymhorol mewn heintiau e.e. annwyd, ffliw, RSV (firws syncytial anadlol), mae hyn hefyd yn effeithio'n uniongyrchol ar y tîm. Mae ein cynnig cymorth iechyd meddwl wedi'i gynnwys yn yr adran lles uchod.

Sifftiau'n gor-redeg

Mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig blaenorol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwmo i fynd i'r afael â lefel y sifftiau'n gor-redeg o fewn y gwasanaeth EMS, mae'n hysbys bod hyn yn achos straen a gallai fod yn cyfrannu at lefelau absenoldeb uwch na'r disgwyl. Ym mis Rhagfyr 2024 roedd bron i 3000 o shifftiau wedi gor-redeg, gydag amser gor-redeg cyfartalog o 41 munud. Ym mis Rhagfyr 2025 roedd hyn wedi gostwng i tua 2400 o sifftiau'n gor-redeg gydag amser gor-redeg cyfartalog o 35 munud. Er bod hyn yn cynrychioli rhywfaint o gynnydd o ran niferoedd a hyd, mae'r Ymddiriedolaeth eisiau mynd ymhellach.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu dull cynhwysfawr, amlddisgyblaethol o fynd i'r afael â sifftiau gweithredol yn gor-redeg, gan flaenoriaethu gofal cleifion, lles staff ac effeithlonrwydd sefydliadol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei yrru gan lywodraethu strwythuredig, cyfarfodydd adolygu rheolaidd, a dadansoddi data parhaus, gan sicrhau perchnogaeth ac atebolrwydd clir ar gyfer pob gweithred.

Amser i ffwrdd yn lle tâl (TOIL)

Mae TOIL yn parhau i fod yn fater proffil uchel mewn trafodaethau gyda Phartneriaid Undebau Llafur, yn enwedig mewn perthynas â lles staff, darparu gwasanaethau, a'r risg o weithredu diwydiannol.

Mae'r Polisi Adnoddau cyfredol (2014), a nodwyd i'w adolygu drwy archwiliad mewnol, wedi'i drefnu i'w ddiweddarau yn y misoedd nesaf. Mae dehongliadau gwahanol o'r polisi wedi arwain at anghydfodau, yn enwedig ynghylch hawl staff i TOIL a gronnwyd o sifftiau'n gor-redeg gorfodol. Yn arbennig, mae mwy na 60% o TOIL yn cael ei gynhyrchu o estyniadau heb eu cynllunio i oriau contractiol, gyda staff ac undebau llafur yn ceisio mwy o hyblygrwydd o ran pryd y gellir cymryd TOIL. Mae'n dod yn amlwg nad yw gwelliant i drosglwyddo cleifion i ysbytai o bosibl yn cael yr effaith uniongyrchol gyfatebol ar leihau gorwariant.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, lansiwyd proses TOIL newydd ar 15 Medi 2025, a gynlluniwyd i gynyddu hyblygrwydd a chyflawni 11,500 awr ychwanegol y flwyddyn y tu hwnt i'r cymeradwyaethau presennol. Mae cynllun peilot chwe mis, gan ddechrau gydag EMS, ar y gweill gyda chyfarfodydd partneriaeth misol i adolygu canlyniadau a sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau.

Bydd canlyniadau'r cynllun peilot yn cael eu monitro drwy adolygiadau misol o gymeradwyaethau, gwrthodiadau, adborth staff, ac effaith ar gyfraddau salwch/tyniadau, a datblygu safbwynt clir ar effeithiau gweithredol a lles, wedi'i ategu gan ddata ar gyfraddau tyniadau. Mae canlyniadau cynnar a fonitryd yn dangos sefyllfa gadarnhaol gyda hyd at 95% o'r holl TOIL a gyflwynwyd wedi'u cymeradwyo.

Cymysgedd sgiliau'r gweithlu a chynaliadwyedd

Mae gwaith yn parhau i gefnogi uwchsgilio cyn-gyweithwyr Technegwyr Meddygol Brys Band 4 i rolau Ymarferwyr Ambiwlans Brys Band 5, gyda'r holl hyfforddiant wedi'i drefnu i'w gwblhau erbyn Haf 2026. Cafodd y gymysgedd sgiliau ambiwlans brys a ddymunir, fel y cytunwyd gan y Tîm Arwain Gweithredol, ei gyfleu i'r sefydliad ddechrau mis Ionawr 2026. Mae ymdrechion ar y gweill i alinio sefydliad y gweithlu ar lefelau Technegwyr Meddygol Brys Band 4, Ymarferwyr Ambiwlans Brys Band 5, a Pharafeddyg Band 6 yn unol â'r cymysgedd sgiliau hwn. Fodd bynnag, bydd cyflawni'r cydbwysedd hwn yn gofyn am gyfnod sylweddol oherwydd y tueddiadau trosiant a chynnydd presennol.

Gyda chyfraddau cadw gwell, lefelau swyddi gwag isel o fewn rolau Parafeddygon, a'r angen i ail-alinio sefydliad y Gwasanaethau Meddygol Brys, mae gofyniad sylweddol is am barafeddygon newydd gymhwyso o fewn yr Ymddiriedolaeth. Mae opsiynau i gyflymu'r broses o adlinio rolau EMS yn cael eu harchwilio'n weithredol gan yr Uwch Swyddog a'r Tîm Arwain Gweithredol, a fydd yn cadarnhau niferoedd recriwtio parafeddygon newydd gymhwyso ar gyfer y cyfnod nesaf ddechrau 2026.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth gofal brys gyda thwf Uwch Ymarferwyr Parafeddygol, gan sicrhau bod y gweithlu wedi'i alinio'n fwy ag anghenion cleifion a chyfeiriad strategol. Er bod cyfleoedd i dyfu ein gweithlu Uwch Ymarferwyr Parafeddygol yn parhau i fod yn gryf, mae'r Tîm Arwain Gweithredol yn parhau i fod yn ymwybodol o'r amlen ariannol bresennol, ein cyfrifoldeb i sicrhau cynaliadwyedd ariannol a'r angen i wneud y gorau o gynhyrchiant y garfan Uwch Ymarferwyr Parafeddygol bresennol.

Mae costau asiantaeth yn erbyn cyfanswm y ffigur cyflog yn parhau i fod yn fach iawn, ac fe'u nodir yn adroddiad y staff yn rhan 2 o'r adroddiad blynyddol hwn. Mae hyn i gwmpasu nifer fach o swyddi gwag, mewn meysydd ar draws yr Ymddiriedolaeth y mae'r Ymddiriedolaeth yn cael anhawster recriwtio iddynt gan gynnwys clinigol, digidol, fflyd ac ystadau. Fodd bynnag, gobeithir y bydd rhai o'r staff asiantaeth hwn yn cael eu disodli gan staff parhaol yn y dyfodol agos.

O ystyried yr ansicrwydd sy'n parhau ynghylch rhywfaint o gyllid technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sydd wedi'i dderbyn ar sail anghylchol, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddefnyddio staff asiantaeth yn y rolau hyn i ddarparu'r gwasanaeth, ac mae'n credu bod hynny'n briodol o ystyried yr anallu i recriwtio ar sail sylweddol.

Hawliau dynol, amrywiaeth a chydaddoldeb

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn yr Adroddiad Atebolrwydd yn datgelu sut mae'r Ymddiriedolaeth yn bodloni ei rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Cyfeiriwch at y Datganiadau Datgelu a'r datganiad o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 am ragor o wybodaeth. Mae sylwebaeth ychwanegol hefyd ynghylch 'Materion Eraill Gweithwyr' yn yr Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff, yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

Gwrth-lygredd a gwrth-lwgrwobrwyo

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hefyd yn cynnwys adroddiad ynghylch trefniadau atal twyll yr Ymddiriedolaeth, a pherthynas yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol â'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC). Mae'r adroddiad hwn i'w weld yn adran 'Y Fframwaith Rheoli' yr Adroddiad Atebolrwydd.

DIGIDOL, ARLOESIEDD A SEILWAITH

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fuddsoddi mewn digidol, arloesedd a seilwaith fel galluogwyr allweddol ar gyfer gwasanaethau diogel, gwydn a chynaliadwy, gyda gweithgaredd wedi'i alinio'n gryf â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi gwella gwasanaethau, parodrwydd ar gyfer y dyfodol a mynediad gwell i gleifion, wrth gryfhau sylfeini gweithredol y sefydliad.

Gwireddu potensial digidol ac arloesedd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddarparu portffolio digidol ac arloesi sy'n aeddfedu ac yn uchelgeisiol sy'n gwella parodrwydd gweithredol, profiad cleifion, mynediad at ofal a gwydnwch cyffredinol ein gwasanaethau yn uniongyrchol. Mae ein rhaglenni'n dangos uniondeb darpariaeth, llywodraethu cryf, effaith weithredol pendant ac aliniad clir â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru sydd wedi'i alluogi'n ddigidol ac sy'n barod ar gyfer y dyfodol.

Mae digidol ac arloesi yn yr Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar un pwrpas clir: gwella canlyniadau i gleifion, diogelwch staff a gwydnwch gwasanaethau ar raddfa fawr. Mae'r dull hwn yn blaenoriaethu darpariaeth ddiogel, effaith weithredol a gwerth am arian cyhoeddus, gan symud y tu hwnt i gynlluniau peilot i newid mesuradwy, mewnosodedig ar draws gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae Cynllun Digidol 2024–2029 yn nodi hyn dros bum colofn sy'n sail i'n trawsnewidiad a'n diwylliant o arloesi:

- hanfodion bob dydd – sicrhau bod gan staff yr offer a'r sgiliau i ddarparu gofal yn hyderus ac yn effeithlon
- diogeledd, diogelwch a seiber – diogelu systemau a data i gynnal ymddiriedaeth a gwydnwch
- arloeswyr digidol – grymuso timau rheng flaen i arwain arloesedd ac arbrofi
- trawsnewid digidol – ailgynllunio llwybrau a gwasanaethau i wella profiad cleifion ac effeithlonrwydd gweithredol
- data, gwybodaeth a mewnwelediad – defnyddio dadansoddeg a deallusrwydd artiffisial ar gyfer penderfyniadau a rhagolygon gwell

Mae'r pileri hyn yn arwain dull o wreiddio digidol mewn ymarfer bob dydd, cefnogi gallu staff, a gyrru gwelliannau mesuradwy mewn gofal a chanlyniadau. Adroddir ar gynnydd yn erbyn pob colofn i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad sy'n rhoi sicrwydd i'r bwrdd. Yn unol â chanllawiau Ysgrifennydd y Cabinet, rhaglen ddigidol ac arloesi'r Ymddiriedolaeth yw:

- gyrru dewis, hygyrchedd ac effeithlonrwydd cleifion drwy fynediad 111 wedi'i alluogi gan ddeallusrwydd artiffisial, canslo drwy neges destun, cefnogaeth iaith estynedig, ac offer brysbennu digidol
- cefnogi modelau gofal newydd, gyda chyfeirio deallusrwydd artiffisial asiantaidd, brysbennu o bell, digideiddio llwybrau ac awtomeiddio i leihau'r galw y gellir ei osgoi
- cyflawni gwelliannau mesuradwy, gan gynnwys llai o faich trin galwadau, llai o deithiau NEPTS yn cael eu gwastraffu, llai o amser ar y safle, gwell cefnogaeth i benderfyniadau ar ataliad y galon a chydraddoldeb mynediad gwell

Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau digidol hyn yn dangos parodrwydd yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y dyfodol a chydymffurfedd gref â'r blaenoriaethau ar gyfer GIG Cymru modern, hygyrch ac arloesol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn trafod yn weithredol y cyfleoedd digidol y mae'n eu gweld gyda phartneriaid ar draws y system gyda'r bwriad o chwarae rhan mewn atebion digidol ar draws y system i nifer o heriau.

Mae rhagor o fanylion am y rheolaethau mewnol ym maes seiberddiogelwch a llywodraethu gwybodaeth cysylltiedig yr Ymddiriedolaeth i'w gweld yn Rhan 2 o'r Adroddiad Atebolrwydd.

Seilwaith

Ystadau

Yn fwy diweddar, mae'r Ymddiriedolaeth wedi canolbwyntio ar amgylcheddau Canolfannau Cyswllt Clinigol ochr yn ochr â nifer o welliannau i orsafoedd ambiwlans, i gefnogi ymhellach uchelgeisiau'r model trawsnewid clinigol. Mae hyn yn sicrhau y gall yr Ymddiriedolaeth weithio tuag at gael yr adeiladau a'r cerbydau cywir yn y lle iawn i'n staff ddarparu'r gofal gorau a mwyaf diogel ledled Cymru.

Mae Rhaglen Amlinellol Strategol Ystadau'r Ymddiriedolaeth wedi'i chymeradwyo'n llawn gan Lywodraeth Cymru, gan ei galluogi i weithio tuag at gynhyrchu cyfres o achosion busnes i gyflawni ei gweledigaeth, ac mae'n parhau i weithio i ystyried y ffordd orau o ddatblygu atebion ar gyfer cynlluniau blaenoriaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cefnogi nifer o gynlluniau Ystadau ar raddfa fawr yn ystod y flwyddyn ariannol hon, trwy ei dyraniad cyfalaf dewisol; mae'r rhain yn cynnwys gorsaf ambiwlans newydd yn Nolgellau, gwelliannau sylweddol i'r orsaf yn Nhrefynwy, cyfleusterau gwell i gydgrynhoi gofal integredig ar safle Matrix yn Abertawe a hwylusodd y gallu i adael Tŷ Thanet, a gweithdy fflyd newydd ym Mangor. Roedd y rhain i gyd yn

gynlluniau i fynd i'r afael â phroblemau cyflwr ystadau hirhoedlog. Bydd y buddsoddiadau hyn yn caniatáu i staff symud i adeiladau addas at y diben.

Rhaglen amnewid fflyd

Mae Rhaglen Amlinellol Strategol Fflyd ddiweddaraf yr Ymddiriedolaeth wedi cael ei chymeradwyo'n llawn gan Lywodraeth Cymru, gan alluogi'r Ymddiriedolaeth i gynhyrchu Achosion Cyfiawnhad Busnes blynyddol ar gyfer amnewid cerbydau.

Yn gynnar yn 2025/26, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru'r Achos Cyfiawnhad Busnes newydd ar gyfer y fflyd ar gyfer prynu 141 o gerbydau gyda chost o tua £22.453m; roedd hyn yn cynnwys 44 o ambiwlansys argyfwng, 12 o gerbydau ymatebwr sengl, 65 o gerbydau gofal ambiwlans mawr, 13 o gerbydau gofal ambiwlans llai, dau gerbyd hyfforddi gyrwyr, tri cherbyd gweithdy fflyd a dau gerbyd iechyd galwedigaethol. Roedd y gallu i gyflawni hyn, ar amser ac o fewn y gyllideb, yn rhannol oherwydd cymeradwyaeth gynnar cyllid y cynllun a ganiataodd i'r Ymddiriedolaeth sicrhau slotiau adeiladu gyda'r trawsnewidwyr cerbydau.

Cynaliadwyedd amgylcheddol

Cynhyrchodd WAST Gynllun Gweithredu Datgarboneiddio mewn ymateb i Gynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru. Mae gan y cynllun ystod o gamau gweithredu sy'n amlinellu ymateb yr Ymddiriedolaeth i ddatgarboneiddio ac mae'n cwmpasu pob cyfarwyddiaeth ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Mae Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru, wedi adnewyddu'r Cynllun Cyflawni Strategol sy'n sail i Gynlluniau Cyflawni Strategol y sefydliadau. Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth sylwadau ar ddwy fersiwn o'r ddogfen. Cyflwynwyd Fersiwn 3 i'r Bwrdd Rhaglen Genedlaethol a Bwrdd Arweinyddiaeth y GIG i'w gymeradwyo.

Ar hyn o bryd mae'r Ymddiriedolaeth yn y broses o adolygu'r newidiadau sydd eu hangen i'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio yng ngoleuni'r Cynllun Cyflawni Strategol diwygiedig. O fewn y Cynllun Cyflawni Strategol mae 25 o fentrau ar draws 7 categori. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi'u henwi'n benodol (neu o fewn ymbarél holl sefydliadau'r GIG) mewn 36 o gamau gweithredu.

Ar hyn o bryd mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried y fethodoleg ar gyfer paratoi ymateb y Cynllun Cyflawni Strategol ar ffurf cynllun newydd, gan gydnabod y gallai fod angen i'r

Ymddiriedolaeth ystyried rhai o'r camau gweithredu penodol, a'r goblygiadau adnoddau o gefnogi'r rhain fel rhaglenni gwaith.

O fewn y Cynllun Cyflawni Strategol wedi'i adnewyddu mae cyfres o fetrigau data. Er y gallai rhywfaint o'r data hwn fod wedi'i gasglu gan yr Ymddiriedolaeth eisoes, mae agweddau a fydd yn gofyn am newidiadau i broses yr Ymddiriedolaeth, neu ddatblygu mecanweithiau ar gyfer casglu data newydd ei angen. Unwaith y bydd y rhain wedi'u cwblhau, bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i adrodd yr Ymddiriedolaeth ar yr wybodaeth hon. Er y gwneir pob ymdrech i awtomeiddio casglu ac adrodd data, dylid nodi y bydd hyn yn gofyn am amser ac adnoddau i'w sefydlu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau newid i'r targedau lleihau carbon a osodwyd yn flaenorol ar gyfer y sector cyhoeddus, sef gostyngiad o 16% erbyn 2025 a gostyngiad o 34% erbyn 2030 ar gyfer allyriadau carbon. Bydd targedau bellach yn canolbwyntio ar allyriadau cwmipas 1 a 2 (uniongyrchol ac anuniongyrchol) yn unig ac ni fyddant yn cynnwys allyriadau cwmipas 3 (cadwyn gyflenwi). Mae'r gostyngiad wedi'i dargedu wedi'i ailbroffilio i ostyngiad o 41.7% erbyn 2030 ar draws y ddau gategori hyn. Mae hyn hefyd yn cydnabod cyflawniad y targed gwreiddiol o 16% o ostyngiad rhwng 2018/19 a 2025, gyda chyflawniad gwirioneddol o 17.7%.

Cronfa Ystadau Wedi'i Thargedu (TEF)

Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gael cyllid ar gyfer cynlluniau yn y Fenni (£850mil) a HART (£156mil) eleni. Aeth y ddau gynllun ymlaen yn dda gyda chynllun HART wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn, a chynllun y Fenni wedi'i gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Cerbydau trydan a hybrid

Mae'r Ymddiriedolaeth yn y broses o gyflwyno 10 cerbyd ymateb unigol trydanol â batri (BEV) Maxus, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i werthuso gwybodaeth am gapasiti a chyfnodau batri, amseroedd gwefru a pherfformiad o dan amodau ymateb.

Mae'r gwaith ar weithredu carfanau blaenorol o gerbydau hybrid plygio i mewn yn parhau; o ystyried bod mecanwaith sefydledig ar gyfer y gweithrediad hwn o rowndiau caffael cerbydau blaenorol, mae'r rhain wedi cael eu hystyried yn llwyddiant, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gefnogi cyflwyno'r cerbydau hyn. Fodd bynnag, wrth i fwy o gerbydau gael eu cyflwyno i'r gwasanaeth, mae angen gwaith i asesu'r seilwaith gwefru

ychwanegol sydd ei angen i sicrhau digon o gapasiti ar y safle, gan ganiatáu defnydd effeithiol o'r cerbydau hyn.

Seilwaith gwefru cyflym cerbydau trydan

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi profi rhai anawsterau yn y farchnad gwefru cyflym gyda dau o'r cyflenwyr blaenorol yn tynnu'n ôl o'r farchnad yn dilyn prosesau tendro llwyddiannus. Mae'r gwaith bellach yn canolbwyntio ar osod gwefrwyr 22kw ar draws pum safle'r


Ymddiriedolaeth yn 2025/26.

Nes bod yr Ymddiriedolaeth yn gallu datblygu rhaglen i osod gwefrwyr cyflym ym mhob prif orsaf, bydd cyflwyno ambiwlansys BEV ar raddfa lawn yn parhau i fod yn her sylweddol.


Dylid nodi hefyd fod y buddsoddiad sydd ei angen ar rai safleoedd yn sylweddol a bod heriau sylweddol gyda gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu i drefnu a chefnogi'r uwchraddio sydd ei angen i'r seilwaith presennol.

Iechyd a Diogelwch

Y ddau faes allweddol yr ydym yn adrodd arnynt yw RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013) a thrais ac ymddygiad ymosodol. Mae'r graffiau ar gyfer 2025/26 isod.



Mae nifer y digwyddiadau RIDDOR wedi bod yn weddol gyson dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda chyfartaledd o 3.5 digwyddiad y mis.



Mae nifer yr adroddiadau am drais ac ymddygiad ymosodol a dderbynnir bob mis wedi gweld tueddiad sy'n cynyddu'n raddol ers dechrau 2025 ac mae wedi bod yn gyfartaledd o 47 o ddigwyddiadau'r mis dros y flwyddyn ddiwethaf, o'i gymharu â 38 y flwyddyn flaenorol.

CYFLWYNO CYNLLUN TYMOR CANOLIG INTEGREDIG 2025/26

Nododd Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025/26 raglen waith uchelgeisiol ac eang ei chwmpas, wedi'i hategu gan set eang o flaenoriaethau sefydliadol allweddol, newidiadau trawsnewidiol a meysydd gwella i'w cyflawni drwy gydol y flwyddyn. Fe'i datblygwyd yn unol â phum ffordd o weithio egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Adroddiad Dyletswydd Ansawdd ar gyfer 2025/26 y cyfeirir ato uchod yn cyd-fynd â'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal yn y Fframwaith Ansawdd.

Bodlonodd yr Ymddiriedolaeth yr amodau atebolrwydd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i chymeradwyaeth o'n Cynllun Tymor Canolig Integredig, y mae'r dystiolaeth ar ei gyfer wedi'i chynnwys yn yr adroddiad perfformiad. Roedd y rhain yn cynnwys cyflawni'r amcanion a osodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol a Fframwaith Cynllunio GIG Cymru; cefnogi egwyddorion ecwiti a chyfiawnder cymdeithasol;

ymgyrdd â chynllunio cadarn ar gyfer y gaeaf; gweithredu fframwaith perfformiad ambiwlansys newydd a chomisiynu gwerthusiad ohono; darparu gwasanaeth ymateb i gwympiadau yn y gymuned; gwella canlyniadau i unigolion yn y categorïau porffor a choch, ac ymatebolrwydd i gleifion yn y categori oren; cryfhau cynllunio at argyfyngau; a chyflawni a chynnal sefyllfa ariannol gytbwys.

Un maes gwaith allweddol a flaenoriaethwyd yn 2025/26 oedd gweithredu Fframwaith Perfformiad Ambiwylansys newydd Llywodraeth Cymru. Fel y dangosir yn y trosolwg a'r dadansoddiad o berfformiad uchod, roedd y fframwaith hwn yn nodi newid mawr ar draws y sefydliad ac ar draws y system yn y ffordd y mae gwasanaethau ambiwlans yn cael eu mesur a'u hasesu, gan symud i ffwrdd o ffocws pennaf ar amseroedd ymateb tuag at ddull sy'n fwy seiliedig ar ganlyniadau sy'n adlewyrchu effeithiolrwydd clinigol a phrofiad cleifion yn well.

Yn ogystal, nododd y Cynllun Tymor Canolig Integredig ystod o welliannau ar draws y sefydliad gyda'r nod o gryfhau ffyrdd o weithio, moderneiddio prosesau busnes, a gwella effeithiolrwydd a chysondeb cyflawni swyddogaethau corfforaethol, er mwyn cefnogi gwasanaethau rheng flaen a chynaliadwyedd sefydliadol hirdymor yn well. Mae'r ffeithlun isod yn rhoi trosolwg o rai o gyflawniadau allweddol y sefydliad yn ystod 2025/26.



BLAENORIAETHAU GWEINIDOGOL / CHWE NOD - TROSOLWG O GYNYDD 2025/26

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i gydweithio'n agos â phartneriaid allweddol a rhanddeiliaid system i gyflawni newidiadau strategol allweddol gan gynnwys y Blaenoriaethau Gweinidogol a'r Chwe Blaenoriaeth Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng.

Drwy gydol 2025-26, mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i fod yn bartner gweithredol sy'n cyfrannu ar draws ehangder y Rhaglen Chwe Nod, gan gefnogi dylunio, datblygu a gweithredu nifer o fentrau allweddol chwe nod a adroddwyd trwy strwythur ffurfiol y rhaglen, gan gynnwys y canlynol:

- Gofal Brys yr Un Diwrnod - mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i gefnogi partneriaid byrddau iechyd i wreiddio gwasanaethau gofal brys yr un diwrnod a chynyddu mynediad a llif cleifion 999, gan helpu i leihau'r galw mewn adrannau argyfwng ysbytai.
- Un Pwynt Mynediad – mae'r Ymddiriedolaeth wedi cefnogi datblygiad a gweithrediad modelau un pwynt mynediad y bwrdd iechyd ac wedi parhau i weithio i gynyddu llif y cleifion priodol sy'n cyflwyno 999 ac 111.
- 'ymgyngoriad clinigol cyn trosglwyddo' - roedd yr Ymddiriedolaeth yn gydweithredwr gweithredol gyda'r rhaglen Chwe Nod i ddylunio, datblygu a phrofi'r model 'ymgyngoriad clinigol cyn trosglwyddo'. Mae'r model hwn wedi'i dreialu mewn nifer o fyrddau iechyd (gan gynnwys Hywel Dda a Bae Abertawe) i gyfeirio galwadau 999 priodol o gartrefi gofal i'r (gwasanaethau un pwynt mynediad), gan gefnogi rheolaeth ddiogel ac effeithiol yn y gymuned a lleihau cludo a derbyn cleifion i'r ysbyty y gellir eu hosgoi.
- Fframwaith cwmpadau cenedlaethol - mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid system a'r rhaglen Chwe Nod i gefnogi datblygiad fframwaith cwmpadau cymunedol cenedlaethol Cymru, gan gynnwys y manylebau ar gyfer Ymatebwyr Cwmpadau Lefel 1 ac Ymatebwyr Cwmpadau Uwch Lefel 2.
- Yn ogystal â'r cydweithrediad hwn ar draws y rhaglen, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ystod o welliannau pellach sy'n cyfrannu at ac yn cefnogi blaenoriaethau gweinidogol a'r Chwe Nod. Mae hyn wedi cynnwys y Fframwaith Perfformiad Ambiwylansys newydd a'r model gwasanaethau clinigol integredig a nodir yn yr adran dadansoddi perfformiad uchod.

Yn 2026/27, bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gydweithio â phartneriaid i gyflawni mentrau allweddol y Chwe Nod, gan gynnwys gwasanaethau un pwynt mynediad, gofal brys yr un diwrnod ac ehangu'r model 'ymgynggori clinigol cyn trosglwyddo'.

Mae'r gwaith hwn yn eistedd ochr yn ochr â'n cyfraniad at y rhaglen Cymunedol o'r Cychwyn, lle byddwn yn parhau i ddiffinio a chryfhau rôl yr Ymddiriedolaeth wrth gefnogi gofal yn y gymuned a gwella canlyniadau i gleifion yn nes at y cartref.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust

RHAN 2: ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

Bwriad yr **Adroddiad Atebolrwydd** yw bodloni gofynion atebolrwydd allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae gofynion yr Adroddiad Atebolrwydd yn seiliedig ar y materion y mae'n ofynnol ymdrin â hwy mewn Adroddiad Cyfarwyddwyr, fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 15 Deddf Cwmnïau 2006 ac Atodlen 7 o Offeryn Statudol 2008 Rhif 410, ac mewn Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth, fel y nodir ym Mhennod 6 o Ddeddf Cwmnïau 2006 ac Atodlen 8 o OS 2008 Rhif 410.

Mae gofynion Deddf Cwmnïau 2006 wedi'u haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus fel y nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM). Bydd felly'n ymdrin â materion fel cyflogau cyfarwyddwyr a thaliadau eraill, trefniadau llywodraethu a'r dystysgrif ac adroddiad archwilio. Caiff yr Adroddiad Atebolrwydd ei lofnodi a'i ddyddio gan y Swyddog Atebol. Mae tair prif ran i'r Adroddiad Atebolrwydd. Y rhain yw:

- **Yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol:** Mae'r Adroddiad hwn yn esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth Bwrdd a strwythurau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth a sut maent yn cefnogi cyflawni amcanion yr Ymddiriedolaeth. Mae tair prif ran i'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ei hun: Adroddiad y Cyfarwyddwyr, y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu.
- **Yr Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff:** Mae'r Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff yn cynnwys gwybodaeth am dâl cydnabyddiaeth uwch reolwyr. Bydd yn manylu ar gyflogau a thaliadau eraill, polisi'r Ymddiriedolaeth ar dâl cydnabyddiaeth i uwch reolwyr ac a oedd unrhyw daliadau ymadael neu ddyfarniadau arwyddocaol eraill i uwch reolwyr presennol neu gyn-uwch reolwyr. Yn ogystal, mae'r Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff yn nodi aelodaeth Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolaeth, a gwybodaeth staff o ran niferoedd, cyfansoddiad ac absenoldeb oherwydd salwch, ynghyd â gwariant ar ymgynghoriaeth a gwariant oddi ar y gyflogres.
- **Yr Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru:** Mae'r Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol yn darparu gwybodaeth am faterion fel rheoleidd-dra gwariant, ffioedd a thaliadau, a'r dystysgrif ac adroddiad archwilio.

YR ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae'r adroddiad llywodraethu corfforaethol hwn yn manylu ar gyfansoddiad Bwrdd a strwythurau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth a sut y maent yn cefnogi cyflawni amcanion yr Ymddiriedolaeth. Mae'r adroddiad yn egluro sut mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli adnoddau ac i ba raddau y mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â'i gofynion llywodraethu ei hun ac yn eu gwerthuso.

Y bwriad yw dwyn ynghyd mewn un man faterion sy'n ymwneud â llywodraethu, risg a rheolaeth.

Mae tair prif ran i'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, sef:

- Adroddiad y Cyfarwyddwyr.
- Y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn Perthynas â'r Cyfrifon.
- Y Datganiad Llywodraethu.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Aelodau'r Bwrdd

Mae manylion y bwrdd a chyfarwyddwyr eraill sydd ag, neu a oedd ag, awdurdod neu gyfrifoldeb dros gyfarwyddo a rheoli prif weithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, a hyd at y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, wedi'u nodi isod:

Hefyd, darperir yma rolau sydd gan aelodau'r bwrdd mewn perthynas â phwyllgorau (er enghraifft cadeirydd neu arweinydd), a swyddi statudol neu swyddi hyrwyddwr y bwrdd.

Aelodau o'r Bwrdd 2025/26 â Phleidlais ar 31 Mawrth 2026			
Colin Dennis	Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth Cadeirydd y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth	Emma Wood	Prif Swyddog Gweithredol (o 1 Hydref 2025) Swyddog Atebol
			



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust

Aelodau o'r Bwrdd 2025/26 â Phleidlais ar 31 Mawrth 2026

Jayne Beeslee



Cyfarwyddwr Anweithredol

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad Hyrwyddwr digidol

Peter Curran



Cyfarwyddwr Anweithredol

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, Cadeirydd y Pwyllgor Elusen, Hyrwyddwr dros y lluoedd arfog a chyn-filwyr

Bethan Evans



Cyfarwyddwr Anweithredol

Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch Hyrwyddwr y Gymraeg, Atal a Rheoli Heintiau, a Gweithio i Wella

Yr Athro Hayley Hutchings



Cyfarwyddwr Anweithredol

Cyfarwyddwr Anweithredol Academaidd, Hyrwyddwr Ymchwil

Ceri Jackson



Is-gadeirydd

Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant, Hyrwyddwr dros iechyd meddwl, pobl hŷn a chodi llais heb ofn

Hannah Rowan



Cyfarwyddwr Anweithredol

Cadeirydd y Pwyllgor Partneriaeth Academaidd Hyrwyddwr dros gydraddoldeb

Lee Brooks



Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau

Hyrwyddwr ar gyfer cynllunio at argyfyngau

Rachel Marsh



Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad

Prif Weithredwr Dros dro (19 Gorffennaf 2025-30 Medi 2025)
Arweinydd Gweithredol ar y Cyd ar gyfer y Pwyllgor Cyllid a Pherfformia

Chris Turley



Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol

Arweinydd Gweithredol ar y Cyd ar gyfer y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, Arweinydd Gweithredol ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Trysorydd yr Elusen Hyrwyddwr diogelwch tân

Liam Williams



Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio

Gwarcheidwad Caldicott Arweinydd Gweithredol ar y Cyd y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch Hyrwyddwr dros blant a phobl ifanc, gweithio i wella a thrais ac ymddygiad ymosodol



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust

Aelodau o'r Bwrdd 2025/26 â Phleidlais ar 31 Mawrth 2026

Andy Swinburn



**Cyfarwyddwr Gweithredol
Parafeddygaeth**

Arweinydd Gweithredol ar y
Cyd y Pwyllgor Ansawdd,
Profiad Cleifion a Diogelwch

Aelodau o'r Bwrdd 2025/26 heb Bleidlais ar 31 Mawrth 2026

Estelle Hitchon



**Cyfarwyddwr
Partneriaethau ac
Ymgysylltu**

Arweinydd Gweithredol y
Pwyllgor Partneriaeth
Academaidd a'r Pwyllgor
Elusen

Carl Kneeshaw



Cyfarwyddwr Pobl

Arweinydd Gweithredol ar y
Cyd y Pwyllgor Pobl a
Diwylliant a'r Pwyllgor Tâl
Cydnabyddiaeth

Angela Lewis



**Cyfarwyddwr Diwylliant
Newid**

Arweinydd Gweithredol ar y
Cyd y Pwyllgor Pobl a
Diwylliant;
Hyrwyddwr Cynllun
Gweithredu Gwrth-hiliol
Cymru

Trish Mills



**Cyfarwyddwr Llywodraethu
Corfforaethol/Ysgrifennydd y
Bwrdd**

Hyrwyddwr y Gymraeg

Hugh Parry



**Partner Undeb Llafur ym
Mwrdd yr
Ymddiriedolaeth**

Damon Turner



**Undeb Llafur
Partner ym Mwrdd yr
Ymddiriedolaeth**

Jonny Sammut



**Cyfarwyddwr Digidol
Gwasanaethau**

Uwch Swyddog Risg
Gwybodaeth

Aelodau'r Bwrdd a adawodd swyddi'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn			
Rhiannon Beaumont-Wood	Cyfarwyddwr Anweithredol (Tan 8 Chwefror 2024) Hyrwyddwyr dros blant a phobl ifanc	Jason Killens	Prif Swyddog Gweithredol Swyddog Cyfrifol (hyd at 18 Gorffennaf 2025)
			

Yn ogystal â'r newidiadau a adlewyrchir yn y tablau uchod, roedd trefniadau dros dro o fewn y tîm gweithredol. Ar ôl i Jason Killens adael ei rôl fel Prif Weithredwr ar 18 Gorffennaf 2025, Rachel Marsh oedd y Prif Weithredwr Dros dro o 19 Gorffennaf i 30 Medi 2025. Yn ystod y cyfnod hwn, daeth Estelle Hitchon yn Gyfarwyddwr Gweithredol Dros dro Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad. Dychwelodd Rachel Marsh ac Estelle Hitchon i'w rolau parhaol ar 1 Hydref 2025, pan ddechreuodd Emma Wood yn ei rôl fel Prif Weithredwr.

Roedd trefniadau dros dro eraill yn ystod y flwyddyn o fewn y tîm gweithredol. Roedd gan Christopher Turley, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, absenoldeb wedi'i gynllunio yn ystod y flwyddyn o 9 Medi 2025 tan 7 Ionawr 2026. Yn ystod y cyfnod hwn, penodwyd Edward Roberts (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid Dros dro) yn Gyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol Dros dro.

Diweddarwyd matrices sgiliau'r bwrdd yn 2025/256 gyda newidiadau i'r bwrdd wrth iddynt ddigwydd. Ni chafodd y newidiadau uchod unrhyw effaith andwyol ar y bwrdd nac ar wneud penderfyniadau ar y cyd.

Aelodau Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2025/26 oedd Peter Curran (Cadeirydd), Ceri Jackson, a Rhiannon Beaumont-Wood. Gadawodd Rhiannon Beaumont-Wood y bwrdd ar 8 Chwefror 2026.

Datganiadau o Fuddiant

Gellir dod o hyd i'r gofrestr buddiannau ar gyfer cyfarwyddwyr ar wefan yr Ymddiriedolaeth [Cofrestr Buddiannau Aelodau'r Bwrdd ar 31 Mawrth 2026](#). Gellir gweld y gofrestr buddiannau y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'r Ymddiriedolaeth ar [dudalen Cyhoeddiadau'r Ymddiriedolaeth](#).

Digwyddiadau sy'n Gysylltiedig â Data Personol

Rhoddir gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol sydd wedi'u hadrodd yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a "digwyddiadau anffafriol difrifol" yn ymwneud â cholli data neu dorri cyfrinachedd yn y datganiad llywodraethu blynyddol.

Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o effaith bosibl ei gweithrediad ar yr amgylchedd ac mae wedi ymrwymo i wneud y canlynol lle mae adnoddau'n caniatáu:

- sicrhau cydymffurfedd â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a Chyfarwydddebau Llywodraeth Cymru
- rhannu uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrff cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030
- gweithio mewn modd sy'n diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy sicrhau bod materion amgylcheddol hirdymor a byrdymor yn cael eu hystyried
- atal llygredd a lleihau'r effaith amgylcheddol bosibl
- cynnal ei achrediad rheoli amgylcheddol ISO 14001

Gofynion Dyrannu Costau a Chodi Tâl

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion dyrannu costau a chodi tâl a nodir yng nghanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol

Mae'n ofynnol i'r Swyddog Atebol gadarnhau, hyd y gwyddant, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol ohoni, a bod y Swyddog Atebol wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Hefyd, mae'n ofynnol i'r Swyddog Atebol gadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'u bod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ar y cyfan.

Datganiad

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol i'r Ymddiriedolaeth.

Mae cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus maen nhw'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol, yn cael eu manylu ym Memorandwm y Swyddog Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel Swyddog Atebol, gallaf gadarnhau, hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol ohoni a'm bod wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i sicrhau fy mod i a'r archwilwyr yn ymwybodol o wybodaeth archwilio berthnasol.

Cadarnhaf fod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Gallaf gadarnhau fy mod yn gyfrifol am awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'n briodol y cyfrifoldebau a nodwyd yn y llythyr sy'n fy mhenodi fel Swyddog Atebol.

Emma Wood

Prif Swyddog Gweithredol

Dyddiad: 25 Mehefin 2026

Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr ynglŷn â'r Cyfrifon

Mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr, o dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn rhoi cyfarwyddyd y dylai'r cyfrifon hyn roi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ac o incwm a gwariant yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- cymhwyso ar sail gyson egwyddorion cyfrifyddu a osodwyd gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n gyfrifol ac yn ddarbodus
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn yr adroddiadau

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod nhw wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir, sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol sefyllfa ariannol yr awdurdod ar unrhyw adeg, a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd uchod gan Weinidogion Cymru.

Drwy Orchymyn y Bwrdd

Llofnod:

Colin Dennis

Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth

Dyddiad: 25 Mehefin 2026



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust

Emma Wood

Prif Swyddog Gweithredol

Dyddiad: 25 Mehefin 2026

Christopher Turley

Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol

Dyddiad: 25 Mehefin 2026

Y Datganiad Llywodraethu

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn atebol am lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn y sefydliad. Mae Prif Weithredwr, fel Swyddog Atebol yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan yr Ymddiriedolaeth system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y sefydliad, tra hefyd yn diogelu arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon, mae'r rhain wedi'u cyflawni yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd gan Swyddog Atebol GIG Cymru.

Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn dangos sut gwnaeth yr Ymddiriedolaeth reoli adnoddau yn 2025/26 ac i ba raddau y gwnaeth gydymffurfio â'i gofynion llywodraethu ein hunain, gan gynnwys sut mae'r Ymddiriedolaeth wedi monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau hyn. Wrth wneud hynny, mae'n dwyn ynghyd yr holl ddatgeliadau sy'n ymwneud â llywodraethu, risg a rheoli.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod ar lefel uwchgyfeirio un (trefniadau arferol). Canfu Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru ar gyfer 2025 fod:

- mae gan yr Ymddiriedolaeth Fwrdd effeithiol a gefnogir gan drefniadau llywodraethu da
- mae systemau ar gyfer rhoi sicrwydd i'r bwrdd yn effeithiol ac yn cael eu cryfhau trwy ddatblygu'r fframwaith sicrwydd y bwrdd ymhellach
- mae cynllun ansawdd newydd yn cael ei weithredu
- mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i adrodd am heriau i gyflawni targedau perfformiad allweddol
- cyflwynwyd newidiadau i sut mae ymatebion ambiwlansys yn cael eu mesur yn ystod 2025, gyda mwy o ffocws ar ganlyniadau i gleifion; fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i wybod pa effaith y mae'r newidiadau'n ei chael ar ansawdd gwasanaeth
- mae gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Tymor Canolig Integredig clir a chymeradwy ac mae wedi cymeradwyo set o amcanion llesiant; mae hefyd yn cynnal adnewyddiad prydlon o'i strategaeth hirdymor
- mae gan yr Ymddiriedolaeth nifer sylweddol o raglenni newid ar y gweill, gyda chapasiti cyfyngedig i'w cefnogi - felly mae'n oedi datblygiad rhai cynlluniau corfforaethol ac yn gohirio rhai gweithgareddau a gynlluniwyd i ddiogelu capasiti ar gyfer blaenoriaethau allweddol.
- rheolodd yr Ymddiriedolaeth ei harian yn dda i gyflawni ei dyletswyddau ariannol allweddol yn ystod 2024-25

- ar nodyn cadarnhaol, mae'n lleihau ei ddibyniaeth ar gynilo anghylchol; fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu pwysau ariannol cynyddol heriol eleni sy'n creu risgiau i gyflawni ei sefyllfa adennill costau a ragwelwyd. Mae angen egluro fforddiadwyedd rhai o gynlluniau strategol yr Ymddiriedolaeth.

Fframwaith Llywodraethu'r Ymddiriedolaeth

Llywodraethu corfforaethol yw'r ffordd y mae sefydliadau'n cael eu cyfarwyddo, eu rheoli a'u harwain. Mae'n diffinio perthnasoedd a dosbarthiad hawliau a chyfrifoldebau ymhlith y rhai sy'n gweithio gyda'r sefydliad ac ynddo, yn pennu'r rheolau a'r gweithdrefnau y mae amcanion y sefydliad yn cael eu gosod drwyddynt, ac yn darparu'r modd o gyflawni'r amcanion hynny a monitro perfformiad. Yn bwysig, mae'n diffinio ble mae atebolrwydd yn gorwedd ledled y sefydliad.

Mae'r fframwaith llywodraethu corfforaethol yn integreiddio cyd-destun statudol, rheoleiddiol a gweithredol yr Ymddiriedolaeth, yn nodi rolau, cyfrifoldebau a dirprwyaethau clir, ac yn darparu sicrwydd drwy gefnogi'r Bwrdd unedol drwy oruchwyliaeth briodol gan bwyllgorau a grwpiau cynghori a rheolaethau mewnol cadarn.

Yn ganolog i'r fframwaith mae prosesau sicrwydd cadarn, gan gynnwys cynllunio integredig, rheoli perfformiad, risg ac archwilio, sy'n galluogi'r Bwrdd i ennill hyder yn y modd y cyflawnir strategaeth, ansawdd a chynaliadwyedd ariannol. Mae'r trefniadau hyn wedi'u hategu gan werthoedd clir, safonau moesegol ac ymddygiadau, sy'n adlewyrchu Egwyddorion Nolan a rhwymedigaethau'r Ymddiriedolaeth o dan y ddyletswydd ansawdd a'r ddyletswydd gonestrwydd.

Mae'r fframwaith llywodraethu yn rhoi pwyslais cryf ar dryloywder, atebolrwydd cyhoeddus ac ymgysylltu, gan sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cynnal ei busnes yn agored ac yn atebol i gleifion, staff, rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru, a bod trefniadau ar waith i gefnogi datblygiad effeithiol y Bwrdd, gan alluogi gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff llywodraethu ei arfer.

Mae rhaglen llywodraethu integredig yr Ymddiriedolaeth yn mabwysiadu dull system gyfan i sicrhau bod yr elfennau hyn yn gweithio gyda'i gilydd yn ymarferol. Mae'n cefnogi'r adolygiad parhaus a'r cryfhau o drefniadau atebolrwydd, risg a sicrwydd, a'r broses o wreiddio'r

Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad o'r llawr i'r bwrdd, gan sicrhau cysylltu rhwng dyletswyddau statudol, amcanion strategol a chyflawniad o ddydd i ddydd.

Fframwaith cyfreithiol, rheoleiddiol ac atebolrwydd

Mae'r cyd-destun statudol a rheoleiddiol yn gosod y ffiniau ffurfiol y mae'r bwrdd yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol, rheoliadau, cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru, fframweithiau GIG Cymru, a chodau perthnasol megis Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac, o 1 Ebrill 2026, Fframwaith Gweithredu ac Atebolrwydd GIG Cymru. Mae'n egluro dyletswyddau cyfreithiol y bwrdd, trefniadau atebolrwydd a gofynion sicrwydd.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymeradwyo rheolau sefydlog ar gyfer rheoleiddio ei gwaith ac, ynghyd â'r cyfarwyddiadau ariannol sefydlog a'r cynllun cadw a dirprwyo, mae'r rhain yn darparu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ymddygiad busnes yr Ymddiriedolaeth ac yn diffinio ei ffyrdd o weithio. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r rheolau sefydlog na'r cynllun cadw a dirprwyo yn ystod y cyfnod adrodd, ac eithrio cylch gorchwyl pwyllgorau'r bwrdd sydd wedi'u hatodi i'r rheolau sefydlog.

Diwygiwyd Pennod 11 o'r cyfarwyddiadau ariannol sefydlog ym mis Medi 2025 yn dilyn cyflwyno Deddf Caffael 2023 ac offerynnau israddol cysylltiedig, a Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Cyfundrefn Dewis Darparwyr) (Cymru) 2025. Diweddarwyd Pennod 11 yn unol â'r bennod fodel a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda phrosesau newydd yn cael eu gweithredu o fewn yr Ymddiriedolaeth ac ar draws Caffael Cydwasanaethau GIG Cymru.

Adroddir am ddiffyg cydymffurfio â rheolau sefydlog i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, gyda dau adroddiad yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd un yn ymwneud â chymeradwyaeth gywir dau achos tribiwnlys cyflogaeth a'r lleill yn ymwneud â chyhoeddi papurau yn unol â darpariaeth 7.4.8 o'r rheolau sefydlog.

Mae trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth wedi'u cynllunio i drosi gofynion statudol a rheoleiddiol yn arferion gweithredu o ddydd i ddydd. Mae sicrwydd a ddarperir, yn enwedig i bwyllgorau'r bwrdd ynghylch cydymffurfedd â mentrau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â dyletswyddau statudol a rheoleiddiol, wedi'i wreiddio yng nghylchoedd gorchwyl a chylchoedd busnes y pwyllgorau.

Lle bynnag y bo modd, mae rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol wedi'u codio ym mholisiau lleol yr Ymddiriedolaeth, neu ym mholisiau Cymru Gyfan sy'n caniatáu monitro ac archwilio priodol. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd wedi goruchwyllo'r rhaglen bolisi yn ystod 2025/26 ac wedi nodi nad yw uchelgais yr Ymddiriedolaeth o gyrraedd nifer sylweddol o bolisiau mewn grym yn ystod 2025/26 wedi'i chyflawni oherwydd nifer o flaenoriaethau cystadleuol. Argymhelliad Archwilio Cymru o'u Hasesiad Strwythuredig 2025 yw gwneud y broses adolygu polisi yn fwy effeithlon ac ymarferol a dyma'r ffocws ar gyfer 2026/27.

Mae Welsh Ambulance Services NHS Trust Charity (rhif cofrestru 1050084) wedi'i chofrestru fel elusen gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu fel Ymddiriedolwr Corfforaethol yr elusen. Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn gyfrifol am reolaeth, rheoli a gweinyddu ei elusen yn gyffredinol, yn ogystal â gosod ei nodau a'i hamcanion strategol. Y Pwyllgor Elusen sy'n goruchwyllo'r elusen. Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol a chyfrifon yr elusen ar gyfer 2024/25 ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#). Mae adroddiad Archwiliad Annibynnol Archwilio Cymru ar gronfeydd elusennol ar gael ym mhapurau'r Ymddiriedolwyr Corfforaethol o'i gyfarfod ar 30 Ionawr 2026, sydd ar gael [yma](#).

Rôlau, cyfrifoldebau a dirprwyaethau'r bwrdd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu drwy fwrdd unedol, gyda chefnogaeth dirprwyaethau sefydledig. Mae rheolau sefydlog yn gwreiddio'r cynllun ar gyfer cadw a dirprwyo pwerau ac, ochr yn ochr â'r cyfarwyddiadau ariannol sefydlog, yn nodi beth sydd wedi'i gadw i'r bwrdd a beth sydd wedi'i ddirprwyo, gan gynnwys cyfrifoldebau ariannol a chyfrifoldebau gwneud penderfyniadau.

Mae'r bwrdd yn atebol am lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, ac yn canolbwyntio ar y canlynol:

- **strategaeth**, gosod gweledigaeth, blaenoriaethau, nodau, adnoddau, a deall risgiau i gyflawni
- **gwreiddio ymddygiad moesegol**, llunio diwylliant sefydliadol a chynnal uniondeb, cywirdeb ac Egwyddorion Nolan
- **ansawdd**, gosod disgwyliadau ac atebolrwydd am berfformiad uchel, y Ddyletswydd Ansawdd, a'r Ddyletswydd Gonestrwydd
- **rheoli risg**, sicrhau rheolaeth risg gadarn a rheolaethau mewnol a gwelededd y prif risgiau
- **cael sicrwydd ynghylch cyflawni**, gan ddwyn i gyfrif, a bod yn atebol am gyflawni strategaeth, perfformiad, diwylliant ac ymddygiadau

Strwythur y bwrdd a phwyllgorau

Mae'r bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, chwe Chyfarwyddwr Anweithredol a chwe Chyfarwyddwr Gweithredol. Fe'i cefnogir gan bum cyfarwyddwr ychwanegol heb bleidlais a dau gynrychiolydd Partner Undebau Llafur, fel y nodir yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr uchod.


Yn ystod 2025/26, cyfarfu'r bwrdd wyth gwaith yn gyhoeddus ac wyth gwaith mewn sesiwn breifat. Adroddir ar benderfyniadau a wneir yn breifat mewn cyfarfodydd cyhoeddus dilynol o'r bwrdd, yn amodol ar ddiogelu cyfrinachedd a sensitifrwydd masnachol.

Roedd pob cyfarfod bwrdd a phwyllgor wedi'i gynnull yn briodol ac yn cwrdd â'r cworwm, ac ni chanslwyd unrhyw gyfarfodydd a drefnwyd yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd chwe chyfarfod bwrdd wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd, gyda'r cyhoedd yn gallu gwyllo cyfarfodydd yn rhithwir a chyflwyno cwestiynau ymlaen llaw. Yn y cyfarfod cyffredinol blyneddol, roedd aelodau'r cyhoedd hefyd yn gallu gofyn cwestiynau yn ystod y cyfarfod.

Hwyluswyd pwyllgorau i raddau helaeth mewn fformat hybrid, gyda rhai cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir drwy Microsoft Teams. Mae'r dull hwn yn cefnogi cylch gwaith cenedlaethol yr Ymddiriedolaeth ac yn galluogi cyfranogiad ehangach ledled Cymru. Mae aelodau'r cyhoedd yn gallu arsylwi'r cyfarfodydd hyn.

Mae manylion dyddiadau cyfarfodydd y bwrdd a'r pwyllgorau a phresenoldeb yr aelodau wedi'u cynnwys yn atodiad un ac atodiad dau. Cyhoeddir agendâu a phapurau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ar wefan yr Ymddiriedolaeth saith diwrnod calendr ymlaen llaw. Mae papurau'r pwyllgor, cofnodion a'u hadroddiadau crynhoi cynnydd AAA ar gyfer pob cyfarfod wedi'u cynnwys yn [adran y pwyllgorau](#) ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

Mae gan y bwrdd saith pwyllgor sefydlog, pob un dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Anweithredol. Mae pwyllgorau'n cefnogi'r bwrdd drwy roi cyngor, cael sicrwydd, arfer cyfrifoldebau dirprwyedig, a galluogi craffu mwy manwl nag sy'n bosibl mewn cyfarfodydd bwrdd llawn. Cefnogir pob pwyllgor gan gyfarwyddwr gweithredol neu gyfarwyddwr arweiniol, sy'n gweithio'n agos gyda Chadeirydd y pwyllgor a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol ac Ysgrifennydd y Bwrdd ar osod yr agenda, cylch cynllunio busnes, ac ansawdd a phrydlondeb gwybodaeth. Mae strwythur y bwrdd a'i bwyllgorau fel a ganlyn:



Mae unig Grŵp Cyngori'r Ymddiriedolaeth, Tîm Partneriaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WASPT), yn dwyn ynghyd uwch arweinwyr, cynrychiolwyr undebau llafur a sefydliadau proffesiynol i drafod blaenoriaethau cenedlaethol a chytuno ar ddulliau o ymdrin â materion y gweithlu a'r gwasanaeth iechyd. Mae'n darparu'r mecanwaith ffurfiol ar gyfer ymgynghori, negodi a chyfathrebu rhwng yr undebau llafur ac uwch arweinwyr yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r grŵp yn cyfarfod bob deufis a chynhaliodd chwe chyfarfod yn 2025/26, gyda phob cyfarfod yn cynnwys gweithdy anffurfiol ar faterion prydlon. Mae fforymau gweithredol a chorfforaethol yn adrodd i WASPT i alluogi mynd i'r afael â materion yn lleol, gan ganiatáu i WASPT weithredu mewn gofod mwy strategol.

Fel y nodir isod, bob blwyddyn mae'r pwyllgorau a'r grŵp cyngori yn adolygu eu heffeithiolrwydd. Prif allbynnau'r broses hon yw cylch gorchwyl diwygiedig, gwelliannau i drefniadau gweithredu ac adroddiad blynyddol pwyllgor/grŵp. Mae adroddiadau blynyddol y pwyllgorau yn rhoi digon o fanylion i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) er mwyn iddynt allu sicrhau'r bwrdd bod y pwyllgorau wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ac yn gweithredu'n effeithiol.

Mae adroddiadau blynyddol 2025/26 ar gyfer pwyllgorau - y gellir cael mynediad atynt [yma](#) - yn darparu manylion am gylch gwaith pob pwyllgor. Mae'r adroddiadau crynhoi cynnydd rhybuddio, cyngori a sicrhau (AAA) hefyd yn y ddolen honno yn nodi gwaith pob un o'r

pwyllgorau yn 2025/26, felly nid yw hyn wedi'i ddyblygu yn yr adroddiad blynyddol hwn. Gellir gweld cylch gorchwyl wedi'i ddiweddarau pob pwyllgor [yma](#).

Mae ARAC yn rhoi cyngor a sicrwydd i'r bwrdd a'r Swyddog Atebol ynghylch a oes trefniadau effeithiol ar waith trwy ddylunio a gweithredu system sicrwydd yr Ymddiriedolaeth i'w cefnogi yn eu prosesau gwneud penderfyniadau, ac wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am sicrhau cyflawniad amcanion yr Ymddiriedolaeth. Datblygir cylch busnes y pwyllgor i gyflawni'r rôl hon a chaiff unrhyw wriad o'r cylch ei uwchgyfeirio i'r cyfarfod nesaf. Yn ogystal â'i waith busnes fel arfer, sefydlodd is-grŵp ARAC yn 2025/26 i gynnal ymarfer i symleiddio strwythur y pwyllgor (gweler ymhellach isod).

Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn cyfarfod mewn sesiwn breifat. Yn ystod 2025/26, cymeradwyodd y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth benderfyniadau ail-fandio ar gyfer amrywiol rolau; derbyniodd amcanion a gwerthusiad y Prif Weithredwr; cymeradwyodd y prosesau penodi ar gyfer swyddi uwch reolwyr; cymeradwyodd gytundeb setliad a setliadau rhyddhau cynnar gwirfoddol i'w cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru; cymeradwyodd y tabl tâl cydnabyddiaeth yn yr adroddiad blynyddol; adolygodd yr agenda ar gyfer newid a dyfarniadau cyflog cenedlaethol taliadau cyflog gweithredol a chynhaliodd eu hadolygiad ansawdd a llywodraethu.

Prosesau gwneud penderfyniadau a sicrwydd

Mae fframwaith llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys y systemau a'r prosesau sy'n ofynnol ar gyfer gwneud penderfyniadau cadarn, goruchwyllo a sicrwydd, gan gynnwys cynllunio busnes blynyddol drwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a chynlluniau cyfarwyddiaethau lleol, y Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad, a pholisïau a chanllawiau gweithdrefnol ategol.

Mae awdurdod y bwrdd wedi'i gynnwys yn y rheolau sefydlog, y cyfarwyddiadau ariannol sefydlog a'r cynllun cadw a dirprwyo. Mae'r bwrdd yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr drwy'r cynllun hwnnw, ac i bwyllgorau'r bwrdd drwy eu cylch gorchwyl.

Mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Atebol, wedi sefydlu'r Tîm Arwain Gweithredol fel prif gorff gwneud penderfyniadau gweithredol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Tîm Arwain Gweithredol yn cefnogi'r Prif Weithredwr yn arweinyddiaeth a rheolaeth yr Ymddiriedolaeth o ddydd i ddydd. Mae ei gyfrifoldebau wedi'u hategu gan Femorandwm y Swyddog Atebol a meysydd Fframwaith Gweithredu ac Atebolrwydd GIG Cymru o 1 Ebrill 2026.

Fel rhan o'r rhaglen llywodraethu integredig yn 2026, bydd yr Ymddiriedolaeth yn adnewyddu'r fframwaith llywodraethu a'r strwythurau y mae dirprwyon y Tîm Arwain Gweithredol yn gweithio iddynt. Bydd hyn yn cryfhau gweithrediad sicrwydd o'r llawr i'r bwrdd, gan gefnogi gwelededd clir o berfformiad a risg i'r Swyddog Atebol a'r bwrdd.

Cofnodir penderfyniadau a chymau gweithredu yn y bwrdd, pwyllgorau a'r Tîm Arwain Gweithredol trwy gofnodion cyfarfodydd a log camau gweithredu, sy'n cael eu hadolygu a'u cymeradwyo ym mhob cyfarfod. Yn dilyn pob cyfarfod pwyllgor, paratoir adroddiad ar y prif bwyntiau AAA a'i uwchgyfeirio i'r bwrdd, gan gefnogi goruchwyliaeth glir o risgiau, materion a sicrwydd allweddol. Mae'r adroddiad hwnnw hefyd wedi'i gyhoeddi ar wefan yr Ymddiriedolaeth i hyrwyddo diffuantrwydd a thryloywder prydlon.

Mae rhagor o fanylion am waith y bwrdd yn 2025/26 ar gael ar ein gwefan [yma](#), gan gynnwys bywgraffiadau aelodau, dyddiadau cyfarfodydd, papurau, cofnodion, a recordiadau o gyfarfodydd blaenorol.

Y fframwaith risg a rheoli

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu diwylliant risg rhagorol ar lefel sefydliadol a bwrdd, sydd wedi'i wreiddio'n gadarn yn ein trefniadau llywodraethu ac wedi'i alinio â'n hamcanion strategol. Mae risgiau pennaf yn llywio agenda ein bwrdd a'n pwyllgorau ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yng nghyfarfodydd y Tîm Arwain Gweithredol a'r pwyllgorau, gan sicrhau goruchwyliaeth gadarn a gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae'r dull hwn yn galluogi adnabod risgiau'n gynnar, asesu a rheoli risgiau'n effeithiol, gan gefnogi darparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel a chydymffurfio â dyletswyddau statudol ac ariannol.

Mae ein cryfder presennol yn gorwedd yn y diwylliant risg datblygedig hwn a'r cysylltiad rhwng risgiau ag amcanion strategol. Fodd bynnag, mae angen aeddfedu ymhellach drwy ddatblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd strategol sy'n rhoi golwg gliriach i'r bwrdd ar risgiau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â phob amcan strategol, ynghyd â chryfder y sicrwydd ar reolaethau, a lliniariadau clir i lenwi bylchau a nodwyd. Bydd hyn yn galluogi'r bwrdd i ddeall yn well ble mae sicrwydd yn gryf a ble mae bylchau'n parhau.

Mae'r adran rheoli risg isod yn rhoi rhagor o fanylion.

Gwerthoedd, ymddygiadau a diwylliant

Mae'r bwrdd yn llunio diwylliant yr Ymddiriedolaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys sut mae'n ymgysylltu â staff, cleifion a rhanddeiliaid, sut mae'n rheoli ei agenda, natur a chymbwysedd trafodaethau'r bwrdd, a ble mae'n buddsoddi amser ac adnoddau. Disgwylir i aelodau'r bwrdd ddangos y safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a chywirdeb a chynnal Egwyddorion Nolan.

Mae clywed lleisiau cleifion a staff yng nghyfarfodydd y bwrdd a'r pwyllgorau yn parhau i fod yn elfen graidd o gyfarfodydd ac yn ffordd bwysig o driongli gwybodaeth i'r bwrdd. Yn dilyn pob cyfarfod, cyflwynir dilyniant ar yr hyn a ddysgwyd a/neu gamau gweithredu o brofiadau a rannwyd.

Mae'r bwrdd yn hyrwyddo diwylliant o ddiffuantrwydd a dysgu, gan sicrhau bod staff yn deall eu rôl yn y ddarpariaeth gofal effeithiol ac o ansawdd uchel, a chefnogi cydymffurfedd â'r ddyletswydd ansawdd a'r ddyletswydd gonestrwydd fel y nodir yn Neddf Iechyd a Gofal (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Mae gweithio mewn partneriaeth hefyd yn cefnogi diwylliant a llywodraethiant yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys Grŵp Ymgynghorol WASPT fel y prif fforwm partneriaeth ar gyfer ymgysylltu ag undebau llafur a sefydliadau proffesiynol.

Effeithiolrwydd a datblygu'r bwrdd

Mae'r bwrdd yn asesu effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu a threfniadau ei bwyllgorau a'i grŵp cynghori yn rheolaidd.

Ddiwedd 2025, cyflogwyd y sefydliad Good Governance Institute i gynnal adolygiad trylwyr a datblygiadol o effeithiolrwydd y bwrdd er mwyn sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i ymdopi â heriau cymhleth heddiw a'r dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys arsylwadau gan y sefydliad Good Governance Institute o gyfarfodydd y bwrdd, y pwyllgor a'r Tîm Arwain Gweithredol, cyfweiliadau ag aelodau'r bwrdd, adolygiad o ddogfennaeth ac arolwg bwrdd.

Nododd crynodeb adroddiad y sefydliad Good Governance Institute, a gyflwynir i'r bwrdd ar 30 Gorffennaf 2026, fod:

"Ein hasesiad cyffredinol yw bod bwrdd WAST yn fwrdd da, gyda'r potensial i fod yn un gwirioneddol wych. Mae tystiolaeth glir o aeddfedrwydd, proffesiynoldeb ac ymrwymiad ar y cyd i wella canlyniadau cleifion. Mae wedi'i gadeirio'n dda, yn cael ei gefnogi'n dda ac yn gweithredu gydag ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb ar y cyd, aeddfedrwydd a bwriad. Yn bwysig, mae'r sylfeini ar gyfer perfformiad uchel eisoes yn eu lle:

- *Diwylliant adeiladol a chynhwysol*
- *Cydluniant gweithredol cryf*
- *Prosesau disgybledig a mewnbynnau o ansawdd uchel yn gyffredinol*

"Nid ailgynllunio sylfaenol yw'r cyfle ar hyn o bryd, ond yn hytrach mireinio wedi'i dargedu, gan ganolbwyntio ar nifer gymharol fach o newidiadau strwythurol ac ymddygiadol a fyddai'n gwella effeithiolrwydd llywodraethu yn gyffredinol, ac yn y pen draw, ganlyniadau i gleifion."

Gellir dod o hyd i'r adroddiad llawn ym mhapurau'r bwrdd ar gyfer mis Gorffennaf 2026 sydd ar gael ar ôl y dyddiad hwnnw [yma](#), ac fel rhan o'r Rhaglen Llywodraethu Integredig yn 2026 bydd yr Ymddiriedolaeth yn dechrau gweithredu'r canfyddiadau ac yn sicrhau aliniad ac edau aur o'r llawr i'r bwrdd.

Yn ogystal ag adolygiad y bwrdd o'i drefniadau ansawdd a llywodraethu, cynhaliwyd adolygiadau cynhwysfawr ar gyfer pob pwyllgor yn ystod 2025/26. Yn gynnar yn y flwyddyn, sefydlodd ARAC is-bwyllgor i ganfod a ellid sicrhau effeithlonrwydd pellach i strwythur y pwyllgorau er mwyn galluogi fframwaith llywodraethu mwy ffocws, strategol a chymesur.

Datblygodd yr is-bwyllgor nifer o opsiynau a ystyriwyd gan ARAC, gyda'r opsiwn a ffeirir yn lleihau nifer y pwyllgorau o saith i chwech. Y dull a argymhellwyd oedd diddymu'r Pwyllgor Partneriaeth Academiaidd ac ailddosbarthu ei swyddogaethau i bwyllgorau eraill. Cytunwyd ar hyn gan y bwrdd ym mis Ionawr 2026; fodd bynnag, gohiriwyd y gweithrediad tra'n disgwyl adroddiad canlyniad y sefydliad Good Governance Institute. Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu datblygu a'u halinio â'r Rhaglen Llywodraethu Integredig yn 2026.

Fel y nodwyd uchod, cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol gan bob pwyllgor gan ARAC ar 28 Ebrill 2026 a'i gyflwyno i'r bwrdd yn eu cyfarfod ym mis Mai 2026. Nododd ARAC fod rhaglen 2025/26 yr Ymddiriedolaeth o adolygiadau ansawdd a llywodraethu ar draws pwyllgorau'r bwrdd wedi'i chwblhau a chymeradwyodd bob adroddiad blynyddol pwyllgor o 2025/26 cyn eu cyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Rhoddodd ARAC sicrwydd nad yw'r dull adolygu ansoddol, cymesur a fabwysiadwyd eleni wedi nodi unrhyw faterion newydd y mae angen eu

huwchgyfeirio y tu hwnt i'r rhai a ystyriwyd eisoes, gan roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd gweithrediad y pwyllgor a'r trefniadau llywodraethu. Cymerodd ARAC sicrwydd pellach o aliniad y gwaith hwn â rhaglen ehangach o ddatblygu llywodraethu, gan gynnwys yr adolygiad a gomisiynwyd yn allanol gan y sefydliad Good Governance Institute a dull graddol o weithredu unrhyw newidiadau dilynol; fel y cyfeiriwyd ato uchod.

Defnyddiodd ARAC becyn cymorth effeithiolrwydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyfer eu hadolygiad ansawdd a llywodraethu blynyddol, gan dynnu sylw at feysydd i'w gwella ar feysydd hanfodol ac arfer da yn y pecyn cymorth.

Parhaodd y rhaglen datblygu'r bwrdd thematig yn 2025/26 gyda ffocws ar ddysgu, myfyrio a deall. Cynlluniwyd chwe sesiwn wedi'u hamserlennu i gefnogi trafodaeth strategol, llunio diwylliant ac ymddygiadau, cryfhau gweithio mewn systemau a phartneriaethau, gwella gwybodaeth am yr amgylchedd rheoleiddio, a chaniatáu briffio manwl ar faterion cymhleth cyn cyfarfodydd ffurfiol. Mae'r sesiynau hyn hefyd yn cynnwys adborth gan gyfarwyddwyr anweithredol ar ymweliadau a gynhaliwyd. Roedd y pynciau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys cynllunio strategol, adolygu adrodd integredig ar ansawdd a pherfformiad, deall a datblygu datganiadau parodrwydd i dderbyn risg, gofal iechyd yn seiliedig ar werth, cynllun tymor canolig integredig a chynllunio ariannol, a'r dirwedd wleidyddol ehangach ar gyfer GIG Cymru.

Tryloywder, atebolrwydd ac ymgysylltu

Cyflwynodd Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros lechyd a Gofal Cymdeithasol gyfres o gyfarfodydd atebolrwydd cyhoeddus yn 2025/26 gyda'r nod o gynyddu tryloywder ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y GIG yng Nghymru. Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i Ysgrifennydd y Cabinet graffu ar berfformiad cyrff iechyd a mynd i'r afael â materion arwyddocaol gan gynnwys perfformiad ac ansawdd gofal. Cynhaliwyd cyfarfod atebolrwydd cyhoeddus yr Ymddiriedolaeth ar 5 Mawrth 2026. Mae'r cyflwyniad tystiolaeth ar gael [yma](#) a gellir gwyllo recordiad y cyfarfod [yma](#).

Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet y proffesiynoldeb, y didwylledd a'r difrifoldeb y mae'r bwrdd a'r tîm gweithredol yn ymdrin â rhaglen drawsnewid heriol yr Ymddiriedolaeth. Cydnabu'r drafodaeth y pwysau parhaus ar draws y system iechyd a gofal ehangach a chadarnhaodd, er gwaethaf gweithredu ar raddfa fawr mewn amgylchedd cyfyngedig iawn, fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn sefydlog yn sefydliadol, yn ddisgybledig yn ariannol ac yn hyderus yn ei threfniadau llywodraethu. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet gynnydd wrth weithredu fframwaith perfformiad ambiwlansys newydd a'r model

clinigol, gyda gwelliannau cynnar yn amlwg mewn meysydd fel trosglwyddo cleifion ac asesiad clinigol, gan gydnabod hefyd fod canlyniadau'n parhau i fod yn fregus ac yn anwastad, yn enwedig i gleifion â lefel is o aciwtedd a'r rhai sy'n profi arosiadau hir.

Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd caniatáu amser i'r newidiadau a weithredwyd yn ddiweddar wreiddio a chael eu gwerthuso'n briodol, gan bwysleisio'r angen am effaith amlwg, dysgu a chywiro cwrs lle bo angen, yn enwedig mewn perthynas â phrofiad cleifion ac amseroedd aros. Roedd y cyfarfod hefyd yn adlewyrchu rôl gynyddol yr Ymddiriedolaeth fel partner system genedlaethol dan arweiniad clinigol, gan ddefnyddio data, mewnwelediad a dylanwad i gefnogi mwy o gysondeb ac integreiddio ar draws gofal brys a gofal mewn argyfwng yng Nghymru. Wrth gloi, amlygodd Ysgrifennydd y Cabinet gyfle unigryw'r Ymddiriedolaeth i arwain y system fel sefydliad cenedlaethol ac ailddatganodd ddisgwyliadau y bydd y ddarpariaeth yn y dyfodol yn canolbwyntio ar gydgrynhoi newid, cryfhau gweithio mewn partneriaeth a pharhau i wella canlyniadau i bobl ledled Cymru.

Yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyniadau i Gyfarfodydd) 1960, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gyfarfod yn gyhoeddus ac fe wnaeth hynny ar gyfer pob cyfarfod bwrdd cyhoeddus yn 2025/26. Gall aelodau'r cyhoedd gwyllo cyfarfodydd cyhoeddus a chyflwyno cwestiynau ymlaen llaw.

Er mwyn cefnogi didwylledd a hygyrchedd, parhaodd y rhan fwyaf o bwyllgorau i weithredu mewn fformat hybrid, gyda rhai cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir drwy Microsoft Teams. Cyhoeddir agendâu a phapurau ar gyfer sesiynau cyhoeddus saith diwrnod calendr cyn cyfarfodydd. Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ei Chyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2025 drwy Teams ar 31 Gorffennaf 2025, a chafodd y cyfarfod ei ffrydio'n fyw. Mae'r recordiad ar gael i'w wyllo [yma](#).

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn derbyn sicrwydd a chyd-destun drwy ymgysylltu â threfniadau llywodraethu perthnasol Cymru Gyfan. Mae Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru yn gyfrifol am gynllunio a chomisiynu gwasanaethau ambiwlans brys, gan gynnwys GIG 111 Cymru, ar sail Cymru gyfan. Mae rhagor o wybodaeth am hyn wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad uchod.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn aelod o Bwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a gynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre, sy'n goruchwyllo swyddogaethau a rennir ar draws GIG Cymru megis caffael, recriwtio a gwasanaethau cyfreithiol.

Diben y system rheolaeth fewnol

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol, yn hytrach na dileu pob risg; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei roi.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni'r polisïau, nodau ac amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu, yr effaith pe baent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol a darbodus.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn parhau yn ei lle ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Y gallu i ymdrin â risg

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod wedi ymrwymo i reoli risg yn weithredol ac yn gymesur fel elfen sylfaenol o lywodraethu effeithiol, darparu gwasanaethau diogel a chyflawni ei hamcanion strategol. Mae rheoli risg yn cefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus ar bob lefel ac yn rhoi eglurder ar y risgiau a fyddai'n ein hatal rhag cyflawni uchelgais strategol yr Ymddiriedolaeth. Mae'n galluogi'r Bwrdd i herio'n briodol a yw risgiau'n cael eu rheoli, eu trin a'u huwchgyfeirio; fodd bynnag, mae newidiadau pellach yn cael eu gweithredu i wella hyn drwy gyflwyno dangosfyrddau penodol i'r Bwrdd a chymhwyso goddefgarwch a pharodrwydd i dderbyn risg yn ystod 2026/27.

Fframwaith Rheoli Risg a llywodraethu

Mae'r bwrdd yn atebol am lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae gan y Prif Weithredwr, fel y Swyddog Atebol, gyfrifoldeb am sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol ar waith sy'n cefnogi cyflawniad amcanion yr Ymddiriedolaeth, gan ddiogelu arian ac asedau cyhoeddus. Mae cyfarwyddwyr gweithredol yn gyfrifol am nodi, bod yn gyfrifol am, a rheoli risgiau o fewn eu portffolios, wedi'u cefnogi gan drefniadau clir ar gyfer uwchgyfeirio, sicrwydd a goruchwyliaeth y Bwrdd.

Mae Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd yn arwain y gwaith o ddylunio, gweithredu a datblygu fframwaith rheoli risg yr Ymddiriedolaeth yn barhaus.

Mae ARAC yn darparu goruchwyliaeth bwrpasol ar ran y bwrdd, gan gynnwys craffu ar y rhaglen rheoli risg a datblygu a chymhwyso datganiadau parodrwydd i dderbyn risg. Mae'r bwrdd a'i bwyllgorau wedi derbyn adroddiadau risg rheolaidd yn 2025/26, gan gynnwys y diweddaraf ar y prif risgiau a'r risgiau sy'n dod i'r amlwg, newidiadau mewn amlygiad i risg ac ystyriaeth o gamau lliniaru. Mae pwyllgorau'n adrodd ar ddadl a thrafodaeth ar risg yn eu hadroddiadau crynhoi cynnydd AAA.

Rheolir risgiau lleol, cyfarwyddiaethol a chorfforaethol yr Ymddiriedolaeth gan ddefnyddio cyfuniad o RL Datix a dogfennau lleol. Nododd ein harchwiliad mewnol rheoli risg 2024/25 fod cysondeb o ran dull yn hanfodol ar gyfer rheoli risg da ac uwchgyfeirio priodol ond cydnabu hefyd fod llywodraethu cadarn ar waith i reoli'r risgiau hyn yn absenoldeb datrysiad digidol ymarferol.

Yn 2025/26 dechreuwyd gwaith ar ddatblygu system rheoli risg menter fewnol. Mae hyn yn cael ei gynllunio i ddarparu system gadarn, ddibynadwy a hyblyg i reoli risgiau lleol, cyfarwyddiaethol a chorfforaethol ar gyfer pob cyfarwyddiaeth yn yr Ymddiriedolaeth, ond hefyd i sicrhau bod ein fframwaith sicrwydd bwrdd strategol wedi'i ddigideiddio a'i fod yn gallu tynnu gwybodaeth yn effeithiol o'r risgiau corfforaethol sydd â sgôr uwch i lywio risgiau yn erbyn amcanion strategol. Ochr yn ochr â hynny, mae hyfforddiant ac addysg ar y system newydd yn cael ei ddatblygu.

Mae'r fframwaith sicrwydd y bwrdd cyfredol yn parhau i nodi prif risgiau'r Ymddiriedolaeth. Mae pob un wedi'i fapio i gyflawniadau'r cynllun tymor canolig integredig yn erbyn amcanion strategol. Yr allwedd i'r cam nesaf o aeddfedrwydd mewn rheoli risg yw'r newid o fframwaith sicrwydd y bwrdd sy'n cysylltu prif risgiau yn bennaf â chyflawni amcanion strategol, i fframwaith sicrwydd y bwrdd strategol sydd wedi'i wreiddio'n llawn ac yn cefnogi goruchwyliaeth a gwneud penderfyniadau tymor hwy gan y bwrdd. Mae gwaith paratoi ar y gweill, gyda thempledi y cytunwyd arnynt ar waith a'r cyntaf o chwe risg strategol yn cael eu datblygu. Yn bwysig, mae ffocws cynyddol y bwrdd ar y cyflawniadau strategol o fewn y cynllun tymor canolig integredig, a'r mesurau canlyniadau cysylltiedig ar gyfer pob amcan strategol, bellach yn darparu sylfaen gryfach y gellir bwrw ymlaen â'r gwaith hwn mewn ffordd fesuradwy a chymesur.

Darparodd archwiliad mewnol 2025/26 ar reoli risg sicrwydd rhesymol ac mae'n nodi, er gwaethaf yr angen am aliniad cryfach ag amcanion strategol, fod fframwaith sicrwydd y bwrdd yn darparu sylw da i brif risgiau'r Ymddiriedolaeth ac yn adlewyrchu adolygiad rheolaidd o reolaethau a bylchau mewn sicrwydd. Argymhellodd yr adolygiad roi mwy o sylw er mwyn sicrhau bod camau gweithredu a gwblhawyd yn cael eu trosi'n reolaethau i liniaru risgiau.

Nododd Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2025 y bydd cynlluniau'r Ymddiriedolaeth i ddechrau diweddarau'r strategaeth hirdymor yn 2026/27 yn cynnig cyfle i'w groesawu i alinio fframwaith sicrwydd y bwrdd strategol â datblygiad amcanion strategol newydd eu llunio.

At ei gilydd, er bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu mewn amgylchedd heriol iawn ac agored i risg, mae'n fodlon bod ei gallu i nodi, rheoli ac ymateb i risg yn parhau i fod yn briodol a bod y system rheolaeth fewnol yn darparu sicrwydd rhesymol i gefnogi llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol.

Proffil Risg

Mae proffil risg yr Ymddiriedolaeth yn parhau i adlewyrchu pwysau parhaus ar draws y system, yn enwedig mewn perthynas â pherfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng, llif cleifion, capasiti a llesiant y gweithlu, gwydnwch seiber a digidol, parodrwydd ar gyfer argyfyngau a chydymffurfedd statudol. Mae'r risgiau hyn yn destun craffu manylach, adolygiad rheolaidd a chynllunio gweithredu, ac yn nodi lle mae lliniaru yn ddibynnol ar gamau gweithredu gan bartneriaid system.

Nodir manylion pellach am brif risgiau'r Ymddiriedolaeth isod, fodd bynnag, mae sylw'r bwrdd a sylw'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch wedi bod ar risgiau 223 (Anallu'r Ymddiriedolaeth i gyrraedd cleifion yn y gymuned gan achosi niwed i gleifion a marwolaeth) a 224 (Mae oedi sylweddol wrth drosglwyddo gofal y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys yn effeithio ar oedi mynediad at ofal pendant ac yn effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion). Er bod risg 223 wedi gweld gostyngiad o sgôr o 25 i 20 yn 2025 oherwydd llai o oedi wrth drosglwyddo, mae amrywiad o hyd yn genedlaethol ac mae'r bwrdd wedi cytuno bod angen cyfnod parhaus o ostyngiad i gynnal y sgôr is.

Mae'r bwrdd yn derbyn adroddiad ym mhob cyfarfod ar y camau y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i liniaru niwed y gellir ei osgoi i gleifion. Mae hyn yn caniatáu i'r bwrdd

ganolbwyntio ar fesurau lliniaru o fewn gallu'r Ymddiriedolaeth a'r hyn sy'n cael ei reoli a dylanwadu o safbwynt system.

Mae risgiau â sgôr uwch yn ymwneud â seiberddiogelwch (risg 260) a gallu'r Ymddiriedolaeth i weithredu gwersi o Ymchwiliad Arena Manceinion (risg 641). Mae'r ddau yn parhau ar sgôr o 20 ac nid ydynt wedi gostwng yn ystod 2025/26. O ran seiberddiogelwch, mae'r bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn craffu ar y camau gweithredu i leihau'r risg hon, gan gydnabod bod yr amgylchedd geo-wleidyddol presennol yn eithaf anwadal. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gweithredu'r argymhellion y mae'n gallu eu gwneud, mae angen cyllid sylweddol ar y rhan fwyaf o'r argymhellion o ganlyniad i Ymchwiliad Arena Manceinion, a dyna pam ei bod yn parhau ar y sgôr hon. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gallu ariannu rhai argymhellion yn 2026/27 ac mae'n parhau i drafod â Chomisiynwyr ar weithredu'r argymhellion sy'n weddill.

Mae cipolwg ar y risgiau, eu hamcanion strategol cysylltiedig a'u harchwaeth am risg wedi'u nodi ar y dudalen nesaf, fodd bynnag gellir gweld Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd llawn yn y papurau o gyfarfod ARAC ar 2 Mawrth 2026 sydd ar gael [yma](#) (trwy gael mynediad at bapurau 2 Mawrth, yn benodol y dolenni adran adnoddau).

Mae gweddill y dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Yr Amcan Strategol	Parodrwydd i Dderbyn Risg	Rhif Adnabod Risg	Teitl Risg	Chwarter 1	Ch2	C3	Chwarter 4
1	Agored	223	Anallu'r Ymddiriedolaeth i gyrraedd cleifion yn y gymuned gan achosi niwed a marwolaeth i gleifion.	25	25	20	20
1	Agored	224	Mae oedi sylweddol wrth drosglwyddo y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys yn effeithio ar oedi wrth fanteisio ar ofal diffiniol ac mae'n effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol	25	25	25	25
3	Awyddus	260	Ymosodiad seiber sylweddol a pharhaus ar WAST, GIG Cymru a rhwydweithiau rhyngddibynnol gan arwain at wadu gwasanaeth a cholli systemau critigol	20	20	20	20
1	Agored	641	Anallu'r Ymddiriedolaeth i weithredu'r hyn a ddysgwyd o holl argymhellion perthnasol Ymchwiliad Arena Manceinion sy'n effeithio ar ei hymateb i ddigwyddiad mawr/digwyddiad anafiadau torfol	20	20	20	20
2	Agored	160	Cyfraddau absenoldeb uchel yn effeithio ar ddiogelwch cleifion, lles staff a gallu'r ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol	16	16	16	16
2	Agored	558	Dirywiad yn iechyd a lles staff o ganlyniad i bwysau mewnol ac allanol ar y system	15	15	15	15
3	Awyddus	671	Defnydd heb awdurdod neu amhriodol o dechnolegau deallusrwydd artifisial		16	16	16
6b	Agored	542	Methiant i gyflawni Cynllun Strategol ar Ddatgarboneiddio GIG Cymru Llywodraeth Cymru	16	16	16	16
5	Agored	201a	Perthnasoedd â Rhanddeiliaid			16	16
4	Agored	201b	Profiad gwael i gleifion yn effeithio ar enw da			16	16
5	Agored	623	Methiant i gydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data	15	15	10	
1	Agored	620	Gwirwyr Symptomau	20	15	15	15
1	Agored	594	Anallu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu ymateb sifil wrth gefn os bydd digwyddiad mawr a chynnal parhad busnes sy'n achosi niwed a marwolaeth i gleifion	15	15	15	15
2	Agored	163	Cynnal partneriaethau Undebau Llafur effeithiol a chryf	12	12	12	12
4	Agored	100	Methiant i berswadio'r Cyd-bwyllgor Comisiynu/Byrddau Iechyd ynghylch uchelgeisiau WAST a dod i gytundeb ar gamau gweithredu i sicrhau lefelau priodol o ddiogelwch a phrofiad cleifion	12	12	12	12
6a	Pwyllog	139	Methu â Chyflawni ein Dyletswyddau Ariannol Statudol yn unol â deddfwriaeth	8	8	8	8
5	Agored	201	Niwed i enw da'r Ymddiriedolaeth yn dilyn colli hyder rhanddeiliaid. Noder: mae'r risg hon wedi'i chau a datblygwyd dau risg newydd (201a a 201b uchod)	20	20		
	Targed risg wedi'i gyflawni						
	Risg wedi'i chau o bob cofrestr						
	Risg ddim yn bodoli						

Parodrwydd i Dderbyn Risg a goddefgarwch

Yn ystod 2025/26 dechreuodd yr Ymddiriedolaeth wreiddio ei fframwaith parodrwydd i dderbyn risg, gan adeiladu ar y gyfres o ddatganiadau parodrwydd i dderbyn risg a gytunwyd gan y bwrdd ac a oruchwyliwyd gan ARAC. Mae'r datganiadau'n mynegi lefel y risg y mae'r Ymddiriedolaeth yn fodlon ei derbyn wrth fynd ar drywydd pob amcan strategol ac yn rhoi eglurder ynghylch ble mae amlygiad y tu hwnt i'r goddefgarwch ac sydd angen camau gweithredu, lliniaru neu uwchgyfeirio ymhellach.

Cafodd y parodrwydd i dderbyn risg ei lywio gan ddadansoddiad o brif risgiau'r Ymddiriedolaeth, adroddiadau risg y bwrdd a'r pwyllgorau, gwybodaeth am berfformiad ac ansawdd, canfyddiadau archwilio mewnol a'r amgylchedd gweithredu allanol. Arweiniodd y pwyllgor ARAC graffu manwl ar ddatganiadau parodrwydd i dderbyn risg drafft cyn eu cymeradwyo gan y bwrdd, gan sicrhau bod y parodrwydd i dderbyn risg yn adlewyrchu cyfrifoldebau statudol, blaenoriaethau diogelwch cleifion a gallu'r Ymddiriedolaeth i liniaru risg o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Mae datganiadau parodrwydd i dderbyn risg yr Ymddiriedolaeth i'w gweld [yma](#). Mae parodrwydd i dderbyn risg yn cael ei rhoi ar waith i lywio gwneud penderfyniadau yn y dyfodol, blaenoriaethu, ac asesiad y bwrdd ynghylch a yw amlygiad risg yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn dderbyniol yng nghyd-destun ansawdd, diogelwch cleifion, adnoddau sydd ar gael, disgwyliadau cyflawni a chyfyngiadau system.

Adnabod, uwchgyfeirio a rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg

Caiff risgiau eu nodi a'u hadolygu drwy broses barhaus sydd wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad. Mae ffynonellau'n cynnwys adroddiadau gweithredol a pherfformiad, monitro ansawdd a diogelwch, archwilio mewnol ac allanol, adrodd ar ddigwyddiadau, digwyddiadau niweidiol difrifol, dangosyddion gweithlu, ac ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid.

Caiff risgiau newydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg eu hasesu gan ddefnyddio methodoleg asesu risg yr Ymddiriedolaeth a'u huwchgyfeirio trwy lwybrau llywodraethu sefydledig, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cyfarwyddiaethau, y Tîm Arwain Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, gan eu huwchgyfeirio i'r bwrdd a phwyllgorau lle bo'n briodol. Mae risgiau newydd sylweddol yn cael eu cofnodi ar y gofrestr risg gorfforaethol a'u gwreiddio yn fframwaith sicrwydd y bwrdd gyda rheolaethau, camau lliniaru a ffynonellau sicrwydd wedi'u diffinio'n glir.

Yn ystod 2025/26, nodwyd a chynyddwyd nifer o risgiau newydd a risgiau oedd yn esblygu o'r newydd drwy drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, gan gynnwys pwysau parhaus ar y system ar draws llwybrau gofal brys a gofal mewn argyfwng, bygythiadau seiberddiogelwch cynyddol a risgiau sy'n ymwneud â chynnal capasiti a llesiant y gweithlu. Aseswyd y risgiau hyn, cofnodwyd nhw ar fframwaith sicrwydd y bwrdd, ac roedden nhw'n destun camau lliniaru wedi'u targedu a goruchwyliaeth well gan y bwrdd.

Gallu, diwylliant a hyfforddiant

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod rheoli risg effeithiol yn dibynnu ar allu sefydliadol, eglurder rolau a diwylliant risg cadarnhaol. Cynhelir rheoli risg ar bob lefel o'r sefydliad a chefnogir cydweithwyr trwy sesiynau rheoli risg pwrpasol ar gyfer timau a rhaglenni ymsefydlu, yn ogystal â hyfforddiant rheoli risg sylfaenol sy'n eu galluogi i nodi, rheoli ac uwchgyfeirio risgiau yn unol â'u cyfrifoldebau.

Gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae llawer o risgiau mwyaf arwyddocaol yr Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar waith partneriaeth effeithiol y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n agos gyda phartneriaid system, gan gynnwys byrddau iechyd, cyrff GIG Cymru a rhanddeiliaid eraill, i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o risg, lliniaru cydgysylltiedig ac alinio camau gweithredu lle mae risgiau'n effeithio ar ddiogelwch cleifion, mynediad a chynaliadwyedd gwasanaethau. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn 2025/26 pan fynychodd swyddogion risg o'r Cyd-bwyllgor Comisiynu ein Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch i arsylwi'r drafodaeth a'r ddadl ar ein risgiau diogelwch cleifion uchaf, a adlewyrchir yn eu cofrestr risg.

Mae adborth gan gleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid yn llywio risgiau'r Ymddiriedolaeth a datblygiad camau lliniaru, ochr yn ochr â gwybodaeth o lywodraethu ansawdd, cwynion, pryderon ac adrodd ar ddigwyddiadau.

Gwelliant parhaus

Mae trefniadau rheoli risg yn parhau i esblygu fel rhan o fframwaith llywodraethu a sicrwydd ehangach yr Ymddiriedolaeth dan oruchwyliaeth y pwyllgor ARAC. Defnyddir dysgu o archwilio

mewnol, adolygiad allanol, craffu gan y bwrdd a phwyllgorau i gryfhau prosesau rheoli risg, gwella eglurder adrodd a gwella gallu'r bwrdd i ganolbwyntio ar y bygythiadau mwyaf arwyddocaol i gyflawni amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth.

Mae blaenoriaethau ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cyflwyno fframwaith strategol y bwrdd ar draws yr holl amcanion strategol a'u hadroddiadau i'r bwrdd a'r pwyllgorau yn unol ag adrodd ar gyflawni strategol sy'n esblygu. Bydd datblygu, profi a chyflwyno'r system rheoli risg menter fewnol yn cael ei symud ymlaen yn 2026/27 hefyd.

Parodrwydd am argyfwng a gweithrediadau arbenigol

Fel sefydliad GIG Categori Un o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004, mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau drwy gydol 2025/26 i gyflawni ei dyletswyddau statudol ar gyfer parodrwydd ar gyfer argyfyngau, gwydnwch, ymateb a pharhad busnes. Mae'r trefniadau'n parhau i fod yn gyson â Chanllawiau Craidd Cynllunio at Argyfyngau GIG Cymru a disgwyliadau Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn barod i ymateb i ac adfer ar ôl ystod eang o ddigwyddiadau aflonyddgar ac argyfwng. Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei Hadroddiad Cynllunio at Argyfyngau blynyddol 2024/25 i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2025, gan nodi'r risgiau a nodir uchod a newid yn ei safbwynt sicrwydd a oedd yn dangos mai dim ond yn rhannol y cyflawnwyd rhai egwyddorion Deddf Argyfyngau Sifil 2004 yn hytrach na'u cyflawni'n llawn, gan adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o Ymchwiliad Arena Manceinion.

Yn ystod 2025/26, mae'r swyddogaeth Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb i Argyfwng wedi canolbwyntio ar gydgrynhoi a gwreiddio gwelliannau sy'n deillio o ddysgu cenedlaethol a gweithgaredd sicrwydd mewnol. Mae cynnydd wedi parhau mewn perthynas ag argymhellion Ymchwiliad Arena Manceinion, gydag ymgysylltiad parhaus ar draws GIG Cymru, Llywodraeth Cymru a phartneriaid y Fforwm Gwydnwch Lleol.

Mae argymhellion sy'n gofyn am gyllid cynaliadwy a chyflawniad tymor hwy yn parhau i gael eu rheoli drwy fframwaith risg corfforaethol yr Ymddiriedolaeth i sicrhau goruchwyliaeth, sicrwydd ac atebolrwydd gweithredol priodol. Cyflwynwyd achos busnes ar gyfer cynyddu capasiti'r Tîm Ymateb i Ardaloedd Peryglus (HART) yn Ne Cymru i Lywodraeth Cymru yn chwarter 4, gyda'r uchelgais i gyflwyno achos busnes llawn ar gyfer tîm HART yn y Gogledd yn 2026/27.

Mae cryfhau rheoli parhad busnes wedi parhau i fod yn flaenoriaeth drwy gydol 2025/26. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i wreiddio dull cyson, ar draws y sefydliad, o gynllunio ac adrodd

ar barhad busnes, wedi'i gefnogi gan weithredu a defnyddio meddalwedd parhad busnes pwrpasol. Mae hyn wedi gwella ansawdd, gwelededd a sicrwydd dadansoddiadau effaith busnes a chynlluniau parhad ar draws gwasanaethau, gan gefnogi'r uchelgais o uwchgyfeirio cliriach, gwell sicrwydd a mwy o wydnwch sefydliadol.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i amrywiaeth o ddigwyddiadau sylweddol a phwysau ar systemau, sydd wedi rhoi cyfleoedd i brofi ymateb brys, trefniadau gorchymyn a rheoli, gallu i ryngweithredu a gwydnwch sefydliadol. Mae'r digwyddiadau hyn wedi atgyfnerthu pwysigrwydd parodrwydd, hyfforddiant a gwaith amlasiantaeth cryf, ac wedi llywio gweithgaredd dysgu a gwella sefydliadol o fewn swyddogaeth parodrwydd, gwydnwch ac ymateb brys.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ymgysylltu'n llawn â phartneriaid Fforwm Gwydnwch Lleol ledled Cymru, gan gyfrannu at grwpiau cynllunio gweithredol, rhaglenni hyfforddi ac ymarferion amlasiantaeth. Mae cydweithio parhaus â Llywodraeth Cymru a phartneriaid gwydnwch wedi cefnogi adolygiad Fframwaith Gwydnwch Cymru, a fydd yn cael ei ddadansoddi a'i ddefnyddio i greu pecynnau hyfforddi ac ymarfer yn 2026/27.

Mae gallu gweithredol arbenigol wedi'i gynnal drwy gydol 2025/26, gan gynnwys darpariaeth y Tîm HART a Thîm Ymateb Gweithredol Arbenigol (SORT). Mae buddsoddi mewn galluoedd arbenigol wedi parhau i wella gallu'r Ymddiriedolaeth i ymateb i ddigwyddiadau cymhleth, risg uchel, gan gynnwys deunyddiau peryglus, trawma mawr, achub o ddŵr a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth, gan sicrhau bod parodrwydd yn parhau i fod yn gydnaws â risg genedlaethol a rhanbarthol. Ar hyn o bryd mae 230 o staff wedi'u hyfforddi mewn SORT ar draws WAST, gyda chynlluniau cadarn i gyrraedd 290 yn 2026/27.

Ym mis Rhagfyr 2025, darparodd yr Ymddiriedolaeth dystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, gan ganolbwyntio ar baratoadau presennol Llywodraeth Cymru, strwythurau ymateb, a chynnydd ers pandemig COVID-19 i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd gan y Pwyllgor Diben Arbennig COVID-19 (a ddiddymwyd ar 08 Hydref 2025). Mae hyn yn cynnwys ei ymateb i adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad i COVID-19 y DU, gweithredu argymhellion Modiwl 1, a rôl Llywodraeth Cymru yn Ymarfer Pegasus, ymarfer parodrwydd ar gyfer pandemig haen un. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ym mis Mawrth 2026.

Wrth edrych ymlaen, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bydd y dirwedd gwydnwch genedlaethol sy'n esblygu, y pwysau cynyddol ar y system, a gweithredu'r argymhellion sy'n

weddill o Ymchwiliad Arena Manceinion yn parhau i roi pwysau ar gapasiti a gallu parodrwydd, gwydnwch ac ymateb brys. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, partneriaid golau glas, Fforymau Gwydnwch Lleol a chydweithwyr y GIG ledled Cymru a'r DU i sicrhau bod trefniadau parodrwydd ar gyfer argyfyngau yn parhau i fod yn effeithiol, yn gymesur ac yn wydn, a bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn barod i ymateb i unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiad sy'n effeithio ar y boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu.

Y fframwaith rheoli

Llywodraethu ariannol

Mae'r fframwaith llywodraethu ariannol o fewn yr Ymddiriedolaeth yn darparu system strwythuredig lle mae atebolrwydd ariannol, stiwardiaeth a gwneud penderfyniadau yn cael eu harfer i gefnogi amcanion a dyletswyddau statudol yr Ymddiriedolaeth. Mae wedi'i ategu gan gyfarwyddiadau ariannol sefydlog, y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r trefniadau atebolrwydd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae llywodraethu ariannol wedi'i wreiddio trwy rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir, gyda'r bwrdd yn cadw atebolrwydd cyffredinol am gynaliadwyedd a rheolaeth ariannol, a chefnogaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Ariannol a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Mae'r fframwaith hwn yn sicrhau bod cynllunio ariannol, cyllidebu, monitro ac adrodd yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol a bod y defnydd o arian cyhoeddus yn gyfreithlon, yn effeithiol ac yn cynrychioli gwerth am arian.

Yn weithredol, mae'r fframwaith yn cael ei gyflawni drwy brosesau rheoli ariannol cadarn, gan gynnwys rheolaeth gyllidebol, adrodd ar berfformiad ariannol, cymeradwyo cyfalaf a buddsoddiadau, rheoli caffael a chontractau, a chynnal rheolaethau mewnol cryf. Mae adrodd rheolaidd yn darparu tryloywder ar berfformiad yn erbyn y cynllun, cyflawni arbedion ac effeithlonrwydd drwy'r rhaglen cynaliadwyedd ariannol, a risgiau ariannol sy'n dod i'r amlwg, gan alluogi craffu ac uwchgyfeirio prydlon lle bo angen.

Am sawl blwyddyn yn olynol, mae'r fframwaith llywodraethu ariannol wedi dangos cadernid, gan gefnogi cyflawni sefyllfa o adennill costau a hanes da o ran cyflawni arbedion, fel y nodwyd yn Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2025, a nododd:

Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli ei gyllid yn dda i gyflawni ei dyletswyddau ariannol allweddol yn ystod 2024-25. Yn gadarnhaol, mae'n lleihau ei dibyniaeth ar arbedion afreolaidd. Ac eto, mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu

pwysau ariannol cynyddol heriol eleni sy'n creu risgiau i sicrhau ei sefyllfa ragweledig o adennill costau. Fodd bynnag, mae angen egluro fforddiadwyedd rhai o gynlluniau strategol yr Ymddiriedolaeth.

Caiff sicrwydd ei atgyfnerthu drwy archwiliadau mewnol ac allanol, cydymffurfio â'r dyletswyddau ariannol a osodir ar gyrff y GIG yng Nghymru, ac integreiddio â threfniadau ehangach yr Ymddiriedolaeth ar gyfer risg a sicrwydd.

Ansawdd, diogelwch a llywodraethu clinigol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ganolbwyntio ar gynnal a datblygu diwylliant o wella ansawdd ar draws yr Ymddiriedolaeth gydag adrodd rheolaidd ar lywodraethu ansawdd yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch (QUEST). Roedd hyn yn cynnwys cyflawni Cynllun Ansawdd Strategol ar gyfer 2025-2028. Cefnogir y cynllun gan gynllun gweithredu manwl, sy'n cyd-fynd ag Argymhellion blaenorol Archwilio Cymru.

Mae QUEST wedi codi pryderon ynghylch risgiau cyflawni sy'n deillio o ohirio gweithgaredd i gamau diweddarach y cynllun, o ystyried y pwysau parhaus ar allu a chapasiti yn dilyn newidiadau sylweddol i'r model clinigol. Bydd QUEST yn parhau i fonitro adolygiad y cynllun yn 2026/27.

Yn ystod 2025/26, roedd ffocws sylweddol ar lywodraethu ansawdd ar sefydlu trefniadau llywodraethu cadarn i gefnogi'r gwaith o adfer cydymffurfedd statudol o dan Weithio i Wella. Fel y gwelir yn yr adroddiad perfformiad uchod, roedd perfformiad islaw lle dylai fod wedi bod ac roedd yn fater a gafodd ei uwchgyfeirio i'r bwrdd gan QUEST ar sawl achlysur yn 2025/26. O ganlyniad, sefydlwyd bwrdd rhaglen traws-gyfarwyddiaeth yn ffurfiol i ddarparu goruchwyliaeth strwythuredig, rheoli risg a sicrwydd. Roedd y goruchwyliaeth lywodraethol gynyddol yn caniatáu gwell gwelededd a thryloywder o ran heriau prosesau a phwysigrwydd data a deallusrwydd cysylltiedig i gefnogi rheoli a gwella ansawdd. Mae'r bwrdd rhaglen hwn wedi'i ehangu i roi sicrwydd a goruchwyliaeth o ddull yr Ymddiriedolaeth o weithredu'r Rheoliadau Gwrandd ar Bobl newydd o 1 Ebrill 2026.

Ym mis Medi 2024, cwblhaodd Archwilio Cymru adolygiad dilynol o'r archwiliad Llywodraethu Ansawdd a gynhaliwyd yn 2022. Roedd hyn yn cynnwys nifer o argymhellion a wnaed yn archwiliad 2022 sy'n parhau i fod ar y gweill, ac argymhellion ychwanegol ar gyfer gwella. Cwblhawyd yr holl gamau gweithredu a nodwyd i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn yn 2025/26.

Mae'r Grŵp Rheoli Ansawdd wedi parhau i feithrin cysylltiadau i gefnogi dull sefydliadol o wella ansawdd ac ategu System Rheoli Ansawdd yr Ymddiriedolaeth. Mae llwyfannau gwybodaeth yn y maes hwn wedi parhau i ddatblygu ac yn caniatáu inni nodi meysydd i'w gwella mewn mannau rheoli ansawdd a sicrhau ansawdd gan gydweithio i rannu gwybodaeth a monitro gwelliant. Diben y fforwm yw gwella gweithio traws-sefydliadol a darparu cyngor ar gyfer fforymau strategol, trwy gynllunio a chyfeirio at faterion ansawdd, a thrwy fframweithiau llywodraethu sicrwydd. Mae'r Grŵp Rheoli Ansawdd Clinigol yn adrodd i'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd Clinigol, sef y prif fforwm llywodraethu clinigol ac ansawdd yn yr Ymddiriedolaeth sy'n adrodd i'r Tîm Arwain Gweithredol. Mae cwblhau hunanasesiadau sicrwydd ansawdd a datblygu datganiadau ansawdd ar gyfer holl adrannau'r sefydliad wedi bod yn ffocws allweddol i'r fforwm yn ystod y flwyddyn hon, er mwyn cefnogi cynlluniau gwella yn y dyfodol hyd at 2026/27.

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Ansawdd wedi'u gwreiddio o fewn seilweithiau llywodraethu ac maent wedi bod yn allweddol wrth sicrhau bod penderfyniadau a gymerwyd ynghylch trawsnewid gwasanaethau clinigol wedi'u hystyried ar draws y deuddeg Safon Ansawdd Iechyd a Gofal. Darperir canllawiau a chefnogaeth glir ar draws fforymau llywodraethu i sicrhau bod ansawdd wrth wraidd gwneud penderfyniadau ac mae cyngor arbenigol yn parhau i gael ei ddarparu gan ein timau ansawdd i gefnogi arweinwyr ar draws y sefydliad wrth ystyried effeithiau cynigion a phenderfyniadau yn erbyn y safonau hyn.

Mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad Ansawdd yn darparu'r egwyddorion a'r gofynion sefydliadol ar gyfer system rheoli ansawdd gadarn. Mae'r fframwaith hwn a'r cynllun gwaith sy'n gysylltiedig ag ef yn cael ei fonitro gan y Grŵp Llywio'r Fframwaith Rheoli Perfformiad Ansawdd sy'n rhoi sicrwydd i'r Tîm Arwain Gweithredol. Mae pob elfen o'r sefydliad ar draws gwasanaethau gweithredol a chorfforaethol wedi cael cefnogaeth i gwblhau hunanasesiad yn erbyn y fframwaith i ddatblygu cynlluniau gwella sy'n gysylltiedig â'u systemau rheoli ansawdd unigol.

Yn ystod 2025/26 mae gwaith wedi symud ymlaen i sefydlu llwybrau llywodraethu a rheoleiddio gwybodaeth priodol i alluogi'r Ymddiriedolaeth i ddefnyddio data defnyddwyr gwasanaeth at ddibenion allgymorth wedi'u targedu a deallusrwydd profiadol. Roedd hyn yn cynnwys datblygu cyflwyniadau ac ymgysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Goruchwyliwyd llywodraethu'r fenter hon drwy'r Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth a'r Grŵp Rheoli Gwybodaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu cynllun archwilio clinigol blynyddol yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Adroddir ar y cynllun archwilio i QUEST bob chwarter, gan gytuno ar unrhyw wyriadau yn y cynllun. Yn ei dro, mae QUEST yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd bod y cynllun archwilio clinigol ar waith ac yn cael ei fonitro. Mae Cynllun Ansawdd Blynyddol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2025/26 ar gael [yma](#).

Trefniadau llywodraethu gwybodaeth (gan gynnwys diogelwch gwybodaeth)

Mae Llywodraethu Gwybodaeth yn sail i allu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gofal o ansawdd uchel, diogel ac effeithiol. Mae sicrhau cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd gwybodaeth yn hanfodol i gynnal ymddiriedaeth, cefnogi trawsnewid digidol a chydymffurfio â chyfrifoldebau statudol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ac mae ganddi gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod rheolaethau a threfniadau llywodraethu effeithiol ar waith, i sicrhau ei bod yn prosesu gwybodaeth yn unol â'r gyfraith a safonau cysylltiedig. Mae'r fframwaith yn cynnwys cyfres sefydledig o bolisiâu, gweithdrefnau, canllawiau, a phrosesau llywodraethu gwybodaeth, diogelu data a diogelwch gwybodaeth i hysbysu ac arwain y sefydliad i sicrhau y bodlonir cydymffurfedd yn ymarferol. Mae'r fframwaith yn cynnwys trefniadau monitro ac adrodd, archwiliadau, asesiadau cydymffurfio, a mentrau gwella ynghyd â phrosesau rheoli digwyddiadau a risg. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi wreiddio diwylliant o welliant parhaus ar draws ei gweithgareddau llywodraethu gwybodaeth, wedi'i gefnogi gan archwiliadau mewnol ac allanol. Caiff argymhellion o'r archwiliadau hyn eu holrhain hyd at eu cwblhau a'u defnyddio i lywio diweddariadau polisi a chynnwys hyfforddiant.

Mae diogelwch gwybodaeth yn parhau i fod yn risg sylweddol ar draws GIG Cymru, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddatblygu mesurau lliniaru ar gyfer a monitro'r risg cysylltiedig 260 'Ymosodiad seiber sylweddol a pharhaus ar WAST, GIG Cymru a rhwydweithiau rhyngddibynnol sy'n arwain at wrthod gwasanaeth a cholli systemau critigol'. Gyda dull a arweinir gan risg, mae'r Ymddiriedolaeth wedi canolbwyntio ar wella'r agweddau technoleg, prosesau a phobl er mwyn sicrhau seibergadernid. Mae cynllun gwella seiber ar waith ac yn cael ei fonitro'n weithredol. Cynhelir asesiadau risg system yn rheolaidd. Mae Polisi Diogelwch Gwybodaeth ar waith, a chaiff hyfforddiant ac ymwybyddiaeth eu rhannu a'u cyfathrebu'n weithredol ar draws yr Ymddiriedolaeth o dan yr Ymgyrch Hyfforddiant Diogelwch Gwybodaeth. Cynhelir ymarferion rheolaidd i brofi gwytnwch, mireinio cynlluniau parhad busnes ac ymwybyddiaeth staff o fygythiadau seiber.

Sefydlwyd Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth gydag aelodaeth ar lefel weithredol ac uwch gan gynnwys yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth, y Swyddog Diogelu Data, a Gwarcheidwad Caldicott. Mae'r Grŵp yn derbyn adroddiadau ar faterion, datblygiadau a pherfformiad llywodraethu gwybodaeth a diogelu data. Mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Tîm Arwain Gweithredol bob mis ac yn rhoi sicrwydd ynghylch cydymffurfedd yr Ymddiriedolaeth â safonau llywodraethu gwybodaeth perthnasol. Mae goruchwyliaeth ar lefel y bwrdd drwy'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, ac mae cyfarwyddwr anweithredol digidol y bwrdd yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Digidol ar faterion sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddarparu cyflwyniadau blynyddol i Becyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru. Canlyniadau cyflwyniad Mawrth 2026 yw bod yr Ymddiriedolaeth yn bodloni'r holl safonau gofynnol ar adeg y cyflwyniad, gydag wyth allan o'r deuddeg categori yn rhagori ar ddisgwyliadau.

Mae risg bresennol ar y gofrestr risg gorfforaethol sy'n gysylltiedig â methu â chydymffurfio â diogelu data a risg newydd ar ddefnydd anawdurdodedig neu amhriodol o dechnolegau deallusrwydd artifisial. Mae'r risgiau a'r camau lliniaru yn parhau i gael eu monitro.

Cynhelir Asesiadau Effaith Diogelu Data yn rheolaidd ar gyfer systemau a phrosesau newydd neu sydd wedi newid yn sylweddol sy'n cynnwys data personol, gyda chefnogaeth gan y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth i sicrhau cymesuredd a chydymffurfedd cyfreithiol. Mae hyn wedi bod yn ffocws i'r Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth yn 2025/26, ac mae codi proffil y rhain yn flaenoriaeth allweddol yn 2025/26.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru i gasglu digwyddiadau llywodraethu gwybodaeth drwy'r modiwl adrodd am ddigwyddiadau. Mae digwyddiadau llywodraethu gwybodaeth a adroddir yn cael eu hadolygu a'u hasesu yn unol â Chanllawiau GIG Cymru ar Gategoreiddio a Hysbysu Toriadau Data Personol, sy'n darparu canllawiau manwl ar gyfer asesu ac adrodd am ddigwyddiadau. Cymerir unrhyw gamau adferol yn ôl y gofyn. Caiff y ffigurau digwyddiadau eu hadrodd i'r Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth. Gan ddibynnu ar natur a difrifoldeb y digwyddiad, efallai y bydd angen rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am yr adroddiadau am ddigwyddiadau. Yn ystod y cyfnod adrodd 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026, hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am dri digwyddiad. Yn dilyn hysbysiad, cafodd un adroddiad ei ddirymu, ac ni

dderbyniwyd unrhyw gamau pellach gan Swddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â'r ddau ddigwyddiad sy'n weddill.

Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Mae asesiad yn erbyn y cod llywodraethu corfforaethol ar gyfer adrannau llywodraeth ganolog (2017) wedi'i gwblhau gan ddefnyddio'r dull "Cydymffurfio" neu "Egluro". Er nad oes unrhyw ofyniad i gydymffurfio â holl elfennau'r cod, cynhaliwyd asesiad ym mis Ebrill 2026 yn ôl y prif egwyddorion fel y maent yn ymwneud â sefydliad sector cyhoeddus y GIG yng Nghymru.

Adolygwyd y canlyniadau gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 28 Ebrill 2026 a gellir gweld y papurau ar gyfer y cyfarfod hwnnw [yma](#).

Mae'r Ymddiriedolaeth yn fodlon ei bod yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod ac yn cynnal ei busnes mewn modd agored a thryloyw yn unol â'r cod. Ni adroddwyd/rhodddwyd gwybod am unrhyw wyriadau oddi wrth y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ystod y flwyddyn adrodd 2025/26.

Gwasanaethau atal twyll lleol

Mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn weithiwr proffesiynol gwrth-dwyll achrededig sy'n darparu gwaith rhagweithiol (ee. codi ymwybyddiaeth o dwyll, atal a rhwystro twyll) a gwaith ymatebol i ddwyn y rhai sy'n cyflawni twyll i gyfrif (ee. ymchwiliadau twyll). Mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn darparu adroddiadau i ARAC a'r Tîm Arwain Gweithredol mewn perthynas ag ansawdd ac effeithiolrwydd yr holl waith atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yr ymgymmerir ag ef.

Caiff amcanion gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd eu trafod a'u hadolygu ar lefel strategol o fewn y sefydliad. Mae ARAC yn atebol am gael sicrwydd bod dulliau rheolaeth a rheoli digonol ar waith mewn perthynas â gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd.

Caiff hyn ei gyflawni drwy ddiweddariadau chwarterol i ARAC gan yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol, a ategir gan adroddiad blynyddol ar waith atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd sy'n cydymffurfio â chanllawiau Awdurdod Atal Twyll y GIG mewn perthynas â chynnwys yr holl safonau perthnasol ar gyfer twyll, llwgrwobrwyo a llygredd; ac yn rhoi diweddariad clir ar gynnydd yn erbyn amcanion y cynllun gwaith.

Rhaid i ARAC fodloni ei hun bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau digonol ar waith ar gyfer atal twyll mewnol ac adolygu canlyniadau'r gwaith hwnnw, a chydabod gwaith a gwblhawyd yn erbyn risgiau a gyflwynwyd a chynllun gwaith cytûn. Mae ARAC yn adolygu ac yn cymeradwyo'r trefniadau gwrth-dwyll mewnol yn flynyddol.

Trefniadau cynllunio

Yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei Chynllun Tymor Canolig Integredig 2025-28 erbyn 31 Mawrth 2025 ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd ar 27 Mawrth 2025. Cymeradwywyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025-28 gan Lywodraeth Cymru ar 30 Mehefin 2025, yn amodol ar Amodau Atebolrwydd; a ddarparwyd i'r Ymddiriedolaeth ar 28 Gorffennaf 2025.

Cafodd y Cynllun Tymor Canolig Integredig ei lunio gydag adborth mewnol ac allanol ac yn unol â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2025-28. Roedd hyn yn cynnwys straeon cleifion, arolygon staff ac ymgysylltu â'r Cyd-bwyllgor Comisiynu, y bwrdd a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Mae rhagor o fanylion am Gynllun Tymor Canolig Integredig a threfniadau cynllunio'r Ymddiriedolaeth wedi'u nodi yn yr Adroddiad Perfformiad a gynhwysir yn adran Trosolwg Perfformiad yr Adroddiad Perfformiad.

Datganiadau datgelu

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadarnhau, yn unol â gofynion y Datganiad Llywodraethu bod:

- Mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau'r Ymddiriedolaeth o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 yn nodi ymrwymiad ystyrlon yr Ymddiriedolaeth i weithio gyda staff i'w helpu i nodi, hyrwyddo a dathlu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys y dull o gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae hefyd yn amlinellu sut y bydd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, yn cael mynediad a chanlyniadau cyfartal. Mae'r Cynllun ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth yma: [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru](#).
- Fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i aelodaeth o Gynllun Pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau'r cyflogwr a gynhwysir yn rheoliadau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau cyflog, cyfraniadau'r

cyflogwr a thaliadau i'r cynllun yn digwydd yn unol â rheolau'r cynllun, a bod cofnodion aelodau yn cael eu diweddarau'n gywir yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Rheoliadau.

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal asesiadau risg ac mae ganddi gynlluniau cyflawni carbon i gydymffurfio ag elfennau parodwydd ar gyfer argyfwng ac argyfyngau sifil posibl o ragamcanion tywydd 2009 UKCIP (Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU) i fodloni rhwymedigaethau'r Ymddiriedolaeth o dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd a'r Gofynion Adrodd ar Addasiadau. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Tywydd Garw ar waith. Yn ogystal, mae tîm Parodwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys yn defnyddio gwybodaeth gan y Swyddfa Dywydd i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer tywydd garw, ac mae rhybuddion tywydd yn sbardun blaenoriaeth uchel yn ein hystyriaeth wythnosol o godi lefelau rhybudd yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gydag asiantaethau partner yn ein Fforymau Cydnerth Lleol i lywio unrhyw ymateb daearyddol aml-asiantaeth ac mae'r system Rhybudd Brys yn caniatáu ar gyfer hysbysu a rhybuddio os bydd tywydd garw yn bygwth bywyd. Mae cynllunio, hyfforddi ac ymarfer yn agwedd allweddol ar gyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer Argyfyngau Sifil Posibl fel ymatebydd categori un. Yn 2026/27 bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid GIG Cymru ar gynllunio addasiadau a byddwn yn datblygu ymhellach ein Cynllun Ymaddasu ar gyfer Newid Hinsawdd a fydd yn sicrhau dull strwythuredig, sefydliad-gyfan o adeiladu matrices risg cynhwysfawr a mesurau addasu cysylltiedig. Mae'r dull yn fwriadol gydweithredol ac yn cael ei greu gyda mewnbwn gan gydweithwyr ar draws pob cyfarwyddiaeth, gan sicrhau ymgysylltiad sefydliadol llawn, perchnogaeth a rennir, a sylfaen dystiolaeth gadarn. Bydd hyn yn ein galluogi i nodi, asesu a blaenoriaethu risgiau'n gyson, ac i ddatblygu addasiadau cymesur a chyraeddadwy sydd wedi'u gwreiddio mewn cynllunio busnes fel arfer.

- Nid oedd yr Ymddiriedolaeth wedi adrodd am unrhyw ddigwyddiadau anffafriol difrifol yn ystod 2025/26 mewn perthynas â diogelwch data. Fel y nodir uchod, hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am dri digwyddiad. Yn dilyn hysbysiad, cafodd un adroddiad ei ddirymu, ac ni dderbyniwyd unrhyw gamau pellach gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â'r ddau ddigwyddiad sy'n weddill.

Ansawdd y data

Ystyrir bod ansawdd y data a gynhyrchir ac a ddefnyddir gan feysydd gwasanaeth craidd yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifoldeb ar y cyd, ond yn cael ei oruchwylio gan y Gyfarwyddiaeth

Ddigidol. Trwy biblinell ddata aeddfed a phrosesau cadarn, mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal lefel gref o ansawdd data drwyddi draw. Mae Polisi Ansawdd Data'r Ymddiriedolaeth yn amlinellu pwysigrwydd cynnal ansawdd data da ac yn egluro'r broses uwchgyfeirio ar gyfer datrys unrhyw faterion ansawdd data a ddarganfuwyd.

Mae'r argymhellion a'r camau gweithredu o Archwiliad Mewnol Ansawdd Data mis Hydref 2024 wedi'u cwblhau a'u gweithredu, gyda'r Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth (sydd ag awdurdod dirprwyedig gan y Tîm Arwain Gweithredol) bellach yn monitro metrigau sy'n gysylltiedig ag ansawdd data a chynnydd hyfforddiant yn fisol. Yn nodedig, mae hyn wedi cynnwys datblygu a rhyddhau modiwl hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ansawdd data pwrpasol ar draws yr Ymddiriedolaeth, ac ailsefydlu Grŵp Rheoli Asedau Gwybodaeth ar gyfer stiwardiaid data a pherchnogion systemau gwybodaeth.

Yn dilyn gweithredu Fframwaith Perfformiad Ambiwylansys (Camau gweithredu 1 a 2) yn 2025, mae'r data a gyflenwyd gan WAST i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Datganiad Ystadegau Swydddogol wedi'i ailgynllunio'n llwyr i alinio â'r metrigau newydd, wedi'i brofi, a'i ansawdd wedi'i sicrhau gan swyddogaeth Gwasanaethau Mewnwelediad a Data'r Gyfarwyddiaeth Digidol. Mae'r data y tu ôl i'r cyflwyniadau hyn hefyd yn rhan o broses barhaus o fonitro ansawdd data, gan wirio ar draws pob dimensiwn o ansawdd data wrth i ddata galwadau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â 999 ac 111 gael eu dwyn i warws data diogel, ar y safle'r Ymddiriedolaeth. Gall yr ymarfer hwn hefyd gynnwys ymchwilio o gofnodion data ar y lefel fwyaf gronynnog, lle gellir nodi unrhyw broblemau yn y system, proses neu adroddiadau a chynnig atebion; gan ddangos bod ansawdd data o fewn yr Ymddiriedolaeth yn mabwysiadu dull cyd-weithredu llawn o'r dechrau i'r diwedd. Felly, mae'r Ymddiriedolaeth yn cadw ei statws ar Orchymyn Ystadegau Swydddogol (Cymru) 2017, sy'n rhan o Ddeddf Ystadegau a Gwasanaethau Cofrestru 2007.

Yn ehangach ar draws yr Ymddiriedolaeth, mae ansawdd data ar gyfer systemau a ffynonellau gwybodaeth eraill yn aeddfedu. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Tachwedd 2025, nodwyd bod gwall adrodd data wedi'i ganfod yn gysylltiedig â metrigau cydymffurfio ar gyfer Gweithio i Wella yn yr adroddiad MIQPR. Achos y gwall hwn oedd dibynnu'n bennaf ar echdynnu â llaw a chyfrifo data o system trydydd parti. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae ymdrech sylweddol ym maes peirianeg data wedi'i gyfeirio at y maes gwybodaeth hwn, er mwyn gwella llif data technegol a galluogi'r metrigau i gael eu cyfrifo mewn ffordd fwy awtomataidd a dibynadwy, gan wella hyder yng nghywirdeb yr adroddiadau yn y dyfodol.

Mae gwelliant nodedig arall o ran aeddfedrwydd ansawdd data o fewn WAST yn cynnwys y dull y cafodd metrigau Fframwaith Perfformiad Ambiwylansys newydd eu cynllunio ar y cyd gan arbenigwyr pwnc o bob cwr o'r Ymddiriedolaeth (o dimau data, clinigol, comisiynu a gweithredol). Mae'r dull arfer gorau hwn yn cael ei fabwysiadu gan ffrydiau gwaith eraill y rhaglen Trawsnewid Model Clinigol yn y dyfodol.

Cyfarwyddiadau Gweinidogol

Cyhoeddir Cyfarwyddiadau Gweinidogol gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'u cyhoeddiadau iechyd a gofal cymdeithasol a gellir eu gweld [yma](#). O'r Cyfarwyddiadau Gweinidogol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026 nid oedd yr un ohonynt yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth.

Cylchlythyrau Iechyd Cymru

Mae Cylchlythyrau Iechyd Cymru yn darparu dull cyfathrebu symlach, tryloyw ac olrheiniadwy rhwng GIG Cymru a sefydliadau'r GIG. Cafwyd nifer o gylchlythyrau yn ystod y flwyddyn ac mae'r rhain wedi'u dyrannu i gyfarwyddwr arweiniol sy'n gyfrifol am roi'r camau gofynnol ar waith. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadw cofnod o gylchlythyrau.

Trefniant Goruchwylio ac Uwchgyfeirio'r GIG

O dan Drefniadau Goruchwylio ac Uwchgyfeirio'r GIG, mae Llywodraeth Cymru yn cyfarfod ag Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) ac Archwilio Cymru i drafod yr asesiad cyffredinol o'r Ymddiriedolaeth.

Yn y cyfarfod teirochrog diweddaraf, arhosodd statws uwchgyfeirio'r Ymddiriedolaeth yr un fath ar 'drefniadau arferol', statws sydd wedi'i gynnal ers nifer o flynyddoedd.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau AGIC yn 2025/26, fodd bynnag, cychwynnwyd adolygiad lleol yn 2026 ar sawl thema gan gynnwys:

- llif cleifion a'r broses drosglwyddo, rhyddhau criwiau'n gyflymach/llwybrau amgen, safoni canllawiau trosglwyddo/trefniadau gweithredu safonol
- y broses uwchgyfeirio
- cyfathrebu â chleifion ynghylch oediadau

- presenoldeb arweinyddiaeth a llywodraethu, diwylliant adrodd, dysgu ac adborth, cynllunio'r gweithlu a lefelau staffio, llesiant a chefnogaeth staff, hyfforddiant a datblygiad staff
- ansawdd data ac adrodd cywir

Nid yw'r adroddiad canlyniad wedi dod i law yn y flwyddyn ariannol hon.

Cronfa Risg Cymru

Yn ystod 2024, cynhaliodd Cronfa Risg Cymru ei hasesiad blynyddol o bolisiâu, gweithdrefnau ac arferion yr Ymddiriedolaeth fel rhan o'i dyletswyddau goruchwyllo. Nod yr asesiad oedd casglu sicrwydd ynghylch rheoli pryderon a chydymffurfedd â Chanllawiau Gweithio i Wella ar gyfer y Pwyllgor Cronfa Risg Cymru, Llywodraeth Cymru a Pherfformiad a Gwella GIG Cymru a darparu argymhellion i gefnogi'r sefydliad i wella'n barhaus yn y maes llywodraethu pwysig hwn. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2025, ac mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n gweithredu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad a fydd yn cael eu holrhain a'u monitro gan y Pwyllgor QuEST.

Roedd yr Aseswyr yn hyderus mai'r strwythur sefydliadol newydd sydd wedi'i weithredu yw'r dull cywir i'r Ymddiriedolaeth o ran ei phrosesau diogelwch cleifion a Gweithio i Wella. Gan fod rhai camau gweithredu heb eu cymryd o'r asesiad blaenorol ac anghysondeb yn y data, mae'r sgôr sicrwydd yn parhau i fod yn Sicrwydd Cyfyngedig. Fodd bynnag, roedd yr Aseswyr yn hyderus, wrth i'r newidiadau sy'n cael eu gweithredu gan yr Ymddiriedolaeth ddod i rym, y bydd digon o dystiolaeth i gynyddu'r sgôr sicrwydd.

Cymeradwywyd argymhellion gan Bwyllgor Cronfa Risg Cymru, gyda goruchwyliaeth barhaus o'r gwaith o fonitro, herio a chau yn cael ei darparu gan Bwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth.

Yn ystod y flwyddyn, bu rhywfaint o lithriad yn erbyn yr amserlenni cwblhau gwreiddiol, gan adlewyrchu galw parhaus, pwysau gweithredol a chyfyngiadau capasiti ar draws y sefydliad. Er gwaethaf hyn, mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu bellach wedi'u cwblhau a'u cytuno i'w cau, wedi'u cefnogi gan dystiolaeth briodol sy'n dangos eu bod wedi'u cyflawni yn erbyn pob argymhelliad.

Mae nifer fach o gamau gweithredu yn parhau i fod ar agor oherwydd dibyniaethau sylweddol ar seilwaith digidol a datrysiadau a gaffaelir yn genedlaethol sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth. Er mwyn cryfhau sicrwydd a chyflymu cynnydd, mae'r

Ymddiriedolaeth wedi sefydlu goruchwyliaeth lefel uwch o flaenoriaethu digidol. Mae hyn yn darparu llywodraethu cliriach, aliniad cryfach â blaenoriaethau a risgiau strategol y Cynllun Tymor Canolig Integredig, ac ymgysylltiad gwell â phartneriaid cenedlaethol lle mae angen datrysiadau ar draws y system.

Archwilio mewnol

Mae Archwilio Mewnol yn rhoi llif annibynnol o sicrwydd i'r Swyddog Atebol a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae'r Swyddog Atebol yn comisiynu rhaglen o waith archwilio mewnol, a gyflawnir yn unol â Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cytunir y gwaith hwn gyda'r Tîm Arwain Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol.

Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn un o swyddogaethau'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg ac mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd i'r bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y bu digon o sylw i archwiliadau mewnol yn ystod y cyfnod adrodd i roi Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. Wrth lunio'r farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith unrhyw archwiliadau nad ydynt wedi'u cwblhau'n llawn. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae gwaith archwilio a wnaed ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, a Chyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru, wedi cyfrannu at, ac yn cefnogi, y farn archwilio fewnol gyffredinol ar gyfer cyrff iechyd GIG Cymru.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad:

	Gall Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gymryd sicrwydd rhesymol bod y trefniadau sydd ar waith i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, wedi cynllunio'n addas a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae rhai materion angen sylw rheolwyr wrth gynllunio rheolaeth neu gydymffurfedd, gydag effaith isel i gymedrol ar amlygiad i risg gweddilliol, hyd nes cânt eu datrys.
---	---

Mae'r casgliad hwn yn gyson â Barn Sicrwydd Rhesymol y Pennaeth Archwilio Mewnol a adroddwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynnyddol 2024/25 yr Ymddiriedolaeth. Mae casgliad sicrwydd rhesymol 2025/26 yn deillio o 20 o adolygiadau Archwilio Mewnol.

Casgliad Sicrwydd Archwilio Mewnol	Nifer yr Adroddiadau
Sicrwydd Anfoddhaol	0
Sicrwydd Cyfyngedig	0
Sicrwydd Rhesymol	17
Sicrwydd Sylweddol	2
Cynghorol	1
Yn mynd rhagddo	0
Cyfanswm	20

Am yr wythfed flwyddyn yn olynol, ni chafwyd unrhyw adroddiadau archwilio mewnol 'Sicrwydd Anfoddhaol' o fusnes yr Ymddiriedolaeth. O'r 20 adroddiad a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, ni chafodd yr un ohonynt eu graddio fel rhai cyfyngedig, gyda'r rhan fwyaf o'r adroddiadau wedi'u graddio fel rhai â sicrwydd 'rhesymol'.

Archwiliad allanol: Archwilio Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol yr Ymddiriedolaeth. Mae Archwilio Cymru yn craffu ar systemau a phrosesau ariannol, rheoli perfformiad a meysydd risg allweddol yr Ymddiriedolaeth.

Caiff adroddiadau eu llunio gan Archwilio Cymru yn unol â rhaglen waith blynnyddol a gymeradwyir gan ARAC ac maent yn cynnwys ymatebion rheolwyr gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer adroddiadau sy'n cynnwys argymhellion. Ystyrir holl adroddiadau Archwilio Cymru gan y pwyllgor ARAC a, lle bo'n briodol, y pwyllgor perthnasol a'r bwrdd. Mae eu hargymhellion yn cael eu cofnodi wedyn yn nhraciwr argymhellion archwilio'r Ymddiriedolaeth, a adroddir i bob cyfarfod pwyllgor ARAC i roi sicrwydd ar eu gweithrediad.

Yn ystod 2025 cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth yr adolygiadau canlynol:

- Asesiad Strwythuredig 2025 – asesiad craidd
- Asesiad Strwythuredig 2024 – adolygiad manwl o fuddsoddiad mewn systemau digidol

- Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng – trefniadau ar gyfer rheoli'r galw Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Asesiad Strwythuredig 2025

Ffocws allweddol yr adolygiad hwn oedd trefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd, gyda ffocws penodol ar ddull corfforaethol o gynllunio; systemau sicrwydd corfforaethol; tryloywder, cydlyniant ac effeithiolrwydd y bwrdd; a dull corfforaethol o reoli cyllid.

Roedd yr Asesiad Strwythuredig hwn yn gadarnhaol ac yn dangos bod gan yr Ymddiriedolaeth fwrdd effeithiol, wedi'i gefnogi gan drefniadau llywodraethu a sicrwydd cryf ac aeddfed, fframwaith cynllunio clir, a rheolaeth ariannol gadarn, wrth weithredu mewn amgylchedd perfformiad ac ariannol heriol gyda chapasiti sefydliadol cyfyngedig. Roedd ei ganfyddiadau allweddol yn cynnwys y canlynol:

Canfuwyd gennym fod gan yr Ymddiriedolaeth Fwrdd effeithiol wedi'i gefnogi gan drefniadau llywodraethu da. Mae systemau ar gyfer rhoi sicrwydd i'r Bwrdd yn effeithiol ac yn cael eu cryfhau trwy ddatblygiad pellach o fframwaith sicrwydd y bwrdd. Mae cynllun ansawdd newydd yn cael ei roi ar waith, ond mae'r gallu i'w gyflawni yn debygol o fod yn anodd heb gyllid pwrpasol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i adrodd heriau o ran bodloni targedau perfformiad allweddol. Cyflwynwyd newidiadau i'r ffordd y mesurir ymatebion ambiwlansys yn ystod 2025, â mwy o bwyslais ar ganlyniadau cleifion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar gwybod pa effaith mae'r newidiadau yn ei chael ar ansawdd y gwasanaeth.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Tymor Canolig Integredig eglur ac wedi'i gymeradwyo ac wedi cymeradwyo cyfres o amcanion llesiant yn ddiweddar. Mae hefyd yn cynnal adnewyddiad prydlon o'i strategaeth hirdymor. Mae gan yr Ymddiriedolaeth nifer sylweddol o raglenni newid ar y gweill, â chapasiti cyfyngedig i'w cefnogi. Mae'n oedi datblygiad rhai cynlluniau corfforedig felly ac yn gohirio rhai gweithgareddau a gynlluniwyd i ddiogelu capasiti ar gyfer blaenoriaethau allweddol.

Note 21 - Payments to past directors Claire Vaughan and Andrew Haywood were made in 2024/25 for £86.79 and £474.02 respectively relating to 2022/23 back pay which was not disclosed previously in a directors' remuneration report, in accordance with the Manual for Accounts

Note 22 - Benefit in kind includes home to work travel and business miles for the Non Executive Directors, and company car for the Directors

Note 23 - Salary for the Chair and Non Executive Directors includes the new fee structure from 1st January 2026

Buddiannau pensiwn

Name and title	Accrued pension at pension age as at 31/3/26 and related lump sum (bands of £5,000)	Real increase in pension and related lump sum at pension age (bands of £2,500)	Cash Equivalent Transfer Value at 31 March 2026 £'000	Cash Equivalent Transfer Value at 31 March 2025 £'000	Real increase in Cash Equivalent Transfer Value £'000
	£'000	£'000			
Emma Wood (Chief Executive) *	40-45	0-2.5	631	551	24
Jason Killens (Chief Executive)	75-80	2.5-5			
	plus lump sum of 185-190	plus lump sum of 7.5-10	1,664	1,312	92
Christopher Turley (Executive Director of Finance & Corporate Resources)	60-65	0-2.5			
	plus lump sum of 155-160	plus lump sum of 0	1,425	1,382	3
Edward Roberts (Acting Director of Finance)	20-25	0-2.5			
	plus lump sum of 50-55	plus lump sum of 0-2.5	431	358	18
Angela Lewis (Director of Culture Change)	5-10	0-2.5			
	plus lump sum of 0-5	plus lump sum of 0	140	113	16
Liam Williams (Executive Director of Quality and Nursing)	50-55	5-7.5			
	plus lump sum of 115-120	plus lump sum of 10-12.5	1,117	953	129
Estelle Hitchon (Director of Partnerships & Engagement)	35-40	2.5-5			
	plus lump sum of 105-110	plus lump sum of 2.5-5	953	867	56
Rachel Marsh (Executive Director of Strategy, Planning & Performance)	65-70	7.5-10			
	plus lump sum of 75-80	plus lump sum of 7.5-10	1,243	1,044	165
Lee Brooks (Executive Director of Operations)	45-50	2.5-5			
			692	639	26
Jonathan Sammut (Director of Digital Services) **	-	-	-	-	-
Andrew Swinburn (Executive Director of Paramedicine)	60-65	10-12.5			
	plus lump sum of 160-165	plus lump sum of 25-27.5	1,459	1,166	256
Carl Kneeshaw (Director of People) ***	5-10	0-2.5			
			84	53	15
Patricia Mills (Director of Corporate Governance / Board Secretary)	10-15	0-2.5			
			198	155	26

*Emma Wood paid pension contributions from 22nd October 2025 due to an overlap in pensionable employments

** Jonathan Sammut chose not to be covered by the pension arrangements during the reporting year

*** Carl Kneeshaw paid pension contributions from 4th November 2024 due to an overlap in pensionable employments

Adroddiad Staff

Niferoedd staff

Mae dadansoddiad o niferoedd staff yn ôl categori yn ystod 2025/26 wedi'i nodi isod. Mae'r ffigurau'n ymwneud â nifer cyfartalog y cyflogeion o dan contract gwasanaeth ym mhob wythnos o'r flwyddyn ariannol, wedi'i rannu â 52 (a'i dalgrynnu i'r CALL agosaf).

Cyfrifwyd y ffigurau hyn i gynnwys secondiadau o'r tu allan a staff asiantaeth ac i gysoni â'r cyfrifon ariannol.

Categori	2025/26	2024/25	2023/24
Gwasanaethau clinigol ychwanegol	1,957	1,974	2,070
Staff proffesiynol, gwyddonol a thechnegol	2	3	3
Staff gweinyddol, clerigol ac aelodau'r bwrdd	760	690	634
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	1,199	1,162	1,103
Staff ystadau ac ategol	70	65	58
Meddygol a deintyddol	1	1	1
Nyrsys, bydwagedd cofrestredig	219	196	192
Myfyrwyr	0	0	
Gwyddonwyr gofal iechyd	0	0	
Cyfanswm	4,208	4,091	4,061

Cyfansoddiad staff

Nodir dadansoddiad o nifer y bobl o bob rhyw sy'n uwch reolwyr yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2026 isod (ac eithrio'r rhai a secondiwyd allan o'r Ymddiriedolaeth). Mae hyn yn cymharu â chyfansoddiad staff yr Ymddiriedolaeth gyfan o 52% o fenywod, 48% o ddynion.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust

Rhywedd	Nifer y bobl	%
Menyw	10	55.6
Dyn	8	44.4
Cyfanswm	18	100

Data absenoldeb oherwydd salwch

	2025/26	2024/25	2023/24
Diwrnodau a gollwyd (hirdymor)	92,024.32	85,949.54	93,684.07
Diwrnodau a gollwyd (tymor byr)	29,003.31	30,280.98	32,961.72
Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd	121,027.62	116,230.52	126,645.79
Cyfanswm y blynyddoedd staff	349.38	338.88	338.43
Diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd	18.05	17.86	19.43
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (nifer y bobl)	4,519	4,381	4,354
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod na fuont yn absennol (nifer y bobl)	1,365	1,262	1,025
Canran y staff na fuont yn absennol oherwydd salwch	30.07%	28.65%	24.93%

Nodyn 1: Mae canran a chyfanswm nifer y staff na fuont yn absennol yn ystod y flwyddyn wedi dod o adroddiad safonol gwybodaeth busnes (BI) y Cofnod Staff Electronig (ESR). O ran yr adrodd mewn perthynas â chanran y staff sydd â 'dim salwch', nid yw'r adroddiad Gwybodaeth Busnes safonol yn cynnwys newydd-ddyfodiaid a hefyd penodiadau banc. Felly, mae nifer y staff sydd wedi cael blwyddyn gyfan heb unrhyw absenoldeb oherwydd salwch yn cael ei rannu'n nifer llai na chyfanswm y cyfrif pennau ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r rheolaeth agos o absenoldeb oherwydd salwch yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth yn parhau, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn gyson â thueddiadau ar draws sector ambiwlans ehangach y DU.

Adroddwyd bod data absenoldeb salwch a adroddwyd yn adroddiad blynyddol 2024/25 yn 7.35%, fodd bynnag mae hyn bellach wedi'i gywiro i 7.47%. Cofnodwyd yr un ffigur absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer mis Mawrth 2026, sef 7.47%.

Mae'r adroddiad perfformiad yn rhan 1 o'r adroddiad blynyddol hwn yn nodi'r gwelliannau a roddwyd ar waith yn ystod y flwyddyn 2025/26 ac sy'n parhau i gael eu dilyn i sicrhau bod ffocws ar leihau absenoldeb oherwydd salwch.

Polisiau staff a gymhwyswyd yn ystod y flwyddyn

Mae gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith polisi cynhwysfawr sy'n amlinellu datblygiad, adolygiad a chymeradwyaeth ei pholisiau a'i gweithdrefnau cyflogaeth mewn partneriaeth. Drwy gydol 2025/26 mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddatblygu, adolygu a diweddarau nifer o bolisiau mewn partneriaeth â chydweithwyr yn yr undeb llafur a thrwy ymgynghoriadau staff; gyda'r nod o symleiddio prosesau'r Ymddiriedolaeth ymhellach.

Caiff yr holl bolisiau a gweithdrefnau cyflogaeth cymeradwy eu hasesu o ran effaith cydraddoldeb yn erbyn y naw nodwedd warchodedig, gyda'r Gymraeg yn cael ei hystyried hefyd i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu nac yn anfantais i unrhyw unigolion. Mae'r polisiau hyn wedi'u cynllunio i sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hintegreiddio'n llawn i arferion recriwtio, dethol a chyflogaeth yr Ymddiriedolaeth, gan adlewyrchu gwerthoedd craidd ac ymddygiadau'r sefydliad.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig ystod eang o bolisiau cyflogaeth sy'n cwmpasu meysydd fel recriwtio a dethol, hyfforddi a datblygu, gweithio hyblyg, iechyd a diogelwch, lles, a rheoli heintiau. Cefnogir y polisiau hyn gan Gynllun Pobl a Diwylliant a Chynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ymddiriedolaeth. Gall staff gael mynediad at bob polisi cyflogaeth drwy fewnwyd yr Ymddiriedolaeth.

Materion gweithwyr/staff eraill

Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

Fel cyflogwr sy'n hyderus o ran anabledd, rydym wedi ymrwymo i ddarparu proses recriwtio gynhwysol a theg sy'n sicrhau bod ymgeiswyr anabl yn cael eu hystyried yn deg ar gyfer cyflogaeth.

Caiff ceisiadau ar gyfer swyddi eu rhestru'n ddiennw, ac ni chaiff rheolwyr recriwtio eu hysbysu am unrhyw anableddau a ddatganwyd nes bod y cam llunio rhestr fer wedi'i gwblhau, gan sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig yn unig ar sgiliau, profiad, dawn a gallu a helpu i leihau'r risg o ragfarn anymwybodol.

Yn unol â'n hymrwymiad i'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd, rydym yn gweithredu Cynllun Cyfweliad Gwarantedig, gan gynnig cyfweliad i ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl. Anogir ymgeiswyr i ddatgelu anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor fel y gellir rhoi addasiadau rhesymol priodol ar waith yn ystod y cyfweliadau a'r asesiadau, gan gefnogi unigolion i ddangos eu potensial llawn.

Codi Llais heb Ofn

Fel y nodwyd yn yr adroddiad perfformiad, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei threfniadau Codi Llais heb Ofn fel rhan o'i hymrwymiad i ddiwylliant agored a chefnogol lle mae'r holl staff yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i godi pryderon. Dangosodd Arolwg Staff 2025 newid cadarnhaol yn hyder staff i godi pryderon, gyda chydweithwyr yn nodi eu bod yn teimlo'n fwy diogel yn codi eu llais ac yn fwy sicr y bydd materion a godir yn cael eu cymryd o ddifrif a'u trin yn briodol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gwasanaeth wedi ehangu o un Prif Warcheidwad ym mis Mehefin 2024 i dîm ymroddedig o dri, gan gynnwys Gwarcheidwad ychwanegol a Rheolwr Cymorth Prosiect. Mae'r capasiti cynyddol hwn wedi galluogi ffocws cryfach ar godi ymwybyddiaeth o'r gwahanol sianeli y gellir eu defnyddio i godi pryderon a gwelliant yn prydlondeb ymateb i bryderon a godwyd. Mae llawer mwy o ymgysylltu hefyd wedi bod ag arweinwyr ar draws y sefydliad a chydweithwyr mewn meysydd allweddol o'r busnes gan gynnwys diogelu er mwyn sicrhau bod cyfle i wrando, ymateb, myfyrio a dysgu o'r themâu a nodwyd. Mae'r camau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus yr Ymddiriedolaeth i annog diwylliant agored a chefnogol lle mae'r holl staff yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i godi llais.

Amcanion cydraddoldeb strategol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn ei Hamcanion Cydraddoldeb Strategol drwy wreiddio egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws cynlluniau, polisiau ac arferion bob dydd yr Ymddiriedolaeth. Dros y

flwyddyn ddiwethaf, mae cynnydd nodedig wedi'i wneud ar draws nifer o feysydd blaenoriaeth:

- *Diogelwch rhywiol, casineb at fenywod a thrais yn erbyn menywod a merched*
Fel rhan o ymgyrch codi ymwybyddiaeth ledled yr Ymddiriedolaeth i atal aflonyddu rhywiol yn y gweithle, mae hyfforddiant wedi'i gyflwyno i staff, gan gynnwys darpariaeth bwrpasol ar gyfer staff y sector ambiwlans a thimau uwch reoli. Mae'r hyfforddiant hwn yn cefnogi unigolion i adnabod aflonyddu rhywiol a herio ymddygiadau amhriodol yn hyderus ac yn briodol. Yn ystod y flwyddyn, mabwysiadodd yr Ymddiriedolaeth yn ffurfiol Bolisi Gwrth-Aflonyddu Rhywiol Cymru Gyfan ac mae'n cyfrannu'n weithredol at ddatblygiad y cynllun gweithredu cenedlaethol trwy gydweithio â Rhwydwaith Pobl Cymru Gyfan.
- *Hyfforddiant cynghreiriad a hyfforddiant gwylwyr gweithredol*
Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddarparu ei Hyfforddiant Cynghreiriad a Hyfforddiant Gwylwyr Gweithredol i staff a gwirfoddolwyr, gan atgyfnerthu ymddygiadau disgwyliedig a chefnogi diwylliant sefydliadol mwy cynhwysol. Mae adborth gan gyfranogwyr yn parhau i fod yn gadarnhaol yn gyson, gydag enghreifftiau clir o staff yn dangos ymddygiadau gwylwyr gweithredol effeithiol yn y gweithle. Yn ystod y flwyddyn, mae'r hyfforddiant hwn hefyd wedi'i wreiddio yn y broses ymsefydlu corfforaethol ar gyfer staff newydd i gefnogi ymddygiadau cynhwysol o'r adeg y byddant yn ymuno â'r Ymddiriedolaeth. Yn ogystal, mae modiwlau byrrach, wedi'u targedu sy'n canolbwyntio ar agweddau penodol ar gynhwysiant wedi'u gwreiddio mewn diwrnodau hyfforddiant clinigol.
- *Rhwydweithiau Pobl a'n gwirfoddolwyr*
Mae ymgysylltiad â Rhwydweithiau Pobl yr Ymddiriedolaeth yn parhau i dyfu, gyda bron i chwarter y gweithlu bellach yn cymryd rhan. Eleni, mae tri rhwydwaith newydd wedi'u sefydlu: y Rhwydwaith Milwrol, Rhwydwaith Hyrwyddwyr Dementia a Rhwydwaith Ffydd. Mae Rhwydweithiau Pobl wedi esblygu'n grwpiau hunanarweiniedig, wedi'u gyrru gan unigolion sy'n angerddol am godi ymwybyddiaeth a gwella profiad y gweithlu. Mae'r Tîm Cynhwysiant, Diwylliant a Lles yn parhau i ddarparu goruchwyliaeth llywodraethu a hwyluso cydweithio traws-rwydweithiau.

Drwy gydol y flwyddyn, mae Rhwydweithiau Pobl wedi cyflwyno ystod eang o fentrau effeithiol gan gynnwys y canlynol:

- sesiynau iechyd menywod pwrpasol yn canolbwyntio ar iechyd hormonaidd a'r menopos
- cefnogaeth i'r Grŵp Defnyddwyr Gwisgoedd Cenedlaethol i annog gwisgoedd mwy hygrych sy'n ffitio'n well
- Dathliadau Mis Hanes Pobl Dduon lle cafodd staff gyfle i ddysgu am brofiadau bywyd rhai unigolion allweddol sydd wedi goresgyn heriau yn y gorffennol i wella bywydau cenedlaethau'r dyfodol o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru
- datblygu Pasbort Iechyd a Lles newydd i weithwyr gofnodi anghenion unigol a helpu rheolwyr i nodi cefnogaeth briodol ac addasiadau rhesymol
- grwpiau ffocws i helpu'r Tîm Digidol i ddysgu mwy am sut i wella hygrychedd digidol ar gyfer ein gweithlu a defnyddwyr ein gwasanaethau
- gweithio mewn partneriaeth â Rhwydwaith LHDT AACE i ddatblygu adnodd gwybodaeth i addysgu staff y gwasanaeth ambiwlans ar ddarparu gofal gwell i bobl sy'n byw gyda HIV. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cysylltu â Fast Track Cymru i gynnal gweithdy i staff WAST ynghylch ymwybyddiaeth o HIV. meddyginiaeth ataliol fel PrEP a PEP, yr ymgyrch U=U a'r uchelgais i ddod â throsglwyddo HIV i ben yng Nghymru erbyn 2030
- paratoi i ail-ddilysu ein Gwobr Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Aur i wella ymhellach ein hymrwymiad i Gymunedau'r Lluoedd Arfog. Mae hyn yn cynnwys adeiladu pontydd i'r gweithle i Gyn-filwyr a chefnogi ein gweithwyr sy'n filwyr wrth gefn ac yn Hyfforddwyr Cadetiaid i helpu i gydbwyso eu gwaith â'u hymrwymiaadau parhaus i'r Lluoedd Arfog.

- *Llesiant ariannol*

Gan gydnabod pwysau'r hinsawdd economaidd bresennol a'r effaith y gall hyn ei chael ar iechyd meddwl a llesiant, mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i gefnogi staff drwy ystod o gynlluniau aberthu cyflog. Mae sefydliadau allanol arbenigol hefyd wedi cael eu gwahodd i'r Ymddiriedolaeth i ddarparu addysg ac arweiniad ar lesiant ariannol. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio gyda Phensiynau'r GIG a Chyflogwyr y GIG i hyrwyddo gwybodaeth ac adnoddau i gefnogi staff wrth gynllunio ar gyfer ymddeoliad.

- *Recriwtio cynhwysol*

Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i weithredu menter recriwtio gynhwysol o fewn y Gyfarwyddiaeth Digidol, a arweiniodd at gynnydd sylweddol mewn ceisiadau a phenodiadau gan ymgeiswyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Arweiniodd y

fenter hefyd at fwy o amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr llwyddiannus eraill, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, ymgeiswyr LHDTTC+ a phobl ag anableddau. Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn ehangu'r dull o fewn ei chanolfannau cyswllt, lle mae recriwtio parhaus ar gyfer swyddi gwag trinwyr galwadau.

- *Cynadleddau a digwyddiadau*

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd rhan weithredol mewn cynadleddau a digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol i rannu dysgu a mabwysiadu arfer gorau i gefnogi ei Hamcanion Cydraddoldeb Strategol. Mae mynychu digwyddiadau fel Pride Cymru, yr Expo Halal Mawr, Mela Caerdydd, Cynhadledd Iechyd Menywod, Cynhadledd Arweinyddiaeth Sector Cyhoeddus Cymru Wrth-hiliol, a Phartneriaeth Amrywiaeth mewn Iechyd a Gofal Cydffederasiwn y GIG wedi galluogi ymgysylltiad ystyrlon â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid. Mae'r mewnwelediadau hyn yn parhau i lywio cynllunio a gwneud penderfyniadau'r Ymddiriedolaeth. Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth hefyd yr ardal iechyd yn y digwyddiad Meistroli Amrywiaeth yng Nghaerdydd am yr ail flwyddyn yn olynol, gan arddangos cynnydd a chryfhau rhwydweithiau i wella hygyrchedd a chynhwysiant gwasanaethau ymhellach.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynnydd a wnaed yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar gael yn ein [Hadroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#).

Addysg a datblygiad

Mae addysg a datblygiad yn WAST yn anelu at fod yn brofiad cynhwysol a niwro-gadarnhaol i gydweithwyr; yn gweithio'n weithredol tuag at fod yn sefydliad sy'n dysgu. Rydym wedi buddsoddi mewn tîm Sgiliau Hanfodol i sicrhau bod cymorth addysgol arbenigol ar gael i gydweithwyr sy'n gweithio gyda'u hymrwymyiadau proffesiynol ac yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu'n llwyddiannus drwy gydol eu bywydau gwaith. Anogir pawb sy'n ymwneud â darparu addysg i ddatblygu eu set sgiliau addysg trwy Raglen Addysg bwrpasol sy'n arwain at gofrestru gyda'r Cyngor y Gweithlu Addysg - mae hyn yn ofyniad i bawb sy'n darparu cymwysterau rheoleiddiedig fel ein cynnig Prentisiaeth sy'n ehangu. Mae profiad y dysgwr yn ganolog i ddylunio, datblygu, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni er mwyn sicrhau y gellir dangos bod tystiolaeth yn seiliedig ar waith ac ychwanegu gwerth, a bod effaith y dysgu yn cael ei themlo yn ymarferol a bod cynhyrchiant yn cynyddu. Mae cydweithwyr yn mwynhau gwybodaeth glir a hygyrch am eu dysgu cyfredol,

llwybrau sydd ar gael a chymorth unigol i'w cynorthwyo i gynllunio eu gyrfa oedd trwy wefan SharePoint bwrpasol - Eich Gorau - fel rhan o'n cynnig Pobl a Diwylliant Ein Ffordd WAST. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w chael yn yr adroddiad perfformiad yn rhan 1 o'r adroddiad blynyddol hwn.

Gwariant ar ymgynghoriaeth

Y gwariant yn ystod 2025/26 mewn perthynas â chostau ymgynghori oedd £715,045 (yn 2024/25 roedd yn £583,645.36) ar draws y meysydd canlynol:

£54,500	Trefniadaeth a rheoli newid
£128,284	Adnoddau Dynol, hyfforddiant ac addysg
£92,743	Eiddo ac adeiladu
£408,718	Strategaeth
£30,800	Cyllid
£715,045	

Gwariant ar staff dros dro

Y gwariant yn ystod 2025/26 mewn perthynas â chostau staff dros dro oedd £0.957m (2024/25 £1.407m). Mae'r gostyngiad o £0.450mil yn bennaf oherwydd gostyngiad yn nifer y staff asiantaethau digidol sydd mewn swyddi nad ydynt yn rheolaidd i gynorthwyo i gyflawni'r hyn y cytunwyd arno ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn ystod 2024/25.

Ymrwymadau oddi ar y gyflogres

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw elw yn 2025/26 ar gyfer ymrwymadau oddi ar y gyflogres. Mae hyn yn gyson â'r hyn a adroddwyd yn 2024/25.

Pecynnau ymadael

Mae gan yr Ymddiriedolaeth gost o £330,336 yn 2025/26 ar gyfer wyth pecyn ymadael i staff yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn cymharu â chost o £164,365 yn 2024/25. Disgrifir pecynnau ymadael yn Nodyn 10.5 yn y datganiadau ariannol.

Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru

Mae Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru yn darparu gwybodaeth am faterion fel rheoleidd-dra gwariant, ffioedd a thaliadau, a'r dystysgrif archwilio a'r adroddiad.

Rheoleidd-dra'r gwariant

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth sicrhau rheoleidd-dra ei hincwm a'i gwariant. Darparwyd tystiolaeth ddigonol o sicrwydd hyn fel rhan o'r archwiliad o'r broses gyfrifon a daw'r dystysgrif archwilio ar gyfer y cyfrifon i'r casgliad bod y gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol, ym mhob ffordd berthnasol, wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd Cymru a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadarnhau bod ei gwariant ar gyfer y flwyddyn yn rheolaidd.

Ffioedd a thaliadau

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod cost lawn darparu gwasanaethau masnachol yn cael ei throsglwyddo yn ei ffioedd a'i thaliadau ac mae'n cadarnhau bod rheolaethau priodol ar waith yn 2025/26 ynghylch sut, pryd ac ar ba lefel y codwyd taliadau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadarnhau bod ei ffioedd a'i thaliadau yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

Rhwymedigaethau digwyddiadol materol o bell

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol materol o bell o fewn ei chyfrifon ar gyfer 2025/26. Mae hyn yn gyson â'r hyn a adroddwyd yn 2024/25.

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilio

Mae tystysgrif ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i Senedd Cymru wedi'u hatodi ar y tudalennau a ganlyn.

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig fel y'u dehonglir a'u haddasir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Fawrhydi.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o amgylchiadau Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar 31 Mawrth 2026, ac o'i gwarged ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y cawsant eu dehongli a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi'u paratoi yn briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed dan y ddeddf honno gan Weinidogion Cymru.

Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o ddatganiadau ariannol endidau'r sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Rwyf fi a'm staff yn annibynnol o'r ymddiriedolaeth ac yn gweithredu'n unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marnau.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw o gyfrifo am gyfnod o o leiaf ddeuddeg mis o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae sail busnes hyfyw cyfrifyddu Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a fabwysiadwyd wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail busnes hyfyw cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

Rhagor o wybodaeth

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn

ddiamwys fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, fod yna gamddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno. Nid oes gennyf ddim i'w adrodd am hyn.

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad ar dâl cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol, yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2006, a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru; Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed o dan hynny gan gyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

Ystyriaethau yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth yr Ymddiriedolaeth a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad, yr Adroddiad Atebolrwydd na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a archwiliwyd yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;

- na ddatgelwyd gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EF neu Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill;
- na wneir datgeliadau penodol o daliadau a nodir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfedd â chanllawiau Trysorlys Ei Fawryhdi

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol
Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y canlynol:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu digonol;
- paratoi datganiadau ariannol ac adroddiad blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfarwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- rheolaethau mewnol y mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu'r Ymddiriedolaeth i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol
Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn darganfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl iddynt yn rhesymol, yn unigol neu yn eu cyfanrwydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holli rheolwyr, y pennaeth archwilio mewnol a'r rhai oedd yn gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru sy'n ymwneud â'r canlynol;
- nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
- canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig; a
- y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll wrth ddiystyru rheolwyr a chydabod gwariant;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru;
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth ymdrin â'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes.

Cyfathrebais hefyd gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol, www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

Cyfrifoldebau archwilwyr eraill

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
26 Mehefin 2026

1 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust

RHAN 3:

DATGANIADAU

ARIANNOL

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Rhagair

Mae'r cyfrifon hyn ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 wedi'u paratoi i gydymffurfio â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a fabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) Trysorlys EF, gan Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru o dan atodlen 9 adran 178 Para 3 (1) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42) yn y ffurf y cyfarwyddodd Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

Cefndir statudol

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth ym 1998. Rydym yn gwasanaethu ardal o ryw 8,000 milltir sgwâr sydd â phoblogaeth o fwy na 3 miliwn ac mae ein hardal amrywiol yn cwmpasu encilion gwledig tawel, cyrchfannau glan môr prysur a bwrdeistrefi trefol mawr.

Mae ein gwasanaethau amrywiol a modern wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer gwahanol anghenion amgylcheddol a meddygol pob cymuned, o feiciau i geir ymateb cyflym, ambiwlansys rheng flaen a nyrsys yn ein canolfannau rheoli.

Rydym yn ateb mwy na 250,000 o alwadau mewn argyfwng bob blwyddyn, dros 50,000 o alwadau brys ac yn cludo dros 1.3 miliwn o gleifion nad ydynt yn achosion mewn argyfwng i dros 200 o ganolfannau triniaeth ledled Cymru a Lloegr.

Ein staff ymroddedig yw ein hased mwyaf, ac rydym yn cyflogi tua 4,000 o bobl. Mae tua 70% o'n gweithlu yn ein gwasanaethau meddygol brys sy'n cynnwys ein Canolfannau Cyswllt Clinigol, ac mae tua 640 o staff yn gweithio yn ein Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS). Mae ein gwasanaethau sy'n delio â chleifion hefyd yn cael eu cefnogi gan gydweithwyr sy'n gweithio o fewn ein swyddogaethau corfforaethol a chymorth (tua 500 o staff) a'n gweithlu gwirfoddol estynedig gwerthfawr, gan gynnwys dros 1,000 o Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned (CFRs) a thua 300 o Yrwyr Ceir Gwirfoddol.

Rydym yn gweithredu o dros 90 o orsafoedd ambiwlans, tair prif ganolfan gyswllt, tair swyddfa ranbarthol a thri gweithdy cerbydau.

Mae gennym hefyd ein Coleg Hyfforddi Cenedlaethol ein hunain i sicrhau bod ein staff yn aros ar frig eu proffesiwn ac yn derbyn datblygiad proffesiynol rheolaidd.

Rydym yn cynnig hyfforddiant parhaus o ansawdd uchel, cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus rheolaidd ac adolygiadau datblygiad personol blynyddol.

Rydym hefyd yn darparu gwasanaeth 111 GIG Cymru, sef gwasanaeth cyngor a gwybodaeth iechyd 24 awr y dydd i'r cyhoedd ac elfennau ateb galwadau llinell flaen a brysbennu clinigol gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau.

Rheoli Perfformiad a Chanlyniadau Ariannol

Disodlodd Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2016/054 WHC/2015/014 'Dyletswyddau Statudol ac Ariannol Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG' ac mae'n egluro ymhellach ddyletswyddau ariannol statudol cyrff GIG Cymru ac mae'n weithredol ar gyfer 2025-2026. Mae'r ddyletswydd ariannol flynyddol wedi'i dirymu ac mae'r ddyletswydd adennill costau statudol wedi dychwelyd i ddyletswydd tair blynedd, gyda'r asesiad cyntaf o'r ddyletswydd hon yn 2016-2017.

O dan Ddeddf y Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, mae rhwymedigaethau ariannol Ymddiriedolaeth y GIG wedi'u cynnwys yn Atodlenni 4 2(1) a 4 2(2). Rhaid i bob ymddiriedolaeth y GIG sicrhau nad yw ei refeniw yn llai na digon, gan ystyried un flwyddyn ariannol gydag un arall, i gwrdd â gwariant y gellir ei godi'n briodol ar y cyfrif refeniw. Roedd yr asesiad cyntaf o berfformiad yn erbyn y ddyletswydd statudol 3 blynedd o dan Atodlenni 4 2(1) a 4 2(2) ar ddiwedd 2016-2017, sef y cyfnod asesu tair blynedd cyntaf.